Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales

## Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

# Digwyddiadau Ymgysylltu

Hydref / Tachwedd 2017

## Cofnod o Ddigwyddiadau

**Ebrill 2018**

# Cynnwys


| Adran | | Tudalen |
|---|---|---|
| **1** | Cyflwyniad | **4** |
| **2** | Pwrpas Digwyddiadau Ymgysylltu | **5** |
| **3** | Cofnod o'r Materion a Godwyd | **5** |

**Atodiadau**

| | | |
|---|---|---|
| **1** | Amcanion y Fframwaith cyn Ymgysylltu a'r Opsiynau Gwahanol | **28** |
| **2** | Amcanion y Fframwaith ar ôl Ymgysylltu a'r Opsiynau Gwahanol | **36** |
| **3** | Mynychwyr y Digwyddiadau Ymgysylltu | **83** |
| **4** | Pecyn i'r Mynychwyr cyn y Digwyddiadau | **87** |
| **5** | Sleidiau Cyflwyniadau'r Digwyddiadau Ymgysylltu | **101** |

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae Llywodraeth Cymru yn paratoi Fframwaith Datblygu Cenedlaethol i Gymru. Bydd y Fframwaith yn gynllun datblygu cenedlaethol dros 20 mlynedd, a bydd yn cymryd lle Cynllun Gofodol cyfredol Cymru.

1.2 Swyddogaeth y Fframwaith fydd:-

- dweud lle mae angen twf a seilwaith sy'n bwysig yn genedlaethol, a sut gall y system gynllunio - yn genedlaethol, rhanbarthol a lleol - ddarparu hynny;
- rhoi cyfarwyddyd i Gynlluniau Datblygu Strategol a Lleol, a chefnogi'r gwaith o benderfynu ynghylch Datblygiad o Arwyddocâd Cenedlaethol;
- bodoli ochr yn ochr â Pholisi Cynllunio Cymru i nodi polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru; a
- chefnogi strategaethau cenedlaethol ar gyfer yr economi, trafnidiaeth, yr amgylchedd, tai, ynni a diwylliant, a sicrhau bod modd eu cyflawni drwy'r system gynllunio.

1.3 Cynhaliwyd digwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru ym mis Ionawr a Chwefror 2017 i gefnogi'r gwaith o ddechrau ar broses y Fframwaith ac i helpu i wybod beth yw'r materion allweddol y dylai'r Fframwaith fynd i'r afael â nhw. Mae'r gwaith ymgysylltu wedi'i gofnodi yn y Cofnod o Ddigwyddiadau Ymgysylltu'r Fframwaith (Gorffennaf 2017) ac maen nhw'n sail i'r drafft cyntaf o Amcanion y Fframwaith a'r Opsiynau Gwahanol (Atodiad 1).

1.4 Yn Hydref a Thachwedd 2017, cynhaliwyd cyfres o 12 o ddigwyddiadau ymgysylltu ledled Cymru, a daeth 100 a mwy o gyfranogwyr o 61 o sefydliadau gwahanol (Atodiad 3).

| Dyddiad | Lleoliad | Nifer y Sesiynau |
|---|---|---|
| 6 Hydref* | Caerdydd | 1 |
| 9 Hydref | Caerdydd | 2 |
| 12 Hydref | Caerfyrddin | 1 |
| 13 Hydref | Llandrindod | 1 |
| 17 Hydref | Caerdydd | 4 |
| 19 Hydref | Cyffordd Llandudno | 1 |

| | | |
|---|---|---|
| 20 Hydref | Cyffordd Llandudno | 1 |
| 9 Tachwedd* | Cyffordd Llandudno | 1 |

** Cafodd y digwyddiadau hyn eu trefnu ar y cyd â RICS (Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig) Cymru a Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig Cymru.*

1.5 Anfonwyd pecyn gwybodaeth i'r mynychwyr cyn y digwyddiadau ymgysylltu, ac roedd hwnnw'n cynnwys Amcanion datblygol y Fframwaith a'r Opsiynau Gwahanol (Atodiad 4).

1.6 Mae'r ddogfen hon yn gofnod o'r digwyddiadau hyn a'r materion a godwyd ledled Cymru.

## 2 Pwrpas y Digwyddiadau Ymgysylltu

2.1 Cafodd y digwyddiadau eu trefnu i wneud y canlynol:-

- trafod y materion allweddol a'r dystiolaeth sy'n sail i baratoi'r opsiwn gorau ar gyfer y Fframwaith;
- trafod Amcanion datblygol y Fframwaith a'r Opsiynau Gwahanol, yn enwedig eu hagweddau cadarnhaol/negyddol a ph'un a ydynt yn realistig ai peidio; a
- bod yn sail i'r gwaith o ddatblygu'r opsiwn gorau ar gyfer y Fframwaith.

2.2 Rhoddwyd cyfle ar ôl y digwyddiadau ymgysylltu i gyflwyno sylwadau ychwanegol, gan gynnwys opsiynau gwahanol posibl.

2.3 Bydd yr holl dystiolaeth yn cyfrannu'n uniongyrchol at y gwaith o ddatblygu a mireinio Amcanion y Fframwaith a'r Opsiynau Gwahanol a'r ymgynghoriad yn Ebrill 2018 ynghylch y Materion, yr Opsiynau a'r Opsiwn Gorau.


## 3 Cofnod o'r Materion a Godwyd

3.1 Mae'r adran hon yn cofnodi'r materion a godwyd yn y deuddeg digwyddiad, ac mae'n rhan o sylfaen dystiolaeth y Fframwaith. Roedd pob digwyddiad yn canolbwyntio ar y pedwar Opsiwn Gwahanol, ac, i raddau llai, ar yr Opsiwn Meincnod. Mae'r adran wedi'u rhannu o dan yr

opsiynau hyn. Cafwyd sylwadau ysgrifenedig hefyd ar ôl y digwyddiad, ac mae'r rhain wedi'u cynnwys yn yr adran hon.

3.2 Mae'r adran yn darparu trosolwg o'r materion allweddol a godwyd mewn perthynas â phob opsiwn. Mynegwyd amrywiaeth o farn yn y digwyddiadau, ac i bob opsiwn. Nid yw'r sylwadau wedi cael eu hasesu na'u blaenoriaethu yn yr adroddiad hwn.

**Opsiwn Gwahanol 1**




*Rhan o'r cyflwyniad i'r digwyddiadau*

3.3 Roedd y trafodaethau ar Opsiwn Gwahanol 1 yn eang. Prif nod yr opsiwn oedd y byddai'n darparu ffocws clir ar gyfer penderfyniadau a buddsoddiad ac y byddai'n golygu ymdrech gadarnhaol, ragweithiol a bwriadol i fynd i'r afael â'r heriau economaidd sy'n wynebu Cymru.

3.4 Y prif wendidau yw ei fod, drwy benderfynu peidio â chanolbwyntio ar rannau mawr o Gymru, yn ceisio gwneud fawr ddim i fynd i'r afael yn uniongyrchol ag unrhyw fater sy'n digwydd y tu allan i'r craidd trefol. Byddai hyn yn gwaethygu pethau o ran cydraddoldeb.

3.5 Ystyrid bod yr opsiwn hwn yn opsiwn realistig y gellid ei fabwysiadu os penderfynir hynny. Mae Atodiad 2 yn darparu trosolwg cryno hirach.

## Materion a Godwyd

### Elfennau cadarnhaol Opsiwn 1

- Mae'r opsiwn hwn yn dweud lle mae Cymru gryfaf ac mae'n adeiladu ar hynny. Mae hyn yn beth cadarnhaol. Er mwyn bod yn llwyddiannus, rhaid i ni adeiladu ar y sefyllfa rydyn ni ynddi nawr, nid ar y sefyllfa yr ydyn ni'n dymuno bod ynddi. Mae'n anfon neges gref a chadarnhaol a fydd yn denu buddsoddwyr ac entrepreneuriaid i Gymru.

- Byddai'r opsiwn hwn yn darparu'r fframwaith i sicrhau'r seilwaith i gefnogi twf yn y dinasoedd a'u rhanbarthau. Mae'n cydnabod bod angen arweiniad clir i ganolbwyntio ar ddinasoedd. Mae hefyd yn darparu hyblygrwydd i ymateb i amgylchiadau sy'n newid tra hefyd yn canolbwyntio ar y nod cyffredinol o gynyddu gweithgarwch economaidd.

- Mae'r opsiwn hwn yn cydnabod mai dim ond drwy lywodraeth ganolog y gellir hybu prosiectau cenedlaethol mawr. Nid yw'n hawdd derbyn effeithiau prosiectau cenedlaethol ar lefel leol. Bydd yr opsiwn hwn yn gymorth i oresgyn rhwystrau gwleidyddol lleol. Byddai'n cyfeirio at seilwaith allweddol ac yn rhoi llawer mwy o sicrwydd i ddarparwyr cyfleustodau. Dyma gryfder allweddol.

- Mae'r opsiwn hwn yn cydnabod bod band eang a seilwaith digidol yn hanfodol i economi fodern. Dylid ei ddatblygu er mwyn hwyluso'r gwaith o'i gyflawni o'r lefel genedlaethol.

- Byddai'r opsiwn yn cysylltu ag uchelgeisiau i gael dyfeisiadau a thechnolegau gwyrdd mwyaf blaenllaw'r byd. Mae'n bwysig bod yr opsiwn hwn yn egluro nad peth drwg yw twf a bod y twf cywir yn cefnogi'r holl amcanion.

- Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar ddatblygiadau mewn nifer fach o ardaloedd daearyddol. Mae hyn yn rhywbeth i'w groesawu a bydd yn gymorth i gyfeirio cyllid at yr ardaloedd hynny er mwyn sicrhau'r twf.

- Er bod yr opsiwn hwn yn canolbwyntio ar dwf economaidd, byddai hefyd yn cefnogi amcanion diwylliannol, cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae’n bwysig cofio’r cysylltiad rhwng economi gref a’r gallu i fuddsoddi mewn meysydd eraill.

- Mae’n anghywir awgrymu bod yr opsiwn hwn yn methu oherwydd ei fod yn canolbwyntio ar un prif amcan yn unig yn hytrach nag ar amrywiaeth eang o amcanion neu ar bob un o’r amcanion llesiant. Gallech chi ddatblygu strategaeth yn seiliedig ar dwf economaidd sy’n cwrdd â’r holl nodau llesiant.

- Mae’r opsiwn hwn yn feincnod pwysig ar gyfer pob opsiwn arall. Hyd yn oed os yw rhywun yn anghytuno â’r opsiwn, rhaid ei gynnwys er mwyn deall canlyniadau dewisiadau gwahanol.

- Byddai’r opsiwn hwn yn darparu manteision cryf o ran creu swyddi, yr economi, iechyd, trafnidiaeth gyhoeddus a mwy o gystadleurwydd gyda’r DU a'r tu hwnt.

- Mae ffocws yr opsiwn hwn yn debyg i’r hyn sy’n cyfateb i'r Fframwaith yn yr Alban, sef datblygiad economaidd. Mae rhai eraill wedi mabwysiadu'r dull hwn a dylen ninnau wneud hefyd.

- Mae'r opsiwn hwn yn golygu bod rhaid i ni wneud penderfyniadau. Mae hyn yn bwysig. Rhaid i ni beidio ag osgoi penderfyniadau caled drwy fethu â blaenoriaethau un buddsoddiad neu un maes ar draul y llall.

- Mae’r opsiwn hwn yn cydnabod yn gywir mai'r symudiadau gofodol mwyaf hanfodol yng Nghymru yw’r rhai o’r dwyrain i'r gorllewin a dyma lle mae angen y buddsoddiad. Rhaid i'r opsiwn hwn ddeall yn iawn beth yw rôl y system drafnidiaeth ar gyfer cefnogi ardaloedd twf.

- Mae’r opsiwn hwn yn cydnabod yn gywir bod buddsoddiad a thwf yng Nghymru wedi’u cyfyngu gan dopograffi ac ni all ddigwydd mewn gwirionedd ond mewn ardaloedd adeiledig a’r cyffiniau.

**Gwelliannau a awgrymwyd i Opsiwn 1 a sylwadau**

- Dylai'r opsiwn hwn gydnabod nad yw dinasoedd a threfi’n bodoli ar wahân i'w rhanbarth, yn enwedig yng Nghymru. Gallai datblygu opsiwn o gwmpas dinasoedd fod yn ffordd gall ymlaen ond opsiwn gwell fyddai cydnabod y perthnasoedd rhanbarthol ehangach.

- Mae’r opsiwn hwn yn dawel iawn ar fater canolbarth Cymru. Gallai opsiwn gwell gydnabod potensial ynni economaidd canolbarth Cymru, i ddarparu ffocws ehangach ar gyfle economaidd ledled Cymru.

- Mae’r opsiwn hwn yn nodi'n rhesymol fod iechyd economaidd yn bwysig ond mae angen iddo ystyried y dull hwn yng nghyd-destun cyfyngiadau amgylcheddol posibl, y gofynion o ran capasiti a’r cyfyngiadau. Ni ellir cael economi gref mewn amgylchedd anghynaliadwy. Hefyd, ni ddylid meddwl bod ystyriaethau amgylcheddol yn rhwystr. Yn hytrach dylid meddwl amdanynt fel cyfle i wella Cymru.

- Mae’r opsiwn hwn yn cefnogi twf mewn modd cadarnhaol, sef rhywbeth i'w groesawu. Ond nid yw’n canolbwyntio ar sectorau allweddol fel twristiaeth, sef materion sy’n ymwneud â Chymru gyfan. Dylai opsiwn gwell gydnabod bod gweithgarwch economaidd cadarnhaol yn gallu digwydd y tu allan i'r dinasoedd, a bod angen i hynny ddigwydd.

- Mae cefnogaeth i’r opsiwn hwn ond dylai ganolbwyntio ar rôl busnesau llai o faint a buddsoddiadau llai o faint yn ogystal â rhai mawr. Mae’r rhain yn arbennig i bwysig yng Nghymru.

- Dylai'r opsiwn hwn gydnabod yn glir bod economi gref yn dibynnu ar ddiwydiant mwynau cryf. Bydd angen mwynau ar dwf, datblygiad a darparu seilwaith newydd.

- Er y byddai cefnogaeth gref i’r opsiwn hon yn y farchnad, byddai’n rhaid cydnabod y byddai angen cymorthdaliadau i'r farchnad o hyd. Nid yw'r farchnad yn ddigon cryf yng Nghymru, ac ni fyddai opsiwn ‘marchnad yn unig’ yn gweithio.

- Byddai angen i'r farchnad ddarparu seilwaith pwysig ar y cychwyn. Pethau ymatebol yw’r marchnadoedd, ac nid fel hyn maen nhw’n gweithio. Mae angen i unrhyw opsiwn ddeall bod angen buddsoddiad cyhoeddus, ac nad yw materion yn cael eu 'gadael i'r farchnad’.

- Dylid ehangu’r opsiwn hwn i gynnwys yr economi ehangach, ac yn enwedig yr economi wledig. Gall y farchnad wneud ei rhan i wella economïau gwledig a byddai croeso i gymorth i gyfleoedd busnes newydd, arallgyfeirio a buddsoddiad preifat mewn ardaloedd gwledig.

- Bydd polisïau a buddsoddiadau yn Lloegr yn dylanwadu ar yr opsiwn hwn (a’r holl opsiynau). Yn wleidyddol, nid ydym wedi mynd ati’n briodol

i ystyried y perthnasoedd trawsffiniol hyn a'r patrymau gofodol. Dylid diwygio'r opsiwn i wneud hyn.

**Elfennau gwanaf Opsiwn 1 na ddylid bwrw ymlaen â nhw**

- Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ormod ar y marchnadoedd ac mae'n cael ei yrru'n ormodol gan yr economi. Nid yw marchnadoedd yn 'cynllunio' ar gyfer y tymor hir nac yn ystyried yr amcanion cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach. Nid oes modd cyfiawnhau'r dull 'laissez-faire' hwn, hyd yn oed gyda materion fel Brexit.

- Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ormod ar seilwaith ynni ar raddfa fawr. Byddai opsiwn gwell yn ystyried cefnogi'r gallu i gynhyrchu ynni ar bob lefel.

- Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar dwf fel sbardun cadarnhaol. Mae'n bwysig cydnabod bod twf hefyd yn cyfrannu at dagfeydd, ansawdd gwael i'r aer, materion diogelwch, colli cynefinoedd ac ati. Dyna pam mae angen ei gynllunio a'i reoli'n briodol.

- Byddai'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar y ffyrdd a byddai'n methu â darparu system deithio fodern, integredig, cysylltiedig, hygyrch, cynaliadwy a llesol. Ni all y marchnadoedd wneud y math hwn o gynllunio oherwydd nid oes modd rhoi gwerth ariannol i lawer o'r materion a gefnogir ganddo, sef ansawdd yr aer, iechyd, diogelwch, ansawdd bywyd, mannau gwyrdd, dŵr glân, ac amgylcheddau cadarn amrywiol.

- Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ormod ar ddinasoedd, a byddai'n gwneud pethau'n waeth o ran anghydraddoldeb ac yn creu canlyniadau negyddol ym mhob man heblaw'r dinasoedd. Mae'n golygu dull sy'n ymwneud â 'De-ddwyrain Cymru', heb fawr o ddiddordeb yn unman arall.

- Mae'r opsiwn hwn yn caniatáu i'r farchnad greu elw ond heb fod yn gyfrifol am y gost. Dyma ddull anghynaliadwy a chynllunio gwael. Byddai perygl mawr petai'r farchnad yn methu.

- Mae'r opsiwn hwn yn diystyru'r dull sy'n ymwneud â llesiant, ac nid yw'n ystyried y materion a'r heriau mewn modd cyfannol.


- Nid yw'r opsiwn hwn yn meddwl ddigon am leoedd. Mae'n canolbwyntio ar un agwedd yn unig ar leoedd llwyddiannus, ac mae angen dull llawer mwy cyflawn.

- Mae'r opsiwn hwn yn edrych ormod i'r tu allan, ac nid yw'n meddwl ddigon am bobl yng Nghymru. Ni fyddai'n cefnogi amcanion mewn perthynas â'r Gymraeg.

- Byddai'r opsiwn hwn yn effeithio'n negyddol ar faterion tirwedd, ecolegol, biolegol a byd natur.

- Mae'r opsiwn hwn yn anwybyddu'r economi wledig. Ble mae amaethyddiaeth, bwyd, materion morol, twristiaeth, hamdden? Bydd yn gwneud pethau'n waeth o ran diboblogi cefn gwlad a lleihau gwasanaethau a seilwaith.

**Opsiwn Gwahanol 2**




*Rhan o'r cyflwyniad i'r digwyddiadau*

3.6 Roedd y trafodaethau ar Opsiwn Gwahanol 2 yn cydnabod mai un o heriau allweddol y system gynllunio yw cael cydbwysedd rhwng buddiannau cenedlaethol a buddiannau lleol. Prif gryfder yr opsiwn hwn yw ei fod yn ystyried Cymru gyfan ac y byddai'n canolbwyntio ar faterion sy'n effeithio ar fywydau pobl bob dydd.

3.7 Y prif wendid oedd y byddai canolbwyntio ar ganlyniadau ar y lefel leol yn golygu colli cyfle i fynd i'r afael â materion sy'n wirioneddol genedlaethol, sef rhai na ellir eu hystyried a chynllunio ar eu cyfer ond ar y lefel genedlaethol.

3.8 Ystyrid bod yr opsiwn hwn yn opsiwn realistig y gellid ei fabwysiadu os penderfynir hynny. Mae Atodiad 2 yn darparu trosolwg cryno hirach.

## Materion a Godwyd

### Elfennau cadarnhaol Opsiwn 2

- Mae'r opsiwn hwn yn darparu cefnogaeth i seilwaith digidol ledled Cymru gyfan. Mae hyn yn rhywbeth i'w groesawu a byddai'n cefnogi mwy o weithio o gartref, busnesau gwledig a darparu gwasanaethau.

- Byddai'r opsiwn hwn, gyda'i ffocws lleol, yn cefnogi unedau hybu a busnesau bach newydd, a byddai'n fwy addas i weithio gyda busnesau bach a chanolig. Mae potensial economaidd mawr i Gymru gan entrepreneuriaeth yn y gymuned.

- Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio'n gryf ar leoedd, ac mae hyn yn gryfder. Yn hytrach na chanolbwyntio ar ganlyniadau unigol mewn gwahanol feysydd polisi – tai, cyflogaeth, mannau gwyrdd, ynni – rhaid i ni ystyried y lleoedd a'r cymunedau y mae'r pethau hyn yn eu cyfuno i'w creu.

- Mae'r opsiwn hwn yn cydnabod pwysigrwydd mynediad at wasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion a gwasanaethau iechyd. Mae gan y Fframwaith ran hollbwysig i'w chwarae i sicrhau bod y rhain yn cael eu lleoli lle maent ar gael ar gyfer pawb, yn enwedig y bobl fwyaf difreintiedig, a'u bod yn gallu helpu i adeiladu a chynnal cymunedau.

- Byddai'r opsiwn hwn yn darparu'r gofod i ardaloedd lleol ddatblygu eu ffyrdd eu hunain o ymdrin â'r heriau sy'n eu hwynebu. Mae hyn yn well nag un ffordd benodol ar gyfer pob man. Mae cynlluniau bro yn enghraifft o gynllunio lleol llwyddiannus.

- Byddai’r opsiwn hwn yn cefnogi dull cynllunio o'r gwaelod i fyny. Byddai hyn yn llawer mwy effeithiol a chynrychioliadol na chyfarwyddyd o’r brig i lawr. Byddai’n sicrhau bod cymunedau’n gallu cymryd cyfrifoldeb dros eu gweithredoedd ac am ddelio â'r canlyniadau, e.e. gwastraff.

- Yr opsiwn hwn sy’n adlewyrchu'r Ddeddf Llesiant orau, ac mae’n ceisio sicrhau amrywiaeth o ganlyniadau mewn ffordd gyfartal a pheidio â blaenoriaethu un canlyniad dros y lleill.

- Mae’r opsiwn hwn yn darparu dull gofodol sy’n cefnogi cymunedau Cymru, gan sicrhau eu bod yn gynaliadwy ac yn caniatáu i bobl aros yn eu hardaloedd. Byddai'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar gefnogi cymunedau sy'n bodoli eisoes, yn hytrach na buddsoddi mewn trefi newydd neu ehangu ardaloedd trefol ac mae cefnogaeth iddo.

- Mae’r opsiwn hwn yn cydnabod bod perchnogaeth leol ar atebion yn llawer mwy cynaliadwy dros y tymor hir.

- Byddai'r opsiwn hwn yn rhoi cefnogaeth gadarn i fathau gwahanol o ddarpariaeth dai, gan gynnwys datblygiadau hunanadeiladu, datblygiadau pwrpasol a datblygiadau Cymru Un Blaned. Mae hyn yn rhywbeth cadarnhaol ac yn caniatáu atebion pwrpasol lleol i faterion tai lleol.

**Gwelliannau a awgrymwyd i Opsiwn 2 a sylwadau**

- Mae’r opsiwn hwn yn lledaenu'r ffocws daearyddol o gymharu ag opsiwn 1, ac mae hyn yn rhywbeth i'w groesawu. Ond mae’n bwysig peidio â mynd o sefyllfa sy’n canolbwyntio’n llwyr ar ddinasoedd i sefyllfa sy'n canolbwyntio ar bob man. Yn y dinas-ranbarthau y mae’r rhan fwyaf o boblogaeth Cymru yn byw, a gallai'r rheini fod yn ardaloedd cynllunio cydlynol. Mae’r rhain yn golygu ffocws gwell.

- Mae'r opsiwn hwn yn darparu cefnogaeth gref i ddatganoli'r gallu i gynhyrchu ynni. Mae hyn yn beth cadarnhaol iawn ond rhaid cydnabod y bydd angen atebion mwy o faint ar lefel genedlaethol hefyd.

- Mae’r opsiwn hwn yn rhoi cefnogaeth gadarnhaol i weithio o gartref. Er bod hon yn ffordd dda o fynd ati, mae’n bwysig cofio mai dim ond rhan fach o'r amgylchedd gweithio fydd hyn a bydd angen gweithleoedd traddodiadol o hyd - sef ffatrïoedd, swyddfeydd, siopau, ysbytai, gweithdai ac ati.

- Mae'r opsiwn hwn yn darparu gwrthbwynt diddorol i opsiwn 1, ac mae'r ymarferiad hwn yn ddefnyddiol iawn er mwyn gweld beth yw'r gwahanol ddewisiadau a beth maen nhw'n ei olygu. Mae'n bwysig cofio nad yw ein dewisiadau mewn gwirionedd mor ddu a gwyn. Er enghraifft, bydd canlyniadau cynaliadwy yn gofyn am gamau gweithredu ar y raddfa leol a'r raddfa genedlaethol, mewn dinasoedd, eu rhanbarthau a'r Gymru wledig. Dylai'r opsiwn gorau adlewyrchu hyn a bod yn fwy cytbwys.

- Mae'r opsiwn hwn yn rhoi cefnogaeth gadarnhaol i gamau gweithredu lleol ac atebion lleol, ac mae cefnogaeth i hyn. Rhaid cydnabod y bydd angen bob amser am atebion sy'n fwy na lleol. Oherwydd y brys a maint yr heriau sy'n wynebu Cymru, bydden ni'n cyfyngu ar ein gallu i sicrhau newid os atebion lleol fydd gennym ni i fynd i'r afael â phroblemau lleol. Mae cefnogaeth i'r dyhead ond gallai fod yn annheg codi disgwyliadau nad oes modd eu gwireddu.

- Mae'r opsiwn hwn yn realistig ac mae iddo agweddau cadarnhaol ond a fyddai Cymru fawr gwahanol ar ôl 20 mlynedd o'r dull hwn? Byddai angen newid diwylliannol enfawr er mwyn i'r dull hwn fod yn llwyddiannus.

- Mae'r opsiwn yn canolbwyntio ormod ar dai – mater pwysig wrth gwrs – ond dylid ei ehangu. Mae cyflogaeth a'r economi yn allweddol. Economi wledig gref sy'n gwrthdroi'r diboblogi er enghraifft.

- Drwy gefnogi cymunedau, byddai'r opsiwn hwn, sy'n gefnogol i adeiladau tai a darparu gwasanaethau ymhob rhan o Gymru, yn gymorth i wrthdroi diboblogi. Mae'n ddealladwy fod llawer o bobl wedi canolbwyntio ar hyn fel agwedd gadarnhaol. Ond mae'n bwysig cydnabod nad rhywbeth negyddol yw bod pobl yn gadael ardal, yn enwedig o'i ystyried ar lefel unigol, pan fo pobl yn gadael ar gyfer gwaith, y brifysgol, i fod yn nes at berthnasau, i ddechrau bywyd newydd ac ati.

**Elfennau gwanaf Opsiwn 2 na ddylid bwrw ymlaen â nhw**

- Roedd y cyflwyniad ar ddechrau'r digwyddiad yn cyfeirio'n gywir at yr heriau mawr sy'n wynebu Cymru yn ystod oes y Fframwaith. Mae angen atebion mawr ar heriau mawr. Byddai'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar anghenion cymunedau lleol yn hytrach na mynd i'r afael â materion cenedlaethol. Mae'n opsiwn sy'n teimlo'n dda ond ni fyddai'n darparu seilwaith.

- Nid yw’r opsiwn hwn yn cydnabod bod datblygiadau ar raddfa fawr yn darparu ac yn talu am fanteision cyhoeddus mewn ffordd nad yw’n bosibl i ddatblygiad ar raddfa fach ei wneud. Ar hyn o bryd mae ffyrdd, ysgolion, trafnidiaeth gyhoeddus, tai fforddiadwy a chyfleusterau eraill a seilwaith yn cael eu hariannu drwy ddatblygiadau newydd. Byddai symud draw oddi wrth brosiectau datblygu mawr yn golygu y byddech chi'n colli hyn.

- Nid yw’r opsiwn hwn yn cydnabod bod datblygiadau bach yn aml yn methu â darparu adran 106, gan gynnwys lle mae cyfraniadau’n gymesur â'r datblygiad. Bydd hyn yn llesteirio llawer ar y gwaith cyflawni. Pwy fyddai’n adeiladu'r datblygiadau bach a ragwelir?

- Ni fyddai'r opsiwn hwn yn cynnig unrhyw gymhelliad i fuddsoddi ac ni fyddai’n cynnig unrhyw sicrwydd nac eglurder. Byddai’r diffyg ffocws a blaenoriaethu’n ddrwg i Gymru, a byddai’n golygu colli cyfle pwysig.

- Mae’r opsiwn hwn yn awgrymu bod sefyllfa’n bodoli lle byddai modd datblygu lefelau uchel o wasanaethau, seilwaith a datblygiadau ym mhob man. Ac nid felly y mae hi. Mae’r broses yn ddefnyddiol er mwyn dangos y pwynt.

- Mae’r opsiwn hwn yn dangos y dylen ni, yn hytrach na chredu y bydd pob cymuned yn elwa ar yr un gwasanaethau a seilwaith, ganolbwyntio’r system gynllunio ar benderfynu lle fyddai orau i fathau penodol o ddatblygiad ac yna sut y gallwn ni fanteisio arnynt mewn modd cynaliadwy.

- Mae’r opsiwn hwn yn edrych am i mewn ac nid yw’n meddwl am berthynas Cymru â’n cymdogion a’r byd y tu hwnt.

- Mae’r opsiwn hwn yn debyg i Gynllun Cyflenwi Lleol. Nid yw’n darparu’r newid sylweddol sydd ei angen arnom ac nid yw’n delio â materion cyflawni. Mae tair haen i’n system gynllunio. Dylai pob haen weithredu ar y lefel y cafodd ei fwriadu ar ei gyfer.

- Anghywir a gor-syml yw dweud mai’r opsiwn hwn sydd fwyaf tebyg i'r Ddeddf Llesiant felly dyma’r opsiwn gorau. Mae angen ystyried y berthynas rhwng cynllunio a'r Ddeddf Llesiant yn ofalus. Er enghraifft, heb economi gref bydden ni’n methu ymhob nod. Gallwch chi gael opsiwn sy’n canolbwyntio ar yr economi ac sy’n cefnogi’r gwaith o gyflawni pob un o’r nodau Llesiant.

- Mae pryderon y bydd y Ddeddf Llesiant yn cael ei defnyddio i awgrymu y dylid trin pob man yn gyfartal. Mae hyn yn ddehongliad anghywir o ‘gydraddoldeb’ ac mae’n amhriodol. Ni ddylid trin rhanbarth â miliwn o bobl yr un fath â rhanbarth â 100,000 o bobl fel y mae’r opsiwn hwn i'w weld yn ei awgrymu.

- Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i’r llywodraeth ganolog ildio’i chyfrifoldeb dros gynllunio materion cenedlaethol a’i rhoi i ‘nimbys’. Fel arfer, gwrthwynebu pethau y mae cymunedau ymroddgar yn hytrach na chynllunio a gwneud dewisiadau anodd.

- Mae yna fater pwysig o ran ‘pwy’ fyddai’n cael ei gynrychioli fel y ‘gymuned’. Yn aml, mae’r system gynllunio, a phobl sy’n cymryd rhan ynddi, yn anghynrychioliadol gan eu bod yn hŷn, yn wyn ac yn ddosbarth canol ar y cyfan. Mae’n anodd ymgysylltu â chymunedau difreintiedig. Byddai'r opsiwn hwn yn caniatáu i bobl dda eu byd gefnogi agenda ‘nimbïaidd’ ac ni fyddai hynny er lles holl bobl Cymru.


- Mae’r opsiwn hwn yn methu â chydnabod bod angen fframwaith cenedlaethol i gynllunio’n briodol a darparu seilwaith ar raddfa fawr a chyfeirio twf yn strategol.

- Byddai’r opsiwn hwn yn methu â mynd i'r afael â materion sy'n rhai mwy na’r lleol, megis ynni, mewnfudo, gwastraff a mwynau.

- Nid yw’r opsiwn hwn yn un gofodol. Mae’n osgoi gwneud dewisiadau am unrhyw le. Mae’n gofyn am lawer fwy o arweinyddiaeth a chyfarwyddyd strategol gan Lywodraeth Cymru. Mae’r Fframwaith yn gyfle cadarnhaol i ddarparu hyn ac mae’n gyfle na ddylid ei golli.

- Mae’r opsiwn hwn yn cyfeirio at leihau’r angen i deithio. Peth cyffredinol iawn yw hyn, a dylai fod yn uchelgais i bobl symud o gwmpas yn effeithlon ac yn gynaliadwy. Bydd angen i bobl deithio o hyd, a dylai'r opsiwn adlewyrchu hyn.

## Opsiwn Gwahanol 3




*Rhan o'r cyflwyniad i'r digwyddiadau*

3.9 Roedd y trafodaethau ar Opsiwn Gwahanol 3 yn cydnabod pa mor hollbwysig yw mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd a'r agenda datgarboneiddio. Prif gryfder yr opsiwn hwn oedd y byddai'n cyfeirio'r camau gweithredu at bob lefel: ar draws Cymru gyfan; a bod y system gynllunio'n addas iawn i ddarparu'r newid sydd ei angen.

3.10 Prin oedd y sylwadau negyddol. Gallai rhai canlyniadau negyddol fod, megis costau ychwanegol a rhwystrau rhag datblygu. Efallai y gallen ni fod yn barod i dderbyn y rhain ond mae'n bwysig eu cydnabod.

3.11 Ystyrid bod yr opsiwn hwn yn opsiwn realistig y gellid ei fabwysiadu os penderfynir hynny. Mae Atodiad 2 yn darparu trosolwg cryno hirach.

## Materion a Godwyd

### Elfennau cadarnhaol Opsiwn 3

- Mae'r opsiwn hwn yn tanategu'r gwaith o gyflawni'r holl opsiynau eraill yn llwyddiannus. Nid oes economi gadarn (Opsiwn 1) na chymunedau cryfach (Opsiwn 2) heb amgylchedd gwydn a hinsawdd sefydlog. Felly, rhaid i'r opsiwn hwn siapio'r opsiwn datblygol a gosod y newid yn yr hinsawdd ar frig yr agenda.

- Drwy fabwysiadu opsiwn nad yw'n cefnogi'r amcanion hyn, mae'r canlyniadau negyddol posibl yn cyflwyno'r achos dros y dull hwn.

- O'r holl opsiynau, yr opsiwn hwn sydd fwyaf cyson â rôl a phwrpas system gynllunio. Ble mae pethau'n mynd, sut rydyn ni'n symud o gwmpas, sut rydyn ni'n defnyddio ein hadnoddau, - dyma gwestiynau y gall y system gynllunio eu hateb a sicrhau bod y penderfyniadau rydyn ni'n eu cymryd yn cyd-fynd â nod cyffredin. Dyma gyfle cyffrous i'r system gynllunio hybu newid.

- Bydd y gwaith o gyflawni'r opsiwn hwn yn gofyn am egwyddorion cynllunio cadarn, sef cynllunio ymhle a sut y bydd pethau'n cael eu hadeiladu, y rhyngweithio rhwng y ffyrdd o ddefnyddio tir ac asesiad o'r canlyniadau.

- Mae'r opsiwn hwn yn darparu cyfle i Gymru arwain y byd, hybu arloesi a bod ar flaen y gad o ran technoleg.

- Nid yw'r opsiwn hwn yn groes i'r opsiynau eraill. Tra bo Opsiynau 1 a 2 yn awgrymu dewis rhwng dau ddyfodol gwahanol, gall yr opsiwn hwn gefnogi economi gref, cymunedau cryf a rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Felly dyma'r opsiwn mwyaf effeithiol.

- Mae'r opsiwn hwn yn darparu fframwaith gofodol llawer mwy eglur nag Opsiwn 2.

- Byddai'r opsiwn yn cefnogi camau gweithredu ar bob lefel, o brosiectau cenedlaethol i gynlluniau lleol, ac mae hyn yn rhywbeth i'w groesawu. Gall effaith gronnol llawer o benderfyniadau bach fod mor bwysig ag ychydig o benderfyniadau mawr.

- Byddai'r opsiwn hwn yn darparu fframwaith ar gyfer penderfyniadau ledled Cymru gyfan ac ar bob lefel. Mae hyn yn gryfder. Gallai ddarparu

cyfarwyddyd pendant i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol.

- Byddai'r opsiwn hwn yn golygu newid diwylliannol mewn agweddau tuag at y dyfodol, er mwyn newid y ffordd rydyn ni'n teithio, yn mesur cyfoeth ac yn canolbwyntio canlyniadau ar gynaliadwyedd. Mae'n bwysig cael arweiniad gan Lywodraeth Cymru.

- Mae'r opsiwn hwn yn codi cwestiynau diddorol am ddyfodol y Gymru wledig. Ydyn nhw mewn lleoliadau cynaliadwy? A ddylen nhw dyfu? A yw diboblogi o ardaloedd gwledig ymylol i ddinas-ranbarthau mwy cynaliadwy yn rhywbeth a allai fod yn gadarnhaol?

- Mae'r opsiwn hwn yn rhoi cefnogaeth gadarnhaol i welliannau i'r seilwaith digidol. Mae hyn yn rhywbeth i'w groesawu.

**Gwelliannau a awgrymwyd i Opsiwn 3 a sylwadau**

- Dylai'r opsiwn hwn ddweud bod rhagdybiaeth o blaid camau i fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

- Mae angen i'r opsiwn hwn ystyried cyfyngiadau cronnol ar y tirwedd, yn enwedig o ran ynni'r gwynt, a allai effeithio ar y gwaith o ddarparu'r seilwaith angenrheidiol.

- Mae angen fframwaith ar gyfer cyflawni prosiectau mawr a phrosiectau ar bob lefel, yn enwedig mewn perthynas ag ynni a thrafnidiaeth. Nid y dewis yw eu cyflawni ar y brig ynteu ar y gwaelod.

- Nid 'trefol' neu 'wledig' yw'r dewisiadau y mae'n rhaid i ni eu gwneud wrth ystyried sut i ymateb i'r newid yn yr hinsawdd a chyflawni'r agenda newid yn yr hinsawdd, yn hytrach 'ble mae modd i ni wneud y gwahaniaeth mwyaf arwyddocaol?'

- Mae'r opsiwn hwn yn rhagdybio mai safleoedd tir llwyd yw'r mwyaf cynaliadwy. Nid felly y mae bob amser. Gall gwerth o ran bywyd gwyllt fod yn gysylltiedig â safleoedd tir llwyd. Gall safleoedd maes glas amaethyddol fod â fawr ddim gwerth ecolegol. Gall safleoedd tir llwyd fod mewn lleoliadau anghynaliadwy, a gall safleoedd maes glas fod mewn lleoliadau llawer mwy hygyrch. Mae angen i'r fframwaith sicrhau ein bod ni'n gwneud y dewisiadau cywir a pheidio â bod yn ddogmataidd.

- Un her allweddol sy'n gysylltiedig â mynd ynglŷn â'r opsiwn hwn yw peidio â lladd ar geir. Maen nhw'n hanfodol i lawer o grwpiau sydd dan anfantais a gallan nhw gyfrannu at wneud cymdeithas yn fwy cyfartal.

- Mae angen i'r opsiwn hwn cefnogi camau i symud cymudwyr oddi ar y ffyrdd a sicrhau bod modd defnyddio'r ffyrdd a'r rheilffyrdd i ddibenion economaidd.

- Mae angen i'r opsiwn sicrhau ein bod ni'n meddwl yn llawer ehangach na'n ffiniau, ac yn enwedig y rhanbarthau sy'n ffinio â ni yn Lloegr.

- Dylai'r opsiwn gorau ddarparu cyfarwyddyd o'r brig i lawr i ddarparu pwyntiau gwefru ar gyfer ceir trydan.

- Mae angen i'r opsiwn fod yn gyson â pholisi'r DU. Bydd gwahaniaethau ym mholisïau llywodraeth y DU a llywodraeth Cymru yn peri dryswch a bydd yn gwanhau'r gwaith o'u cyflawni.

**Elfennau gwanaf Opsiwn 3 na ddylid bwrw ymlaen â nhw**

- Mae angen i'r opsiwn hwn ystyried y posibilrwydd y bydd yna ganlyniadau negyddol. Efallai y bydd y rhain yn dderbyniol ond mae'n bwysig eu cydnabod a'u hystyried yn ystod y cyfnod profi.

- Gallai'r opsiwn hwn, a'r gofynion y mae'n eu rhoi ar ddatblygiadau newydd, olygu rhagor o faich o ran hyfywedd datblygiadau. Y canlyniad efallai yw bod datblygiad a allai ddod i Gymru yn mynd i Loegr yn lle hynny.


- Gallai'r opsiwn hwn olygu costau ychwanegol a/neu fwy o ofynion adeiladu. Gellid talu'r costau hyn mewn ardaloedd cefnog. Ni ellir gwneud hynny yn yr ardaloedd tlotaf, a chanlyniad anfwriadol y dull hwn fyddai ymestyn y bwlch rhwng ardaloedd cefnog a thlawd.

- Gallai'r opsiwn hwn effeithio ar ddyfodol diwydiannau sy'n bodoli eisoes, megis y gweithfeydd dur ac awyrofod a/neu seilwaith allweddol megis adeiladu ffyrdd a meysydd awyr.

- Gallai Deddf yr Amgylchedd a'r Ddeddf Llesiant danseilio'r opsiwn hwn. Mae gormod o strategaethau ac amcanion gwahanol yn cystadlu â'i gilydd. Rhaid sicrhau nad yw'r system gynllunio'n cael ei chyfyngu rhag gwneud y penderfyniadau cywir gan bolisïau sydd â bwriadau da ond sy'n anghyson.

- Mae'r opsiwn hwn yn ceisio lleihau'r angen i deithio. Os gellir teithio mewn modd cynaliadwy, nid yw hynny'n broblem a dylai gwireddu hynny fod yn flaenoriaeth.

## Opsiwn Gwahanol 4




*Rhan o'r cyflwyniad i'r digwyddiad*

3.13 Y trafodaethau am Opsiwn Gwahanol 4 arweiniodd at y farn gryfaf a'r sbectrwm ehangaf o farn. Roedd rhai pobl yn gryf o blaid a rhai yn gryf yn erbyn. Ystyrid mai dyma'r opsiwn mwyaf Cymreig ei natur a'i fod yn ymgais i wneud rhywbeth gwahanol.

3.14 Mynegwyd barn fod croeso i uchelgais graidd yr opsiwn hwn, ond o'i ystyried yn ei gyfanrwydd nid oedd yn strategaeth genedlaethol lawn. Roedd pryderon na fyddai'r dull hwn yn mynd i'r afael â'r materion mwyaf sy'n ein hwynebu.

3.15 Ystyrid bod yr opsiwn hwn yn opsiwn realistig ac roedd consensws barn y dylai’r broses brofi, boed rhywun yn cytuno â hi neu beidio, olygu archwilio opsiynau gwahanol fel hwn ac ni ddylid eu diystyru. Mae Atodiad 2 yn darparu trosolwg cryno hirach.

**Elfennau cadarnhaol Opsiwn 4**

- Byddai'r opsiwn hwn yn berthnasol i’r rhan fwyaf o Gymru oherwydd gwlad wledig ydyn ni. Dyma’r un mwyaf unigryw a’r un sy'n teimlo’n ‘Gymreig’. Gallai'r opsiynau eraill fod yn berthnasol i unrhyw le.

- Byddai’r opsiwn hwn yn creu llai o hollt cymdeithasol, ac yn arwain at ddosbarthiad mwy cytbwys mewn cyfoeth ac adnoddau.

- Mae’r opsiwn hwn yn cydnabod bod rhaid rheoli ein hadnoddau naturiol mewn modd cynaliadwy os yw ein heconomi i fod yn gallu ffynnu. Mae’n hanfodol nodi ein hadnoddau naturiol, a’u hegwyddorion rheoli, yn y Fframwaith.

- Bydd yr opsiwn hwn yn cefnogi egwyddorion yr economi gylchol a fydd yn gymorth i sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli’n gynaliadwy.

- Drwy ganolbwyntio ar yr adnoddau sydd gan Gymru ac a fydd ganddi yn y dyfodol, bydd yr opsiwn hwn yn ein helpu i gwrdd â’r heriau a ddaw o ganlyniad i Brexit a bydd yn golygu ein bod ni'n dibynnu llai ar fewnforion tramor.

- Bydd yr opsiwn hwn yn cefnogi ein diwydiant twristiaeth. Nid yw twristiaeth wedi cael ei chydnabod fel ased yn y gorffennol, a gall fod yn rhan gref o’n heconomi.

- Mae adnoddau naturiol Cymru yn golygu ein bod mewn sefyllfa dda i fanteisio ar gyfleoedd ar gyfer twristiaeth gweithgareddau ac ecodwristiaeth. Dylen ni greu cysylltiad rhwng twristiaeth a’n hasedau bioamrywiaeth.

- Rhaid i'r opsiwn hwn sicrhau ein bod ni’n caniatáu i’n hasedau twristiaeth gael eu gwireddu. Er enghraifft, rhaid i dirweddau sy’n denu pobl i Gymru fod yn hygyrch a chynnwys cyfleusterau megis parcio.

- Mae’n bosibl i seilwaith gwyrdd drawsnewid dinas-ranbarthau ac arwain at ffordd newydd o ddeall yr hyn y gallan nhw fod. Gallan nhw gael eu siapio gan seilwaith gwyrdd, sy’n cefnogi teithio llesol a throi’n fannau gwyrdd gwahanol iawn i fyw ynddynt.

- Byddai'r opsiwn hwn yn cefnogi prosiectau ynni'r llanw a'r gwynt, a gallai'r rheini greu swyddi a rhoi manteision economaidd.

- Rhaid i fioamrywiaeth fod yn rhan annatod o'r opsiwn hwn, a chaniatáu i ni gofnodi gwerth ein hadnoddau naturiol.

- Mae'r opsiwn hwn yn cefnogi Opsiwn 3 ac fe fyddai, er enghraifft, yn helpu i sicrhau hunangynhaliaeth o ran bwyd.

- Gall yr opsiwn hwn gefnogi manteision ehangach mewn meysydd fel teithio llesol a chynaliadwy, twristiaeth, iechyd a'r amgylchedd.

- Yr opsiwn hwn yw'r anoddaf i'w ddychmygu yn y lle cyntaf, ac mae'n codi cwestiynau diddorol. Mae'n bwysig ystyried yr opsiwn hwn a'n bod ni'n meddwl sut gall ei elfennau cryfaf gefnogi'r opsiwn datblygol.

**Gwelliannau a awgrymwyd i Opsiwn 4 a sylwadau**

- Mae Opsiwn 3 ac Opsiwn 4 yn nodi costau sy'n gysylltiedig â'r newid yn yr hinsawdd, gan gael safbwynt tymor hir ac ystyried yr effeithiau tymor hir. Gall hyn fod yn gymorth i fframio'r agenda. Mae angen meddwl yn y tymor hir hefyd er mwyn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar feddwl a chynllunio ar gyfer y tymor hir.

- Yn aml, ystyr cynaliadwy yn y cyd-destun gwledig yw rhagor o ddatblygu. Ai dyna rydyn ni'n ei feddwl? Bydd pobl yn dehongli'r opsiwn hwn yn wahanol iawn. Bydd rhai pobl yn meddwl ei fod yn golygu bod datblygu yn rhywbeth sy'n helpu i wireddu ein hadnoddau naturiol yn iawn, a bydd rhai eraill yn meddwl nad yw datblygu yn rhywbeth derbyniol.

- Ar y cyfan, mae'r egwyddorion sy'n sail i'r opsiwn yn rhai clodwiw a phwysig ond mae angen bod yn gymesur. Maen nhw'n rhan o'r ateb ond nid nhw yw'r ateb.

- Dylid datblygu'r opsiwn hwn ochr yn ochr ag opsiynau eraill a'u cefnogi. Nid yw'n opsiwn ar ei ben ei hun.

- Gellid cyplysu'r opsiwn hwn gydag opsiwn 3 i ddatblygu arbenigedd economaidd.

- Dylid datblygu'r opsiwn hwn i ganfod lleoliadau strategol ar gyfer aneddiadau a choridorau seilwaith gwyrdd ac i ddarparu fframwaith ar gyfer cyllid Adran 106 / Ardoll Seilwaith Cymunedol.

- Dylai'r opsiwn hwn sicrhau bod mynediad i'r cyhoedd at ardaloedd gwyrdd yn egwyddor allweddol. Ni ddylid eu cadw mewn modd sy'n golygu bod cyfyngiad ar fynediad.

- Dylai'r opsiwn hwn ddarparu seilwaith ar gyfer cerbydau trydan.

- Prin yw'r cyfeiriad at fwynau yn yr opsiynau. Dyma un o'n hadnoddau naturiol pwysicaf.

- Rhaid i'r opsiwn datblygol symud draw oddi wrth yr economi vs yr amgylchedd a nodi manteision pob un i greu opsiwn cytbwys cyfannol.

- Yn yr opsiwn hwn, dim ond un elfen sydd yno o'r hyn sydd angen i ni ei wneud i gyflawni'r amcanion llesiant. Rhaid i'r opsiwn datblygol fod yn fwy cyflawn.

**Elfennau gwanaf Opsiwn 4 na ddylid bwrw ymlaen â nhw**

- Nid yw'r opsiwn hwn yn sail i strategaeth ofodol genedlaethol. Naïf yw meddwl ei fod.

- Mae'r opsiwn hwn yn gosod gormod o bwys ar yr amgylchedd ar draul yr economi. Rhaid i'r opsiwn gorau fod yn gytbwys.

- Byddai'r opsiwn hwn yn sicr yn gyrru buddsoddiad draw o Gymru i ardaloedd sydd â chyfundrefnau cynllunio mwy realistig.

- Byddai'r opsiwn hwn yn cyfyngu ar dwf economaidd ac yn arafu'r economi. Mae'n fframwaith a fydd, yn sicr, yn atal datblygu.

- Mae'r opsiwn hwn yn rhagdybio, yn anghywir, fod cysylltiad rhwng adnodd a'r gymuned gerllaw. Yn y rhan fwyaf o achosion, nid felly mae. Ni fydd coedwigaeth, mwynau, dŵr, bwyd, adnoddau bioamrywiaeth yn creu cyfoeth na manteision uniongyrchol i'r rhan fwyaf o bobl sy'n byw gerllaw.

- Bydd yr opsiwn hwn yn annog Cymru i fod yn ardal amwynderau ar gyfer Lloegr. Bydd yn annog perchnogaeth ar ail gartrefi, er drwg i gymunedau lleol.

- Bydd yr opsiwn hwn yn hyrwyddo 'ecodwristiaeth ddosbarth canol' nad yw'n gwneud fawr ddim lles i'n cymunedau.

- Drwy ganolbwyntio ar wireddu gwerth ein hadnoddau naturiol, mae'r opsiwn hwn mewn gwirionedd yn mentro datblygiadau anghynaliadwy. Ni allwn seilio dyfodol Cymru ar grŵp penodol o adnoddau heb fentro

gorddefnyddio'r adnoddau hynny. Nid oes digon o fanylder yn yr opsiwn i roi sicrwydd.

- Mae'r opsiwn hwn yn mentro creu proses reoli afresymol a rhy fiwrocrataidd.

- Mae'r opsiwn hwn yn cefnogi twristiaeth ac mae hyn i'w groesawu, ond rhaid cydnabod bod twristiaeth yn gallu gwrthdaro â nodau eraill – amaeth, tyrbinau gwynt, ynni adnewyddadwy. Sut bydd modd datrys y gwrthdaro hwn?

- Mae'r opsiwn hwn yn cofleidio dull cyfyngedig iawn. Nid yw'n adlewyrchu'r materion mwyaf taer yng Nghymru, sef swyddi, cartrefi, anghydraddoldeb, hygyrchedd, ysgolion ac ysbytai.

- Mae'r opsiwn hwn yn cynrychioli barn yr elît ''nimby', cefnog a breintiedig yng Nghymru. Nid yw'n cynrychioli'r rhan fwyaf o brofiad pobl o fywyd, ac nid yw'n mynd i'r afael â'r problemau sy'n eu hwynebu. Roedd y cyflwyniad yn amlinellu gwendidau economaidd strwythurol sylfaenol ein heconomi. Nid yw'r opsiwn hwn yn gwneud dim i fynd i'r afael â'r rhain.

- Ni fyddai'r opsiwn hwn yn mynd i'r afael â'r materion cyflenwi sy'n gysylltiedig â phrosiectau seilwaith mawr.

- Nid yw'r opsiwn hwn yn realistig ac mae'n mynd yn groes i Ffyniant i Bawb.

- Nid oes ffocws cymdeithasol i'r opsiwn hwn.

- Mae bwriadau da i'r opsiwn hwn ond mae'n naïf. Nid yw gwlad fodern, ddeinamig a llewyrchus yn seilio ei hun ar ddyrnaid o adnoddau naturiol.

- Mae'r opsiwn hwn wedi dethol yr adnoddau naturiol y mae'n cyfeirio atynt. Ymhle mae'r mwynau?

- Byddai'r opsiwn hon yn atal rhai o'r storïau gwirioneddol am lwyddiant yng Nghymru ar sail e.e. effeithiau ar dirweddau neu golli safleoedd maes glas megis Greenwood, Bluestone, Folly Farm.

- Mae lliniaru a gwella eisoes yn rhan o'r system gynllunio. Mae'r system gynllunio eisoes yn ceisio sicrhau datblygu cynaliadwy. Mae'r opsiwn hwn yn tynnu sylw at bethau y dylen ni fod yn eu gwneud eisoes. Ond drwy eu codi i lefel strategaeth genedlaethol, mae perygl y bydd hynny'n rhoi gormod o bwys arnynt wrth wneud penderfyniadau.

## Sylwadau Eraill

3.16 Codwyd nifer o bwyntiau eraill.

3.17 Ystyrid ei bod yn bwysig profi pob opsiwn. Roedd hyn yn cynnwys y mannau lle nad oedd pobl o reidrwydd yn cytuno ag opsiwn gwahanol. Cydnabuwyd y byddai’r profion yn dangos y cryfderau a’r gwendidau ac roedd ffydd y byddai’r profion yn dangos lle roedd pobl o'r farn fod opsiwn yn wan.

3.18 Roedd croeso i dryloywder y dull hwn. Roedd yn fodd i bobl ddeall sut mae’r opsiwn gorau’n dod o'r gwaith datblygu a phrofi’r opsiynau. Roedd dealltwriaeth y byddai’r ymgynghoriad sydd ar y gweill yn rhoi cyfle i roi sylwadau ffurfiol ac i weld yr adroddiadau ISA ategol.

3.19 Awgrymwyd y dylid datblygu'r 4 opsiwn dan benawdau'r amcanion. Er y gallai’r opsiwn gorau terfynol gael ei gyflwyno’n wahanol, byddai’n ddefnyddiol ar hyn o bryd i gael llinyn clir o'r amcanion i’r opsiynau.

3.20 Nodwyd bod iechyd yn fater pwysig a oedd yn gysylltiedig â llawer o agweddau ar y Fframwaith datblygol. Awgrymwyd y dylid cynnwys iechyd fel amcan gwahanol.

3.21 Dywedwyd bod y rhan o'r cyflwyniad ar ‘Gymru 2040’ yn ddefnyddiol, ac awgrymwyd bod yr elfen hon yn cael ei chadw wrth ddatblygu'r 4 opsiwn.

3.22 Cafwyd rhai trafodaethau hirfaith ar yr amcanion. Cydnabuwyd bod y fersiynau cychwynnol yn cael eu rhannu cyn gynted â phosibl. Ystyrid y byddai’n werth ehangu’r rhain yn fawr yng ngham nesaf y broses er mwyn rhoi rhagor o wybodaeth am yr hyn oedd yn cael ei fwriadu. Byddai camau yn y dyfodol yn eu hadolygu eto ac yn rhoi cyfle i’w mireinio ymhellach os oes angen.

# Atodiad 1

## Amcanion y Fframwaith cyn Ymgysylltu a'r Opsiynau Gwahanol

# Amcanion y FfDC

| Amcanion y FfDC | | |
|---|---|---|
| 1 | **Asedau Diwylliannol** | Diogelu a gwella asedau cenedlaethol presennol a hwyluso datblygiad diwylliannol newydd. |
| 2 | **Tai** | Cyfeiriad strategol ar gyfer tai cymdeithasol a phreifat o ansawdd da ac sy'n gysylltiedig â seilwaith. |
| 3 | **Newid yr Hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni** | Ymateb i effeithiau newid yn yr hinsawdd, hwyluso datgarboneiddio a helpu i ddarparu ynni adnewyddadwy a charbon isel. |
| 4 | **Band-eang ac Isadeiledd digidol** | Hwyluso seilwaith ar draws Cymru gyfan, nawr ac yn y dyfodol. |
| 5 | **Ffyniant Economaidd ac Adfywio** | Cefnogi arloesi a datblygu technolegol. Cynllunio datblygiad economaidd ar sail isadeiledd a'r boblogaeth. Cefnogi arbenigeddau, clystyru a rhanbarthau unigryw. |
| 6 | **Cefn Gwlad Cymru** | Cefnogi gweithredau sy'n cryfhau cymunedau drwy ddenu a chadw pobl. Ymateb i heriau a chyfleoedd mewn amaethyddiaeth. |
| 7 | **Rhanbarthau dinesig** | Cefnogi cytundebau Dinas yn y de-ddwyrain, y de-orllewin a’r gogledd. |
| 8 | **Trafnidiaeth** | Lleihau'r angen i deithio. Hwyluso'r broses o ddarparu'r isadeiledd trafnidiaeth allweddol, gan gynnwys trydaneiddio’r rwydwaith reilffyrdd, y metro, maes awyr Caerdydd a phorthladdoedd allweddol. |
| 9 | **Rheolaeth Gynaliadwy o’n Adnoddau Naturiol** | Rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Cryfhau gwytnwch safleoedd dynodedig, cynefinoedd a bioamrywiaeth. Cefnogi’r egwyddor o atebion sy'n seiliedig ar natur, economi gylchol a thwf gwyrdd. |
| 10 | **Y Gymraeg** | Helpu i greu amodau i sicrhau 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg. |

# Opsiynau Amgen

| Amgen 1 – Ffocws ar y farchnad rydd |
|---|
| **Trosolwg**<br><br>Twf a datblygiad yr economi yw'r brif flaenoriaeth. Ymddiriedir yng ngallu'r farchnad rydd i fynd i'r afael â heriau ac mae angen sicrhau bod busnes yn ymatebol, yn gallu datblygu atebion a dulliau gweithredu newydd ac na chyfyngir ar fusnesau gan y system gynllunio. Mae'n hwyluso datblygiad ac yn manteisio i'r eithaf ar y ddarpariaeth o gyfleoedd economaidd, gan gynnwys datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol (DNS).<br><br>Mae'r FfDC yn ceisio helpu cyflawni nodau traws-lywodraethol, fel amddifadedd, adfywio, iechyd corfforol a meddyliol, drwy hwyluso twf economaidd. |
| **Tybiaethau allweddol**<br><br>• Nodi DNS ar gyfer isadeiledd a phrosiectau datblygu allweddol<br>• Lefelau uchel o fuddsoddiad i drafnidiaeth, ynni ac isadeiledd digidol.<br>• Dinasoedd a'u rhanbarthau fydd yn gyrru twf economaidd yn bennaf<br>• Lefelau uwch o godi tai a datblygiad economaidd, gyda thir glas yn cael ei ryddhau<br>• Ymlacio ar rai rheolau cynllunio a phwerau amgylcheddol.<br>• Ymdrechu i wella cysylltedd mewnol ac allanol, gan gynnwys gwell gysylltiadau awyr, môr, ffordd a'r rheilffordd cyflymder uchel i Loegr a thu hwnt.<br>• Y sector preifat fydd yn arwain buddsoddiad yn y sectorau ynni a gwastraff. |

## Amgen 2 – Ffocws Gymunedol

**Trosolwg**

Gyrrir hyn gan greu cymunedau cryf, lleol. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod pawb yn cael mynediad i swyddi, tai, gwasanaethau a'r cyfleusterau y mae arnynt eu hangen. Caiff buddiannau'r rhai mwyaf anghenus eu blaenoriaethu ar gyfer gweithredu ac mae pwyslais cryf ar bobl ac ar eu lles. Bydd mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, cynhwysiant cymdeithasol a gwella iechyd yn ystyriaethau allweddol.

**Tybiaethau allweddol**

- Mae gwella iechyd a lles yn allweddol, gyda gwelliannau o ran ansawdd aer wedi'i targedu.
- Mae adfywio a mynd i'r afael ag amddifadedd yn ffocws allweddol, gyda datblygu economaidd yn canolbwyntio ar yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.
- Bydd cefnogaeth i dai fforddiadwy lleol, gyda chefnogaeth gref ar gyfer hunan-adeiladu a thai yn lleol.
- Mae hygyrchedd yn ganolog i wneud penderfyniadau a rhaid i ddewisiadau lleoliadol wella hygyrchedd i holl aelodau'r gymdeithas.
- Pwysleisir cysylltedd digidol yn y FfDC.
- Rhoddir blaenoriaeth i gynlluniau ynni adnewyddadwy sy’n eiddo i;r gymuned
- Cefnogaeth gryf i’r egwyddor o economi gylchol a thrin gwastraff fel adnodd.
- Patrymau anheddau cynaliadwy – cartrefi yn agos at swyddi a gwasanaethau a chyfleusterau allweddol, gan leihau'r angen i deithio a sicrhau patrymau defnydd tir cynaliadwy.

## Amgen 3 – Ffocws ar ddatgarboneiddio

**Trosolwg**

Newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio yw’r ystyriaethau sylfaenol. Caiff penderfyniadau a wneir drwy gyfrwng y system cynllunio eu llywio gan yr angen i ddatgarboneiddio a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bydd targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy ac allyriadau yn dylanwadu’n sylweddol ar y dewis hwn. Bydd patrymau trefol a gwledig presennol yn cael eu haddasu i wella'u cynaliadwyedd. Bydd rhaglenni i addasu adeiladau sy'n bodoli eisoes a ffabrig trefol, megis rhaglenni effeithlonrwydd ynni, yn cael ei cefnogi. Gall fod cyfyngiadau ar rhai gweithredoedd ac rydym yn derbyn bod rhaid gwneud penderfyniadau anodd er mwyn cyflawni manteision tymor hir

**Tybiaethau allweddol**

- Rhaid i ddatblygiadau allu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Ni fydd amcanion economaidd yn gorbwyso cyflawni amcanion newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio.
- Mae lleihau symudiadau trafnidiaeth, tagfeydd a allyriadau yn dylanwadu ar benderfyniadau allweddol.
- Bydd ailddefnyddio safleoedd tir llwyd yn cael blaenoriaeth.
- Rhoddir flaenoriaeth i gysylltiadau rheilffordd. Bydd cysylltiadau â’r DU ac yn rhyngwladol yn digwydd drwy reilffyrdd ac ar y môr.
- Rydym yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn frwd ac yn dod a defnydd o danwyddau ffosil il ben.  Nodir ardaloedd ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy.
- Mae effeithlonrwydd ynni’n cael ei hyrwyddo'n gryf, fel yw seilwaith storio a throsglwyddo ynni.
- Datblygir cynigion rheoli llifogydd cynaliadwy ar raddfa fawr.

## Amgen 4 – Ffocws ar wydnwch adnoddau naturiol

**Trosolwg**

Adeiladu cydnerthedd a gwydnwch ein hadnoddau naturiol yw'r sbardun polisi sylfaenol. Bydd pwyslais cryf ar bwysigrwydd cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol. Bydd y FfDC yn arwain datblygiad i'r lleoliadau mwyaf addas, gan flaenoriaethu'n gryf y goblygiadau o ran adnoddau naturiol mewn prosesau gwneud penderfyniadau gofodol. Bydd y FfDC yn sefydlu fframwaith gofodol ar gyfer seilwaith gwyrdd newydd.

**Tybiaethau allweddol**

- Egwyddorion SMNR yw ffactor allweddol yr opsiwn hwn.
- Ceisio cryfhau cydnerthedd adnoddau naturiol fel y canlyniad allweddol fydd y prif amcan ym mhob penderfyniad ar ddefnydd tir.
- Bydd y graddau o gynefinoedd a rhwydweithiau gwyrdd yn cynyddu.
- Bydd effeithiau ar fioamrywiaeth, tirweddau, cyrff dŵr a phridd yn cael eu lliniaru ac addasu.
- Bydd blaenoriaeth i reoli llifogydd mewn modd cynaliadwy.
- Bydd rhwydweithiau gwyrdd arloesol yn cael eu datblygu y Dinas-ranbarthau, gan sicrhau manteision ar gyfer symudedd rhywogaethau a pharhad cynefinoedd.
- Ffurfir rhwydweithiau gwyrdd ochr yn ochr â llwybrau trafnidiaeth allweddol.
- Bydd poblogaethau rhywogaethau a'u cynefinoedd yn cael eu gwella.
- Bydd rhagdybiaeth o blaid camau gweithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

## Amgen 5 - Nid yw’r FfDC yn cael ei baratoi

**Trosolwg**

Byddai'r dewis amgen hwn yn golygu nad yw’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael ei baratoi. Bydd Cynllun Gofodol Cymru yn parhau fel y cynllun gofodol cenedlaethol, er nad oes ganddo statws cynllun datblygu. Byddai gallu'r system gynllunio i ymateb i ofynion Deddf yr Amgylchedd, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ac amcanion datgarboneiddio'r Llywodraeth Cymru yn cael eu cyfyngu i gamau gweithredu ar lefel leol a heb safbwynt strategol gyffredinol.

**Tybiaethau allweddol**

- Nid oes cynllun datblygu cenedlaethol.
- Y system gynllunio datblygu lleol fydd yr haen sylfaenol o gynllunio datblygu a gwneud penderfyniadau. Mewn amser mewn rhannau o Gymru, caiff CDSau eu paratoi.
- Bydd tueddiadau presennol yn parhau a byddai cynnydd tuag at amcanion a thargedau Llywodraeth Cymru allweddol yn aros ar eu taflwybrau presennol.
- Bydd newid yn yr hinsawdd yn fater canolog ac yn flaenoriaeth.
- Bydd Adfywio ac ardaloedd gwledig yn ffocws bwysig, ond mae band eang yn ystyriaeth gymharol fach.
- Bydd datblygu tai yn ystyriaeth ar wahân ac nid yn gysylltiedig ag amcanion ehangach.
- Bydd amcanion trafnidiaeth yn gysylltiedig â amcanion ffyniant yn gyffredinol, ond ni gwelir fel elfen hanfodol wrth gyflawni amcanion ehangach.
- Byddai adnoddau naturiol ac ynni yn cael eu gweld fel materion rhanbarthol, heb unrhyw safbwynt cenedlaethol na statws blaenoriaeth.

# Atodiad 2

## Amcanion y Fframwaith ar ôl Ymgysylltu a'r Opsiynau Gwahanol

# Amcanion FfDC

| Amcan FfDC drafft - Newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni |
|---|
| Cefnogi addasiadau i ganlyniadau newid yn yr hinsawdd a lliniaru'r effeithiau ar ein cymdeithas. Cefnogi datgarboneiddio Cymru a helpu i gyrraedd targed Llywodraeth Cymru o sicrhau lleihad o 80% o leiaf mewn allyriadau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050. Cefnogi'r newid i economi carbon isel a helpu i gyrraedd targedau ynni adnewyddadwy Llywodraeth Cymru. |
| **Amcan FfDC drafft - Ffyniant economaidd ac adfywio** |
| Darparu fframwaith sy'n cefnogi cystadleurwydd, arloesi a datblygiadau technolegol ac sy'n cydnabod bod seilwaith cyfoes, fel trafnidiaeth a thelegyfathrebu, technolegau carbon isel, ynni adnewyddadwy a chyfleustodau eraill yn sbardunau economaidd allweddol sy'n sail i ffyniant a llesiant economaidd. Sicrhau bod tir a buddsoddiad sy'n cefnogi datblygiad economaidd yn cael eu cynllunio o amgylch seilwaith, ei fod yn hygyrch i'r prif ganolfannau poblogaeth ac yn cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer Ffyniant i Bawb, datgarboneiddio, rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy, twf gwyrdd a'r economi gylchol, sgiliau a chreu swyddi, a'r holl amcanion lles. Ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd mewn gwahanol ranbarthau o Gymru, gan gynnwys cefnogi arbenigeddau sector, creu clystyrau a dulliau gwahanol ar sail rhanbarth ac ardal, a mynd i'r afael ag anghydraddoldeb. |
| **Amcan FfDC drafft - Cymru Wledig** |
| Cefnogi camau i gryfhau cymunedau gwledig gan gynnwys camau i gadw pobl, cefnogi creu a thwf swyddi, darparu seilwaith cyfoes a darparu gwasanaethau a chyfleoedd drwy reoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae amaeth ynghyd â sectorau cynhyrchu sylfaenol ehangach, twristiaeth gynaliadwy ac arallgyfeirio yn rhan annatod o'r economi wledig. Mae'n rhaid i'r fframwaith ymateb i'r heriau a'r cyfleoedd y bydd y sectorau hyn yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol, gan ganiatáu ar gyfer hyblygrwydd ac ar gyfer datblygu dulliau newydd. |

## Amcan FfDC drafft – Tai

Darparu cyfeiriad strategol ar gyfer darparu tai cymdeithasol a thai preifat newydd sydd o ansawdd da o ran cynllun ac arloesedd, cydgysylltu'r ddarpariaeth â seilwaith cysylltedd, cyfleusterau allweddol a meysydd o dwf economaidd. Sicrhau bod y cynlluniau ar gyfer tai newydd yn cydnabod y bydd y berthynas allweddol rhwng materion tai ac iechyd yn wahanol ledled Cymru.

## Amcan FfDC drafft - Adnoddau Naturiol, yr Economi Gylchol a Llifogydd

Cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru i reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy ac adfer byd natur. Dylai'r fframwaith sicrhau y caiff cadernid safleoedd dynodedig, cynefinoedd ac asedau bioamrywiaeth eu cryfhau drwy amrywiaeth a chysylltedd gwell a bod cydnabyddiaeth glir o'u pwysigrwydd a dull integredig o sicrhau bod asedau bioamrywiaeth ac ecoleg yn helpu i gyflawni ystod eang o amcanion cymdeithasol, economaidd a diwylliannol. Bydd y fframwaith yn defnyddio dull ar sail lle ac yn cefnogi egwyddorion atebion ar sail natur.  Dylai gydnabod a rheoli yn briodol y bygythiad posibl o lifogydd i'r amgylchedd adeiledig a naturiol, ceisio ymatebion effeithiol i newid yn yr hinsawdd a rheoli tir yn briodol, gan ddefnyddio dulliau naturiol pan fo hynny'n bosibl i osgoi a lleihau'r risg o lifogydd. Bydd y fframwaith yn cefnogi egwyddorion yr economi gylchol i wella effeithlonrwydd ein hadnoddau, lleihau'r defnydd anghynaliadwy o adnoddau, lleihau llygredd a gwneud mwy o ddefnydd o agregau wedi'u hailgylchu ac agregau eilaidd. Bydd y Fframwaith yn lleihau'r defnydd o ddeunyddiau / mwynau crai ac yn parhau i gynyddu'r defnydd o ddeunyddiau eilaidd ac wedi'u hailgylchu ac yn hybu cynlluniau diwedd oes ar gyfer adeiladau i hwyluso ailgylchu deunyddiau a chydrannau.

## Amcan FfDC drafft - Diwylliant

Adnabod, diogelu, hyrwyddo a gwella ein diwylliant cenedlaethol presennol trwy ei asedau a hwyluso cyfleoedd ar gyfer datblygiad diwylliannol cenedlaethol newydd. Galluogi cymunedau gwydn, deniadol a chreadigol ledled Cymru sy'n dathlu'r gorffennol ac adeiladu tuag at y dyfodol.

| Amcan FfDC drafft - Trafnidiaeth |
| --- |
| Dylai’r fframwaith sicrhau y defnyddir tir mewn modd sy’n lleihau’r angen i deithio a dewisiadau amgen hygyrch, effeithlon a dichonadwy i’r car. Mae’n rhaid i ddewisiadau gofodol fod wedi’u llywio gan symudiad pobl a nwyddau a ddaw yn sgil hynny, gan gynnwys yr effeithiau ar iechyd, bioamrywiaeth ac ansawdd aer a sŵn. Mae’n rhaid cynllunio a rheoli integreiddio mesurau trafnidiaeth â’r defnydd o dir i gefnogi egwyddorion datgarboneiddio, economaidd ac adfywio. Mae’n rhaid i’r fframwaith hwyluso darpariaeth seilwaith trafnidiaeth allweddol gan gynnwys trydaneiddio’r rhwydwaith rheilffyrdd a systemau metro, gwelliannau cynaliadwy i wella coridorau symud ar gyfer pobl a nwyddau a chefnogi seilwaith allweddol cenedlaethol gan gynnwys Maes Awyr Caerdydd a phorthladdoedd allweddol. |
| **Amcan FfDC drafft - Y Gymraeg** |
| Sicrhau bod y system gynllunio yn helpu i greu’r amodau i wireddu amcan Llywodraeth Cymru i fod â miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. |
| **Amcan FfDC drafft - Iechyd** |
| Defnyddio creu lle fel offeryn sy’n sicrhau amgylcheddau lleol cynhwysol sydd wedi eu cynllunio’n dda sy’n hybu patrymau byw iach ac egnïol gan gynnwys gwella’r mynediad at wasanaethau. Cefnogi lleihau anghydraddoldebau iechyd ledled Cymru. |
| **Amcan FfDC drafft - Bargen Dinas-ranbarth a Bargen Twf** |
| Cefnogi cyflawni Bargen Dinas-ranbarth yn ne-ddwyrain Cymru, de-orllewin Cymru a gogledd Cymru sy’n cynnig cyfle mawr i gefnogi twf economaidd, gwella seilwaith a chysylltedd, cefnogi arbenigedd ac arloesi, creu swyddi a datblygu sgiliau. |

| **Amcan FfDC drafft - Band eang a seilwaith digidol** |
| --- |
| Cydnabod pwysigrwydd band eang a thechnoleg telathrebu i economi gyfoes ffyniannus, darpariaeth gwasanaethau, cynhwysiant cymdeithasol, a'n bywydau bob dydd a darparu fframwaith i hwyluso seilwaith ledled Cymru gyfan nawr ac yn y dyfodol, cydnabod bo technoleg newydd yn newid yn barhaus ac nid yw'n wybyddus beth fydd y gofynion o ran seilwaith ar hyn o bryd. Mae'r NDF yn cefnogi amcanion Llywodraeth Cymru o gyflawni cwmpas o 100% ar gyfer band eang a gwasanaethau telathrebu ledled Cymru, a dylid darparu hyn ar lefel leol a rhanbarthol. |

# Opsiynau Gwahanol

## Opsiwm 1

| Opsiynau Gwahanol 1 – Strategaeth ofodol a fydd yn canolbwyntio'r twf yn ardaloedd cryfaf y farchnad |
|---|
| **Trosolwg Cryno** |
| Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio datblygiad a thwf hirdymor Cymru o amgylch ardaloedd cryfaf y farchnad. Ei nod yw cefnogi twf economaidd yn yr ardaloedd lle mae'r marchnadoedd ar eu cryfaf ac sydd â'r potensial gorau i dyfu. Mae'n cydnabod bod i lawer o amcanion – amddifadedd, adfywio, iechyd corfforol ac iechyd meddwl, iaith, gwytnwch adnoddau naturiol – gysylltiad uniongyrchol â ffynnu economaidd.<br><br>Rôl y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ('y Fframwaith') fydd llywio'r twf tuag at yr ardaloedd hyn a darparu'r seilwaith sy'n ofynnol i gefnogi twf. Wrth ddarparu seilwaith o bwys, bydd yn arfer dull o'r-brig-i-lawr. Bydd yn gwneud dewisiadau clir ynghylch pa rannau o Gymru fydd yn tyfu a sut y dylent dyfu. Bydd y system gynllunio yn ymateb i gyfleoedd i gefnogi twf economaidd ac ni fydd yn cyfyngu ar fuddsoddi, na pheri oedi mewn buddsoddi, yn yr ardaloedd twf a nodwyd. |
| **Pam y lluniwyd yr opsiwn hwn?** |
| Roedd cytundeb barn yn ystod yr ymgysylltu ar ddechrau 2017 ynghylch yr angen am gynllun gofodol cenedlaethol i ddarparu fframwaith ar gyfer seilwaith ac iddo bwys cenedlaethol. Nodwyd pwysigrwydd yr angen am fwy o sicrwydd a darparu cyflym. Cydnabuwyd hefyd mai'r haen gynllunio genedlaethol yw'r un briodol ar gyfer cynllunio anghenion cenedlaethol. Ni all cynllunio lleol a rhanbarthol gydbwyso effeithiau lleol â buddiannau cenedlaethol yn hawdd. Dywedwyd wrthym fod angen dull o'r-brig-i-lawr clir i ymdrin â materion cenedlaethol.<br><br>Cydnabuwyd bod llawer o'r heriau a wynebir yng Nghymru yn deillio o faterion economaidd ac y gellir mynd i'r afael â llawer o faterion iechyd, amddifadedd, llesiant ac eraill drwy wella amgylchiadau economaidd. Yn y tymor hir, mae angen cefnogi economi ddeinamig, sy'n tyfu. Cydnabuwyd y daw busnesau cryf a buddsoddi newydd â sawl budd i Gymru. Mae angen cefnogi buddsoddi a thwf economaidd. |

Nodwyd bod meddylfryd ‘cadw ar wahân’ a dulliau nas cydlynwyd yn golygu nad yw buddsoddi yn canolbwyntio ar nod clir a bod diffyg cysondeb i benderfyniadau’r system gynllunio. Mae Fframwaith Datblygu Cenedlaethol sy’n canolbwyntio ar dwf economaidd yn gyfle i sicrhau mai’r un nod sy’n sail, ym mhob haen, i bob penderfyniad ynghylch defnydd tir. Mae angen sicrhau canolbwynt economaidd, clir.

Datblygwyd yr opsiwn hwn, a bu rhagor o ymgysylltu yn ei gylch, ym mis Hydref 2017.

**Trosolwg Llawn: Sut y byddai’r opsiwn hwn o gymorth i gyflawni’r amcanion?**

**Asedau Diwylliannol**

O ran treftadaeth, chwaraeon a datblygu’r celfyddydau, mae’r Fframwaith hwn yn cefnogi darparu asedau presennol a newydd os daw cyfleoedd economaidd yn sgil yr asedau hynny. Mae’n cydnabod y dylai’r rhain fod yn ddichonadwy’n economaidd ac mae’n hyrwyddo defnydd masnachol a thai priodol yn gysylltiedig â hwy, er mwyn sicrhau’r potensial economaidd i’r eithaf. Cefnogir prosiectau adfywio a ysgogir gan ddiwylliant os dônt â chyfleoedd uniongyrchol i greu twf economaidd. Cefnogir datblygiadau o bob maint a chyfleoedd croes-gymorthdalu â datblygiadau eraill. Ni flaenoriaethir prosiectau diwylliannol oni allant ddangos gwerth economaidd.

**Tai**

Bernir bod adeiladu tai yn sbardun economaidd sylweddol ynddo’i hun, ac iddo effaith bosibl, lawer mwy ar economïau lleol. Hwylusir datblygu tai os yw’n diwallu gofynion y farchnad, gan helpu i ddenu llafurlu medrus a’i gadw. Canolbwyntir yn benodol ar ddarparu tai newydd mewn ardaloedd y gellir cymudo ohonynt i ardaloedd twf economaidd. Neilltuir tir newydd sylweddol ar gyfer datblygu, gan ryddhau safleoedd mawr mewn aneddiadau neu oddi’u hamgylch, os oes angen. Gall hyn gynnwys rheoli rhyddhau meysydd glas, yn dilyn adolygiadau polisi a chapasiti. Hybir mentrau tai fforddiadwy mewn ardaloedd lle ceir llawer o dwf economaidd, a hynny er mwyn diwallu anghenion gweithwyr allweddol. Llywir datblygu tai marchnad tuag at yr ardaloedd hynny sy’n ddeniadol i’r farchnad, a bydd yr ardaloedd nad ydynt yn ddeniadol iddi yn ddibynnol ar fuddsoddi cyhoeddus yn unig. Cefnogir cyfleoedd croes-gymorthdalu o ran tai â datblygiadau eraill.

**Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni**

Y sector preifat sy’n sbarduno buddsoddi mewn ynni. Mae patrymau datblygu yn dal i ganolbwyntio’n bennaf ar y technolegau mwyaf dichonadwy gan gynnwys datblygiadau ynni gwynt. (Cynlluniau mawr sy’n cael y sylw pennaf.)

Byddai datblygiadau ar y môr yn cael eu hwyluso drwy seilwaith priodol ar y tir. Mae cyfleoedd am swyddi ‘gwyrdd’ yn y sectorau hyn yn uchel ar yr agenda.

O safbwynt economaidd yr ymdrinnir â materion sy’n deillio o’r newid yn yr hinsawdd, megis y môr yn codi fwyfwy a llifogydd. Cymerir camau i fynd i’r afael â’r heriau hyn i’r graddau y maent yn lleihau’r risgiau o ran twf. Cefnogir amcanion datgarboneiddio os dônt â chyfleoedd economaidd a thwf. Wrth neilltuo tir economaidd, ystyrir y newid yn yr hinsawdd er mwyn lleihau’r risgiau i fusnes.

**Seilwaith band eang a seilwaith digidol**

Mae telathrebu a thechnoleg ddigidol yn un o’r prif flaenoriaethau. Mae’r Fframwaith yn cefnogi darparu’r seilwaith gofynnol drwy’r farchnad, a hefyd yn annog bod capasiti technolegol yn rhan annatod o ddylunio adeiladau newydd, seilwaith (gan gynnwys seilwaith trafnidiaeth) ac ardaloedd trefol sy’n ehangu ac adfywio. Bydd seilwaith yn cael ei ddarparu ar sail y galw yn y farchnad yn unig ac er mwyn gwasanaethu’r ardaloedd lle mae’r potensial mwyaf o ran twf.

**Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd**

Mae’r Fframwaith hwn yn ymateb i’r galw yn y farchnad a hefyd i’r angen, ac mae’n seiliedig ar ymgysylltu pwrpasol â busnes a diwylliant. Mae’r pwyslais ar ofalu bod mwy o dir ar gael a hefyd ar leihau costau datblygu busnes. Neilltuir tir newydd sylweddol ar gyfer datblygu, gan ryddhau safleoedd yn yr aneddiadau neu oddi’u hamgylch. Mae hyn yn cynnwys rhyddhau safleoedd maes glas, yn dilyn adolygiadau polisi a chapasiti. Byddai’r Fframwaith hwn yn cefnogi datblygu masnachol yn y mannau mwyaf dichonadwy, gan gynnwys mewn trefi ac ar eu cyrion. Ni fyddai datblygu yng nghanol trefi yn cael mwy o flaenoriaeth na datblygu ar gyrion trefi. Y farchnad fyddai’n pennu’r lleoliad mwyaf dichonadwy. Byddai safleoedd tir llwyd (gan gynnwys y rheini a ddefnyddir) sy’n ddeniadol i’r farchnad yn cael eu rhyddhau at ddibenion economaidd newydd. Mae Ardaloedd Menter yn ganolbwynt allweddol o ran ymyriadau. Adolygir ymrwymiadau presennol i adfywio cymunedol, er mwyn i fuddsoddi yn y dyfodol dargedu’r bobl hynny sydd â’r potensial economaidd mwyaf sylweddol yn hytrach na’r rheini y mae arnynt yr angen cymdeithasol mwyaf. Bydd tlodi’n cael ei drechu drwy wneud Cymru gyfan yn fwy ffyniannus yn hytrach na thrwy ganolbwyntio ar ardaloedd penodol.

**Cymru Wledig**

Mae’r Fframwaith hwn yn cefnogi gwneud pob rhan o Gymru yn fwy ffyniannus, er y bydd y Fframwaith yn canolbwyntio ar yr ardaloedd trefol mwyaf proffidiol a dim ond lle y bydd y farchnad yn sbarduno hynny y bydd yn cefnogi buddsoddi sylweddol yn ardaloedd gwledig Cymru. Ni fydd yn ceisio

gwrth-droi diboblogi a bydd wrthi'n ddyfal yn rhoi cyfleoedd i bobl symud i ardaloedd mwy ffyniannus lle ceir gwell gwasanaethau er mwyn hybu amcanion twf. Byddai'r gefnogaeth i amaethyddiaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiogelu'r cyflenwad bwyd. Byddai Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol yn cael cefnogaeth oherwydd eu gwerth economaidd.

**Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf**

Dinasoedd yw prif sbardun yr economi a dinasoedd sy'n hoelio'r sylw mwyaf o ran buddsoddi economaidd. Mae'r rhanbarthau ehangach yn darparu gweithwyr, a hefyd gwsmeriaid posibl. Mae'r Fframwaith hwn yn cefnogi ymyriadau rhanbarthol ehangach sy'n gwella'r cynhyrchiant economaidd. Mae gweithlu deinamig, mwy yn darparu cronfa fwy o weithwyr ac mae hyn yn apelio at y farchnad. Er y bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi egwyddorion dinas-ranbarthau, bydd y Fframwaith yn canolbwyntio ar y craidd economaidd mwyaf proffidiol. Rhagwelir y bydd y budd a ddaw yn sgil twf yn lledu ar draws y rhanbarth gydag amser, a hynny'n seiliedig ar hygyrchedd.

**Trafnidiaeth**

Bwrir ymlaen â phrosiectau seilwaith strategol mawr, megis prosiectau metro, a hynny'n uniongyrchol drwy'r Fframwaith i alluogi twf mawr ac i hwyluso rhyddhau tir. Bydd seilwaith ffyrdd a seilwaith trafnidiaeth gyhoeddus yn cael eu gwella. Hybir cysylltiadau mewnol (rhwng y dinas-ranbarthau) a chysylltiadau allanol, a hynny drwy deithiau yn yr awyr, ar y môr ac ar drenau cyflym. Mae proffil rhyngwladol yn bwysig i hyrwyddo Cymru ac i ddenu buddsoddi. Bwrir ymlaen â phrosiectau sy'n hybu cysylltedd allanol. Bydd cysylltiadau trafnidiaeth â phyrth allweddol yn cael eu gwella'n sylweddol i helpu i ysgogi buddsoddi sector preifat, a hynny gan ymateb i anghenion byd busnes. Un o'r prif flaenoriaethau fydd hwyluso cludo nwyddau rhyngwladol drwy byrth allweddol, ar y ffyrdd ac ar y rheilffyrdd. Hwylusir ehangu Maes Awyr Caerdydd os oes angen, gwella'r seilwaith sy'n ei gynnal, a chyfleoedd economaidd i dyfu, a hynny ar safle'r maes awyr ac o'i amgylch.

**Adnoddau Naturiol**

Mae'r Fframwaith hwn yn cefnogi gwireddu potensial economaidd adnoddau naturiol Cymru. Byddai hefyd yn ategu egwyddor yr economi gylchol ac yn sicrhau y gwireddir potensial economaidd llawn yr holl adnoddau, gan gynnwys gwastraff. Y sector preifat fyddai'n sbarduno'r buddsoddi. Cydnabyddir y gallai ansawdd amgylchedd fod yn elfen gref o bosibl, o ran sbarduno twf, a olyga bod Cymru'n denu ymwelwyr a buddsoddwyr posibl.

Bydd dynodiadau ecolegol, bioamrywiaethol a thirweddol, yn enwedig yn lleol ac yn rhanbarthol, yn cael eu hadolygu os ydynt yn atal twf a darparu seilwaith

ffisegol. Yn ystod cyfnod y Fframwaith, bydd rôl dynodiadau cenedlaethol a rhyngwladol yn cael ei hadolygu, yn enwedig yng ngoleuni Brexit, er mwyn deall eu rôl yn ategu blaenoriaethau economaidd cenedlaethol. Gellid rhyddhau tir amaethyddol, gan gynnwys y tir gorau, at ddibenion eraill.

**Y Gymraeg**

Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi pob menter sy'n hybu twf economaidd ac sydd, drwy ddarparu cyfleoedd cyflogaeth newydd, yn helpu i gadw siaradwyr Cymraeg yng Nghymru. Bydd yn canolbwyntio ar yr ardaloedd sydd â'r potensial economaidd cryfaf a bydd yn hybu mudo o blith siaradwyr Cymraeg, o ardaloedd gwannaf y farchnad i'w hardaloedd cryfaf.

**Iechyd**

Mae sicrhau iechyd da a lles yn fodd i wireddu potensial economaidd. Mae'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio twf a gwasanaethau yn yr ardaloedd trefol cryfaf. Bydd cyfleusterau iechyd yn cael eu cynllunio i hybu twf.

**Beth yw'r prif dybiaethau sy'n ategu'r opsiwn hwn?**

- Bernir mai dinasoedd a'u rhanbarthau yw'r sbardun pennaf. Canolbwyntir y twf yn yr ardaloedd hyn. Bydd llai o dwf yng Nghanolbarth Cymru, mewn trefi bach ac mewn ardaloedd adfywio.

- Wrth fynd ati i nodi prosiectau trafnidiaeth cenedlaethol, y sylfaen fydd eu potensial i hwyluso twf economaidd, yn enwedig yn ardaloedd cryfaf y farchnad. Bydd cysylltedd mewnol yn cael ei wella drwy fuddsoddi sylweddol mewn seilwaith aml-fodd. Eir ati'n ddyfal i wella cysylltedd allanol, gan gynnwys cysylltiadau gwell yn yr awyr ac ar y môr, a chysylltiadau trenau cyflym newydd i Loegr a'r tu hwnt, i Ewrop. Caiff cysylltiadau cludo nwyddau rhwng cyfandir Ewrop ac Iwerddon eu gwella hefyd.

- Ceir buddsoddi sylweddol yn y seilwaith trafnidiaeth, y seilwaith ynni a'r seilwaith digidol gan eu bod yn allweddol i sbarduno twf. Rhoddir blaenoriaeth i'r prosiectau sy'n gwella cysylltedd fwyaf ac sy'n cefnogi'r amrywiaeth ehangaf o amcanion.

- Caiff buddsoddi cyhoeddus mewn seilwaith newydd ei sbarduno gan yr awydd i hwyluso buddsoddi newydd a'i ddenu, yn yr ardaloedd lle mae'r farchnad eisoes yn gryf ac yn yr ardaloedd â'r potensial economaidd mwyaf.

- Byddai nodi Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol yn bwysig, gan roi arweiniad clir gan y Llywodraeth, sicrwydd a hwyluso penderfynu.

- Bydd cyfraddau uwch o ran datblygu tai a datblygu economaidd a mwy o gymryd tir, yn gyffredinol.

- Rhyddheir safleoedd maes glas i'w datblygu, a bydd y datblygu'n canolbwyntio ar yr ardaloedd sydd eisoes yn fwyaf hygyrch ac mewn ardaloedd lle mae'r farchnad yn gref.

- Symleiddir rheolaeth gynllunio yn yr ardaloedd buddsoddi blaenoriaethol a chaiff rhai cyfundrefnau amgylcheddol eu hymlacio, yn enwedig yn lleol, os yw'r gofynion deddfwriaethol yn golygu bod modd gwneud hynny.

- Mae'r rheolaeth gynllunio yn llai rhagnodol. Er enghraifft, caiff polisi cynllunio ehangach, y prawf cymalog ac egwyddor agosatrwydd, eu hymlacio i roi dewisiadau gofodol ehangach.

- Canolbwyntia'r ddarpariaeth tai fforddiadwy ar gysylltiadau â'r economi, o ran penderfyniadau lleoliad a sectorau'r farchnad (ee tai gweithwyr allweddol).

- Canolbwyntia mentrau amgylcheddol ar greu lleoedd ac felly maent yn cyd-fynd â'r ardaloedd sydd â'r potensial buddsoddi economaidd mwyaf. Cydnabyddir bod ansawdd amgylchedd yn sbarduno twf ond mae llai o bwyslais ar gyfiawnder amgylcheddol. Nid eir ar ôl manteision lluosog o reidrwydd.

- Mae'r busnesau eu hunain yn ceisio bod yn fwy cynaliadwy wrth weithredu a mynd ati i ddefnyddio ynni'n effeithlon ac fe'u cynorthwyir i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd er mwyn lleihau'r effeithiau economaidd posibl.

- Y sector preifat sy'n arwain buddsoddi yn y sector ynni ac mewn gwastraff, gan olygu bod amrywio o ran y math ddarpariaeth a'i lefel.

## Sut wlad fyddai Cymru yn 2040?

### Asedau Diwylliannol

Caiff buddsoddi cenedlaethol mewn asedau diwylliannol ei sbarduno'n economaidd ac mae'r buddsoddi wedi canolbwyntio ar ardaloedd twf cryfaf y farchnad, a hynny'n rhan o becyn o fentrau buddsoddi ehangach.

### Tai

Mae tai preifat a thai cymdeithasol wedi canolbwyntio ar ardaloedd twf cryfaf y farchnad. Drwy Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol, mae'r Fframwaith wedi hwyluso ehangu trefol o bwys a rhyddhau safleoedd

maes glas. Mae'r rhannau o Gymru sydd y tu allan i'r ardaloedd hyn yn ymdrin â materion lleol yn unig ac nid oes iddynt rôl strategol genedlaethol.

**Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni**

Darparwyd seilwaith cenedlaethol yn uniongyrchol drwy'r Fframwaith a chysonwyd holl haenau'r system gynllunio er mwyn cynorthwyo eu darparu'n hwylus. Yr ardaloedd sydd â'r potensial mwyaf o ran cynhyrchu ynni gwynt, ynni haul, ynni llanw a mathau eraill o ynni sy'n cael y sylw pennaf yn achos datblygiadau newydd. Hwylusir seilwaith y grid, y seilwaith trawsyrru a'r seilwaith storio. Rhoddwyd cefnogaeth gref i gyfleoedd economaidd newydd yn y sectorau hyn.

**Band eang a seilwaith digidol**

Cysonwyd holl haenau'r system gynllunio i gefnogi darparu seilwaith. Y farchnad sy'n penderfynu ar y buddsoddi ac mae'n canolbwyntio'n bennaf ar ardaloedd twf cryfaf y farchnad.

**Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd**

Mae hyn wedi canolbwyntio ar ardaloedd twf cryfaf y farchnad, a hynny yn seiliedig ar ddarparu seilwaith newydd o ran trafnidiaeth, ynni a thelathrebu a chyfarwyddyd clir i'r system defnydd tir gefnogi'r twf yn yr ardaloedd hyn.

**Cymru Wledig**

Rhoddwyd cefnogaeth iddi er mwyn sicrhau diogelwch cyflenwadau bwyd, ynni a dŵr er budd y gymdeithas yn gyffredinol. Dim ond o'r farchnad y daeth buddsoddi newydd ac ni fu ymyrryd pwrpasol i wrth-droi diboblogi na thueddiadau cymdeithasol eraill.

**Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf**
Bu cefnogaeth gref i ddinas-ranbarthau yng Nghaerdydd, yn Abertawe ac yn y Gogledd-ddwyrain. Mae buddsoddi mewn seilwaith newydd wedi cynorthwyo eu twf, a hwyluswyd hynny yn sgil cysoni holl haenau'r system defnydd tir.

**Trafnidiaeth**

Darparwyd seilwaith cenedlaethol yn uniongyrchol drwy'r Fframwaith ac mae holl haenau'r system gynllunio yn gyson â'i gilydd er mwyn hwyluso'r darparu. Canolbwyntiwyd ar gefnogi ardaloedd twf cryfaf y farchnad ac ar wella'r cysylltiadau rhyngwladol, sef y rhai sy'n hybu twf economaidd.

**Adnoddau Naturiol**

Dan ddylanwad y farchnad, mae realeiddio economaidd adnoddau naturiol wedi cael ei hybu'n fawr ledled Cymru.

**Y Gymraeg**

Canolbwyntiwyd yn bennaf ar wella iechyd economaidd Cymru. Cefnogwyd cyfleoedd i hybu'r Gymraeg o safbwynt economaidd yn hytrach na gofodol.

Mae siaradwyr Cymraeg o'r cadarnleoedd traddodiadol yn y Gogledd-orllewin ac yn rhanbarth y Canolbarth a'r Gorllewin wedi mudo i ardaloedd twf cryfaf y farchnad.

**Iechyd**

Cynlluniwyd darparu gwasanaethau a chyfleusterau er mwyn cefnogi ardaloedd twf.

**Beth oedd barn yr ymgysylltu ym mis Hydref 2017 am y opsiwn hwn?**

**O blaid**

Roedd teimlad cryf fod dinasoedd yn sbarduno'r economi ac nad yw'n realistig meddwl y gellir cyflawni amcanion twf cenedlaethol heb ganolbwyntio'n bendant ac yn glir arnynt. Mae'n angenrheidiol darparu seilwaith i gefnogi dinasoedd a'u rhanbarthau a chefnogid hyn yn gyffredinol. Yn y pen draw, y rhain yw'r ardaloedd lle mae'r mwyafrif o bobl Cymru yn byw ac yn gweithio.

Mae pwysigrwydd nodi seilwaith allweddol, a darparu fframwaith i sicrhau y'i darperir yn hwylus, yn rôl allweddol i'r Fframwaith. Wrth wneud hyn, bydd y Fframwaith yn rhoi arweiniad cenedlaethol, clir. Drwy ganolbwyntio'r twf mewn ardaloedd trefol allweddol, bydd yn helpu i lywio buddsoddi darparwyr cyfleustodau cenedlaethol. Gall canolbwyntio'r buddsoddi mewn ardal lai (yn hytrach nag yng Nghymru gyfan) fod o gymorth i sicrhau cyllid ac anfon neges glir i ddarpar fuddsoddwyr.

Y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yw'r cyfle i sbarduno prosiectau cenedlaethol yn genedlaethol ac i ddarparu strategaeth ofodol glir i holl bolisïau eraill y Llywodraeth. Mae hyn yn eisiau ar hyn o bryd. Er y pryderon a ddaw yn sgil dull sy'n seiliedig ar y farchnad, mae'n bwysig cydnabod mai gwlad dlawd yw Cymru. Er mwyn newid pethau, rhaid wrth y math hwn o ganolbwyntio sylw economaidd, a ysgogir yn genedlaethol.

Gall yr opsiwn yma fod o gymorth i oresgyn rhwystrau gwleidyddol lleol. Mae'n cydnabod hefyd y bod angen ichi greu ffyniant er mwyn mynd i'r afael ag amcanion amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol eraill. Mae peidio â chysylltu ffynnu economaidd â chanlyniadau eraill, ynghyd â'r gred y gallwn wneud popeth i'r un graddau, yn ein hatal rhag mynd i'r afael â rhai o'r prif faterion sy'n effeithio ar Gymru. Er ein bod yn llawn bwriadau da, nid yw hyn yn rhoi'r arweiniad angenrheidiol ac mae'n fodd inni osgoi penderfyniadau anodd. Byddai'r opsiwn hwn yn gam bwysig i symud Cymru yn ei blaen a hyn yw hanfod penderfynu strategol hirdymor.

**Yn erbyn**

Roedd teimlad cryf mai'r gwrthwyneb i gynllunio hirdymor oedd yr opsiwn hwn. Dim ond dangos lle mae Cymru arni nawr a wna ac nid yw'n ceisio sicrhau newid gwirioneddol. Mae'n cynnal y patrymau twf presennol. Nid yw'n darparu strategaeth ofodol i Gymru gyfan. Ni fyddai'n gweddnewid dim, fel arall yn wir.

Ni fydd canolbwyntio ar y dinasoedd a'r canolfannau trefol cryfaf yn mynd i'r afael â materion y tu allan i'r union ardaloedd hyn. Bydd yn dwysáu'r anghydraddoldeb sy'n bodoli eisoes ac yn peri anghydraddoldebau newydd, gan na chefnogir yr ardaloedd y tu allan i'r rhanbarthau twf a ffefrir. Nid o safbwynt economaidd yn unig y dylid ystyried amcanion cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol. Os hoelir y sylw'n llwyr ar yr hyn sy'n denu'r farchnad, mae'n annhebygol y bydd modd cyflawni'r amcanion hyn. Mae dull o'r fath yn groes i'r Ddeddf Llesiant.

Roedd yn amlwg bod twf economaidd yn bwysig. O'i gynllunio a'i asesu'n briodol, mae iddo ganlyniadau cadarnhaol a ddaw ag amrywiaeth mawr o fanteision. Eto i gyd, ni ellir gadael i'r farchnad yn unig bennu datblygiad gofodol, hirdymor Cymru. Mae'r system gynllunio yno i ddylanwadu ar dwf ac ar y modd y dylai ein lleoedd newid i sicrhau'r budd ehangaf sy'n bosibl. Beth sy'n digwydd os oes cwymp yn y farchnad? Wedi'r cyfan, onid ystyried a chynllunio er budd hirdymor y genedl gyfan yw rôl y Llywodraeth?

Nid rhwystr i'w oresgyn yw ansawdd amgylchedd. Mae'n ychwanegu gwerth ac mae'n hanfodol i'n lles. Nid yw'r opsiwn hwn yn ystyried yr amgylchedd a'r perygl yw y ceisia fudd economaidd byrdymor ar draul gwytnwch amgylcheddol hirdymor. Ni fyddai'n sicrhau y rheolir ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Byrdymor yw'r farchnad ac nid materion strategol sy'n hoelio'i sylw. Mynegwyd pryder mawr ynghylch colli tir amaethyddol, gan gynnwys o bosibl y tir fferm gorau, o ganlyniad i'w ddefnyddio at ddibenion eraill.

Mae'r opsiwn hwn yn rhy eang ei olygon ac nid Cymru yw ei hanfod. Nid yw'n manteisio ar gryfderau Cymru – gwyrddfannau, tirwedd a bioamrywiaeth.

**Realistig**

Ystyrid bod yr opsiwn hwn yn realistig. Roedd rhai o'r farn mai hwn fyddai'r opsiwn hawsaf y gellid ei fabwysiadu, gan y byddai'n cyd-fynd â'r tueddiadau a'r patrymau datblygu presennol. Hwn hefyd oedd yr opsiwn hawsaf ei ddeall. Roedd yn amlwg sut y gallai'r opsiwn hwn lywio strategaethau perthnasol eraill. Roedd yn glir sut y gellid blaenoriaethu buddsoddi mewn seilwaith i ategu'r opsiwn hwn. Roedd eraill o'r farn nad oedd y dull hwn yn ddarlun o'r sefyllfa bresennol; byddai'n newid o bwys o ran polisi ond pe baem yn penderfynu gwneud hynny, gallem wneud hynny.

# Opsiwn 2

| **Opsiynau Gwahanol 2 – Strategaeth ofodol sy'n canolbwyntio ar greu cymunedau cryf ledled Cymru** |
|---|
| **Trosolwg Cryno** |
| Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar Gymru gyfan. Ceisia fynd i'r afael â'r materion sy'n ein hwynebu, a hynny drwy ddull gwasgarog, nad yw'n ceisio blaenoriaethu un ardal yn hytrach na'r llall. Bydd amcanion hirdymor yn cael eu cyflawni drwy gamau gweithredu a buddsoddi ledled Cymru. Fe'u cyflawnir hefyd drwy roi cefnogaeth uniongyrchol i gymunedau lleol er mwyn sicrhau atebion o'r-gwaelod-i-fyny i broblemau cenedlaethol. Bydd yr opsiwn hwn yn sicrhau y bydd cymunedau lleol, cryf, gan ddarparu swyddi, tai, gwasanaethau a chyfleusterau y mae arnynt eu hangen. Bydd hefyd yn canolbwyntio'n gryf ar bobl a'u lles ac ar gynaliadwyedd.<br><br>Rôl y Fframwaith fydd lledaenu twf a seilwaith ledled Cymru, gan ganolbwyntio'n benodol ar gefnogi'r ardaloedd lle'r mae'r angen mwyaf a lle mae'r marchnadoedd gwannaf. Bydd yn dal i ganolbwyntio'n bendant ar gyflawni'r amcanion cenedlaethol. Bydd yn cydlynu'r camau gweithredu yn lleol ac yn rhanbarthol er mwyn cyflawni'r amcanion hyn. |
| **Pam y lluniwyd yr opsiwn hwn?** |
| Y farn gyffredin yn ystod yr ymgysylltu ar ddechrau 2017 oedd bod angen cynllun gofodol cenedlaethol. Credid hefyd y dylai'r Fframwaith – yn ogystal â meddu ar safbwynt cenedlaethol a ystyriai Gymru gyfan – fod yn berthnasol i gymunedau lleol a'u cynorthwyo i wireddu eu gobeithion. Ni fyddai Fframwaith a fyddai, er enghraifft, yn ystyried y De-ddwyrain a'r Gogledd Ddwyrain yn unig, yn gynllun cenedlaethol. Ni fyddai Fframwaith yr ystyrid ei fod yn mynnu ar bolisïau o'r-brig-i-lawr o ran tai, ynni neu drafnidiaeth, heb achub ar y cyfle i ystyried atebion o'r-gwaelod-i-fyny hefyd, yn Fframwaith a fyddai'n gyson â barn llawer. Roedd rhai o'r farn na roddid digon o gydnabyddiaeth i effaith penderfyniadau cenedlaethol ar gymunedau lleol.<br><br>Y farn oedd na ddylai'r Fframwaith geisio dewis 'enillwyr' na chanolbwyntio'n ormodol ar ddull 'yr-un-peth-i-bawb'. Roedd cymunedau lleol yn wynebu problemau gwahanol o ran tai, iaith, gwahaniaethau o ran diboblogi a heriau cymdeithasol. Rhaid i'r Fframwaith fod yn ddigon hyblyg i ganiatáu atebion priodol, gwahanol a chreu modd i Gynlluniau Datblygu Strategol a Chynlluniau Datblygu Lleol ddod o hyd i atebion.<br><br>Cafodd yr opsiwn hwn ei lunio a bu rhagor o ymgysylltu yn ei gylch ym mis Hydref 2017. |

**Trosolwg Llawn: Sut y byddai'r opsiwn hwn o gymorth i gyflawni'r amcanion?**

**Asedau Diwylliannol**

Byddai'r Fframwaith hwn yn cydnabod pwysigrwydd ein treftadaeth wrth lunio Cymru. Byddai hefyd yn ceisio cynnal a hybu ein cymunedau Cymraeg/Cymreig unigryw eu nodweddion. Byddai'n mynnu bod datblygu newydd yn mynd ati'n weithgar i gyfrannu at ein cyfalaf diwylliannol, yn hytrach na'i fychanu. Bydd ein hasedau diwylliannol presennol yn cael eu gwarchod, eu hyrwyddo a'u gwella a chefnogir datblygiadau diwylliannol newydd. Bydd cefnogaeth gref i brosiectau cymunedol, lleol a all ddod â manteision diwylliannol a chysylltiol. Er enghraifft, prosiectau a ysgogir gan ddiwylliant ac sy'n llesol i iechyd a lles, drwy ddarparu gweithgareddau hamdden ffurfiol ac anffurfiol.

**Tai**

Byddai gofalu bod tai – ac yn benodol tai fforddiadwy sy'n defnyddio ynni'n effeithlon – ar gael yn un o'r prif ystyriaethau, gan sicrhau bod tai fforddiadwy o safon ar gael i bawb yn y gymuned leol. Byddai ymyriadau'n blaenoriaethu cefnogi tai fforddiadwy yn hytrach na mathau eraill o dai, lle bo angen. Cefnogir dylunio tai newydd ac arloesol a hwylusir datblygu gan y rhai sy'n adeiladu eu tai eu hunain a thai i ofynion cwsmer penodol, os dônt â chyfleoedd ychwanegol o ran darparu tai newydd a helpu i ddiwallu anghenion tai cymunedol. Yn ogystal â diwallu anghenion tai, bydd tai newydd o gymorth i gynnal cymunedau lleol a byddant yn cefnogi gwasanaethau hanfodol.

Yn ogystal â blaenoriaethu tai fforddiadwy, blaenoriaethir cartrefi-gydol-oes a darparu tai i ddiwallu anghenion pobl yn ystod pob cyfnod o'u hoes. Bydd y math o dai y bydd arnom ei angen yn fater pwysig. Cydnabyddir bod angen inni adeiladu'r math iawn o dai yn y mannau iawn a pheidio â chanolbwyntio'n unig ar nifer y tai y mae arnom ei angen.

**Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni**

Yn y tymor hwy, byddai'r Fframwaith hwn yn ceisio peri newid strategol, sef o brif raglenni seilwaith, megis seilwaith ynni a thrafnidiaeth mawr, i ddull o'r-gwaelod-i-fyny. Er y cydnabyddir y bydd angen bob amser am brosiectau unigol cenedlaethol, bydd yr opsiwn hwn yn mynnu yr ystyrir pob dewis posibl yn llwyr ac y cefnogir dewisiadau posibl gwasgarog, llai, realistig os yw'n ymarferol gwneud hynny, ac y cefnogir amcanion ehangach. Bydd cefnogaeth gref i berchenogi lleol yn achos prosiectau ynni, a seilwaith storio a grid sydd wedi ei ddatganoli.

Y modd y mae cymunedau'n gweithredu a'u hanghenion fyddai'n cael y sylw

pennaf. Byddai polisïau'n canolbwyntio ar atebion lleol ar sail lle ac yn sicrhau'r manteision cymunedol gorau posibl. Byddai cefnogaeth i gynhyrchu a dosbarthu ynni ar sail ddatganolog, gan gynnwys cynlluniau ynni adnewyddadwy yr oedd y gymuned yn berchen arnynt. O ran y polisi ynni ehangach, byddai pwyslais cryf ar asesu'r effeithiau ar gymunedau lleol ac ar sicrhau bod y cyfleoedd economaidd a ddaw yn sgil buddsoddi o'r fath o fudd uniongyrchol i'r cymunedau lleol, o ran swyddi, costau ynni a manteision eraill. Bydd cefnogaeth i gamau gweithredu sydd â'r nod o sicrhau y bydd mwy o ddefnyddio ynni'n effeithlon ar safleoedd datblygiadau newydd a datblygiadau sy'n bodoli eisoes, gan fod o gymorth o ran cyflawni amcanion ehangach yn ymwneud ag ynni, lleihau costau ynni  a mynd i'r afael â thlodi tanwydd.

**Seilwaith band eang a seilwaith digidol**

Byddai cefnogaeth i ddarparu seilwaith digidol modern, gyda phwyslais ar sicrhau y cysylltid pob cymuned yng Nghymru â'r dechnoleg ddiweddaraf a gorau. Bydd buddsoddi'r Llywodraeth yn canolbwyntio ar yr ardaloedd na fyddai fel arall yn cael eu gwasanaethu gan y farchnad yn brydlon. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi pob cam i'w gwneud yn haws cael adnoddau a gwasanaethau digidol.

**Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd**

Byddai'r Fframwaith hwn yn cefnogi cyfleoedd cyflogaeth lleol, economïau lleol amryfal a chanolfannau lleol llawn bywyd. Byddai'n annog nodweddion lleol unigryw ac yn cydnabod bod ffynnu economaidd o gymorth i hybu lles. Bydd darparu swyddi gwell yn nes i gartrefi yn lleihau'r angen i deithio ac yn ei gwneud yn bosibl i'r rhai sy'n dymuno aros a byw yn eu cymunedau lleol i wneud hynny. Amcanion adfywio a mynd i'r afael ag amddifadedd fyddai'n llywio'r penderfyniadau buddsoddi strategol pennaf, gan ganolbwyntio ar fuddsoddi yn yr ardaloedd hynny lle mae'r angen mwyaf. Byddai'r Fframwaith hwn yn ceisio osgoi dibynnu ar economeg diferu neu ar ehangu ffyniant o begynau twf allweddol. Yn lle hynny, byddai'n hyrwyddo canolfannau lleol, cryf ym mhob rhan o Gymru. Eir ati i drechu tlodi drwy ganolbwyntio ar y materion gwahanol sy'n effeithio ar gymunedau ledled Cymru a thrwy lywio'r ymateb i ddiwallu'r anghenion hyn.

**Cymru Wledig**

Byddai gwrth-droi diboblogi yn flaenoriaeth mewn ardaloedd gwledig. Byddai'r Fframwaith hwn yn ceisio mynd i'r afael â materion tai, cyflogaeth a chysylltedd (digidol a thrafnidiaeth) a chynnal seilwaith cymdeithasol a hynny

drwy holl haenau'r system gynllunio Drwy wneud hynny, byddai'n helpu i sicrhau bod cymunedau gwledig Cymru yn medru cadw a denu pobl o bob oed a holl aelodau ein cymdeithas. Byddai penderfyniadau buddsoddi,

darparu seilwaith newydd, a chydlynu strategaethau allweddol eraill y Llywodraeth, yn cael eu cysoni i gefnogi'r amcanion hyn.

**Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf**

Byddai cefnogaeth i ddinas-ranbarthau. Byddai'r Fframwaith hwn yn rhoi pwyslais cryf ar sicrhau bod buddsoddi a chyfleoedd yn y dinas-ranbarthau o fudd i bawb. Byddai'n cefnogi buddsoddi pan ddeuai â chymaint o fudd ag sy'n bosibl i bob cymuned a phan lwyddai i ddod â chanlyniadau cadarnhaol posibl a fyddai'n ehangach na'r craidd trefol, rhanbarthol, canolog. Bydd cysylltedd yn nodwedd bwysig.

**Trafnidiaeth**

Yn y tymor hwy, byddai'r Fframwaith hwn yn ceisio peri newid strategol, sef o brif raglenni seilwaith, megis seilwaith trafnidiaeth mawr, i ddull o'r-gwaelod-i-fyny. Er y cydnabyddir y bydd angen bob amser am brosiectau unigol cenedlaethol, bydd yr opsiwn hwn yn mynnu yr ystyrir pob dewis posibl yn llwyr ac y cefnogir dewisiadau posibl, gwasgarog, llai, realistig os yw'n ymarferol gwneud hynny, ac y cefnogir amcanion ehangach.

Y modd y mae cymunedau'n gweithredu a'u hanghenion fyddai'n cael y sylw pennaf. Byddai polisïau trafnidiaeth yn canolbwyntio ar hygyrchedd lleol, gyda thrafnidiaeth gyhoeddus yn cysylltu cartrefi/swyddi/gwasanaethau allweddol. Hwyluso cerdded a beicio fydd yn cael y sylw wrth lunio lleoedd. Rhoddir blaenoriaeth i sicrhau bod cyfnewidfeydd trafnidiaeth allweddol yn hygyrch. Byddai cefnogi mentrau teithio llesol yn amcan allweddol. Byddai'r Fframwaith hwn yn ceisio mynd i'r afael â chanlyniadau andwyol dewisiadau teithio. Byddai amcanion iechyd yn ddylanwad allweddol, gan gefnogi dulliau iach o deithio ac ymdrin yn uniongyrchol â phroblemau ansawdd aer a sŵn. Os oedd angen, byddai'n bwrw ymlaen â mesurau i leihau'r traffig, gan gynnwys newid y rhwydwaith ffyrdd yn sylweddol o bosibl, a hynny er budd cymunedau lleol.

**Adnoddau Naturiol**

Byddai'r Fframwaith hwn yn gadarn ei gefnogaeth i egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, gan gydnabod y byddai rheoli ein hadnoddau mewn modd anghynaliadwy yn cael effaith andwyol ar holl gymunedau Cymru. Meithrin gwytnwch yr ecosystemau a bioamrywiaeth sydd gennym a chefnogi cyflawni amcanion cenedlaethol yw'r nod, a hynny drwy gamau gweithredu megis defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon a lleihau llygredd. Rhydd amaethyddiaeth, coedwigaeth, ynni adnewyddadwy, dŵr a thwristiaeth gyfle i ddatblygu swyddi o safon ledled Cymru ac i sicrhau bod ein cymunedau'n gynaliadwy'n economaidd yn yr hirdymor. Mae iddynt adnoddau hefyd sy'n hanfodol er mwyn sicrhau bod diwydiannau'n gyffredinol, ac yn y

pen draw ein trefi a'n dinasoedd, yn ffynnu ac yn ddiogel. Bydd sicrhau manteision a gwelliannau cymdeithasol, economaidd, iechyd, diwylliannol ac amgylcheddol i gymunedau lleol drwy'r dull Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yn flaenoriaeth allweddol.

**Y Gymraeg**

Cefnogir cymunedau Cymraeg a bydd canlyniadau penderfyniadau cynllunio yn cael eu hasesu'n llwyr a'u deall yn gymunedol. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi pob cymuned drwy nodi cyfleoedd cyflogaeth priodol ar gyfer pob ardal a thrwy gynllunio darparu tai newydd er mwyn rheoli newid yn y boblogaeth yn ofalus.

**Iechyd**

Byddai'r Fframwaith yn hybu iechyd a lles pawb. Byddai'n cefnogi creu lleoedd o safon, gyda gwell mynediad o ran gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol integredig, gan gynnwys mynediad digidol. Bydd y Fframwaith yn ceisio mynd i'r afael ag anghydraddoldebau ledled Cymru ac yn sicrhau amrywiaeth o dai o safon, yn ogystal â gwell mynediad i'r amgylchedd naturiol, er mwyn cefnogi amcanion iechyd.

**Beth yw'r prif dybiaethau sy'n ategu'r opsiwn hwn?**

- Bydd y system gynllunio a'r dewisiadau lleoliad yn sicrhau bod pob rhan o Gymru yn cefnogi datblygu aneddiadau cynaliadwy.
- Mae patrymau anheddu cynaliadwy yn allweddol – sef bod cartrefi yn ymyl swyddi ac yn ymyl cyfleusterau a gwasanaethau allweddol, sy'n lleihau'r angen i deithio ac sy'n sicrhau dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy pan fydd angen. Mae pwyslais cryf ar gynnal amrywiaeth da o gyfleusterau cymunedol hygyrch.
- Defnyddir egwyddorion cynllunio defnydd tir i sicrhau y bydd swyddi, gwasanaethau, cyfleusterau a gweithgareddau hamdden pobl ar gael yn ymyl eu cartrefi. Oni ellir darparu'r elfennau hyn yn lleol, bydd yn hawdd eu cyrchu drwy ddewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy. Ni fydd cymunedau dan fwy o anfantais oherwydd eu bod y tu allan i ardaloedd trefol.
- Derbynnir y bydd angen o hyd am brosiectau cenedlaethol mawr. Bydd angen proses asesu lawn i sicrhau yr ystyrir y dewisiadau eraill posibl, gan gynnwys dulliau lleol.

- Mae darparu tai fforddiadwy, lleol yn fater allweddol, a rhoddir cefnogaeth gref i dai lleol ac i'r rhai sy'n adeiladu eu tai eu hunain.

- Mae'r Fframwaith yn ceisio galluogi'r cymunedau mwyaf difreintiedig i gael budd o dwf. Mae hefyd yn cefnogi grymuso'r gymuned a llywodraethu da.

- Mae hygyrchedd yn elfen ganolog wrth benderfynu. Rhaid i ddewisiadau ar sail lle sicrhau, i'r gymdeithas gyfan, gymaint o hygyrchedd ag sy'n bosibl.

- Mae gwella iechyd yn amcan allweddol ac yn dylanwadu ar bob penderfyniad polisi. Targedir gwelliannau ansawdd aer yn uniongyrchol. Ansawdd bywyd a lles lleol fydd y prif amcan wrth benderfynu ar ddefnydd tir.

- Mae adfywio a mynd i'r afael ag amddifadedd yn ddau o'r prif feysydd sy'n cael sylw strategol. Blaenoriaethir ymdrin â chanlyniadau diwydiant a datblygiadau'r gorffennol, yn ogystal ag ymdrin â'r holl ardaloedd lle mae ansawdd yr amgylchedd yn wael.

- Mae'r Fframwaith yn rhoi pwyslais ar gysylltedd digidol, gan annog mwy o weithio hyblyg a gweithio gartref, cydbwyso gwell o ran bywyd a gwaith, lleihau'r angen i deithio a lleihau tagfeydd. Ni fydd cymunedau dan fwy o anfantais oherwydd eu bod y tu allan i'r ardaloedd trefol mwyaf.

- Blaenoriaethir cynlluniau ynni adnewyddadwy y mae'r gymuned yn berchen arnynt. Mae'r system gynllunio'n cefnogi mentrau sy'n ymwneud â hybu defnyddio ynni'n fwy effeithlon mewn cartrefi a rhoi diwedd ar dlodi tanwydd. Mae ardaloedd lle cynhyrchir ynni adnewyddadwy yn cael manteision cymunedol uniongyrchol. Pwysleisir cael cynlluniau sy'n nes i'r mannau lle mae pobl yn byw. Cefnogir rhwydweithiau dosbarthu a storio.

- Rhoddir cefnogaeth gref i egwyddorion yr economi gylchol.

## Sut wlad fyddai Cymru yn 2040?

**Asedau Diwylliannol**

Mae canolbwyntio'n bendant ar brosiectau cymunedol ym mhob rhan o Gymru wedi creu cymunedau unigryw eu nodweddion.

**Tai**

O ran tai, a wasgarwyd ledled Cymru, canolbwyntiwyd ar ddiwallu anghenion cymunedol. Mae tai wedi bod o gymorth i adeiladu cymunedau cynaliadwy.

**Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni**

Diwellir anghenion ynni drwy ddull cymunedol, gwasgarog ar ôl newid o ddefnyddio datblygiadau mawr, llai niferus. Mae cymunedau'n cynhyrchu ynni i'w werthu. Mae egwyddorion defnydd tir wedi ceisio lleihau'r angen i deithio ac os teithir, gwneir hynny gan ddefnyddio'r dulliau mwyaf cynaliadwy.

**Seilwaith band eang a seilwaith digidol**

Mae holl haenau'r system gynllunio yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn cefnogi darparu cyflym a hwyluso technolegau newydd wrth i'r rheini ddatblygu. Canolbwyntiwyd y buddsoddi ar ardaloedd ymylol a gwledig, gan dderbyn newid tirwedd.

**Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd**

Cafwyd buddsoddi cyhoeddus cytbwys ym mhob rhan o Gymru. Gwelwyd mwy o ffynnu'n genedlaethol o ganlyniad i'r sylw ar sicrhau economïau lleol, cryf a hynny drwy'r system gynllunio a phrif strategaethau'r Llywodraeth.

**Cymru Wledig**

Llwyddwyd i wrth-droi diboblogi ac mae galw mawr am dai mewn ardaloedd gwledig.

**Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf**

Cynlluniwyd dinas-ranbarthau llwyddiannus i sicrhau'r manteision ehangaf sy'n bosibl i'w rhanbarthau cyfan, gan gydnabod anghenion cymunedau ar draws y rhanbarth.

**Trafnidiaeth**

Lluniwyd cymunedau â'r nod o leihau'r angen i deithio ynddynt ac os teithir, gan gynnwys rhwng aneddiadau, defnyddir dulliau teithio cynaliadwy a hygyrch.

**Adnoddau Naturiol**

Mae amaethyddiaeth, coedwigaeth, ynni adnewyddadwy, dŵr a thwristiaeth i gyd wedi cefnogi twf swyddi o safon ledled Cymru. Mae'r adnoddau hyn hefyd wedi helpu i sicrhau bod ein cymunedau'n gynaliadwy'n economaidd yn yr hirdymor.

**Y Gymraeg**

Mae buddsoddi a chefnogaeth gref mewn cymunedau lleol wedi sicrhau y cyflawnir amcanion Cymraeg.

**Iechyd**

Canolbwyntir yn fawr ar gyfleusterau integredig o ran iechyd cymuned, gan sicrhau bod cyfleusterau lleol a digidol ar gael i gymunedau. Buddsoddir mewn lleoedd o safon a darperir mwy o fynediad i'r amgylchedd naturiol.

**Beth oedd barn yr ymgysylltu ym mis Hydref 2017 am yr opsiwn hwn?**

**O blaid**

Roedd croeso i egwyddor datblygu strategaeth ofodol lawn i Gymru gyfan. Nodwyd ei bod yn bwysig na fyddai proses y Fframwaith yn tybio o'r dechrau mai strategaeth gyfarwyddo, o'r-brig-i-lawr fyddai hon. Roedd yn bwysig deall sut y gellid mynd i'r afael â materion cenedlaethol yn lleol ac yn gymunedol. Mae tai, ynni, cyflogaeth a thrafnidiaeth yn enghreifftiau a roddir fel rheol wrth enwi meysydd lle nad yw dull o'r-brig-i-lawr y system gynllunio yn cydnabod yr hyn y mae ei eisiau ar gymunedau lleol a lle nad yw effeithiau anghyson y penderfyniadau cenedlaethol hyn ar bob rhan o Gymru yn cael eu hasesu'n gywir gan y system.

Roedd pryder mai dim ond ar rannau trefol/dinesig, diffiniedig o Gymru yr oedd dinas-ranbarthau, bargeinion twf a'r prosiectau pennaf, megis yr M4, yn canolbwyntio. Mae'r opsiwn hwn, drwy wneud pwynt o ganolbwyntio ar Gymru gyfan, yn ymgais gadarnhaol i ystyried y mannau'r tu hwnt i'r ardaloedd arferol.

Roedd croeso i'r egwyddor o geisio canolbwyntio buddsoddi cyhoeddus yn yr ardaloedd mwyaf anghenus a sicrhau y cynllunnir buddsoddi preifat yn ardaloedd cryfaf y farchnad er mwyn llwyddo i gael y manteision ehangaf sy'n bosibl.

Croesewid y gallu i ddatblygu dulliau lleol o dan fframwaith cenedlaethol ac unedig. Yn aml rhoddid tai a thwf economaidd yn enghreifftiau wrth sôn am ardaloedd lle gwelid materion yn amrywio'n fawr ledled Cymru. Nid oedd canolbwyntio ar un agwedd gul, megis nifer y tai yn hytrach na'u math/safon, o gymorth i gyflawni amcanion ehangach. Byddai dulliau cymunedol yn fwy hyblyg ac yn fodd i ddatblygu atebion priodol.

Ystyrid bod yr opsiwn hwn yn cyd-fynd yn dda â'r Ddeddf Llesiant, gan nad oedd yr opsiwn yn ceisio blaenoriaethu un ardal/amcan yn hytrach na'r llall. Yn lle hynny, ceisiai ddeall sut y gellid cyflawni amcanion ledled Cymru.

**Yn erbyn**

Er y cefnogid uchelgais gyffredinol yr opsiwn hwn, ym marn llawer nid oedd canolbwynt digonol iddo ac nid oedd yn glir sut beth fyddai'r strategaeth ofodol. Yn hytrach na llywio twf a darparu seilwaith, byddai'r opsiwn hwn yn creu'r amodau a fyddai'n golygu y datblygid dulliau o'r-gwaelod-i-fyny ond ni roddai sicrwydd ynghylch lle na sut.

Mynegwyd y farn y byddai'r opsiwn hwn yn colli'r cyfle i sbarduno newid cadarnhaol, a hynny'n genedlaethol. Roedd ansicrwydd ynghylch pa fath o berthynas fyddai rhwng gwahanol haenau'r system gynllunio. Ystyrid mai'r Cynlluniau Datblygu Lleol oedd y rhai mwyaf priodol i gynllunio ardaloedd lleol. Bydd angen atebion cenedlaethol, mawr wrth drafod materion megis y newid yn yr hinsawdd, ffynnu economaidd, atebion tai a mynd i'r afael â llawer o'r

problemau y bydd Cymru yn eu hwynebu rhwng nawr a 2040. Ni ddylem ofni pennu strategaeth ofodol genedlaethol glir. Dyma yw rôl y Llywodraeth.

Roedd pryder mawr y gallai'r opsiwn hwn fynd yn siarter 'Nid i'm bro i' (NIMBI), yn hytrach na darparu strategaeth i ystyried sut y gellid mynd i'r afael â materion cenedlaethol o'r-gwaelod-i-fyny. Sylw a wnaed yn aml oedd nad yw'r rhai sy'n fwyaf tebygol o ymwneud â'r broses gynllunio yn bobl sydd o reidrwydd yn cynrychioli'r gymuned yn gyffredinol ac mai'r gallu i ystyried materion a mynd i'r afael â hwy'n genedlaethol oedd un o'r prif resymau dros gyflwyno'r Fframwaith.

Mynegwyd y farn fod angen ystyried yn ofalus er mwyn deall perthynas y system gynllunio â'r Ddeddf Llesiant. Nid oedd modd i bob man gael pob dim ac nid oedd modd cyrraedd pob nod i'r un graddau ym mhob achos. Mae croeso i'r uchelgais ond nid yw hyn yn realistig a rhaid wrth benderfyniadau. Dylai strategaeth ofodol a llunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ymwneud yn eu hanfod â gwneud y penderfyniadau pwysig yn y ffordd iawn.

**Realistig**

Oherwydd cynlluniau a strategaethau presennol, ynghyd ag ymrwymiadau presennol y Llywodraeth, y farn oedd y byddai'n anodd am y tro i newid i'r dull gofodol hwn. O ystyried hyn, newidiwyd yr opsiwn a'r tybiaethau sy'n sail iddo i adlewyrchu y cefnogir prosiectau mawr, yn enwedig am y tro, ac y bydd angen efallai am brosiectau cenedlaethol, mawr yn ystod cyfnod y Fframwaith. Er hynny, mae'n amlwg y rhydd yr opsiwn hwn ei sylw pennaf i atebion lleol ac i sicrhau mai safbwynt o'r-gwaelod-i-fyny fydd man cychwyn penderfyniadau strategol yn y dyfodol. Gyda'r gwelliant hwn, ystyrid bod yr opsiwn hwn yn realistig.

# Opsiwm 3

| Opsiynau Gwahanol 3 – Strategaeth ofodol i gyflawni amcanion datgarboneiddio ac amcanion ynghylch y newid yn yr hinsawdd. |
|---|
| **Trosolwg Cryno** |
| Mae'r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio ac ar y newid yn yr hinsawdd. Mae'n gofalu mai ein hymateb i'r materion hyn sy'n cael prif sylw'r Fframwaith. Mae llu o dystiolaeth sy'n ategu'r angen i weithredu ar frys ynghylch y newid yn yr hinsawdd. Mae rôl hanfodol i'r system gynllunio o ran hwyluso newid yn gymdeithas garbon-isel drwy sicrhau bod i ddatgarboneiddio le blaenllaw mewn dewisiadau ynghylch defnydd tir. Bydd targedau ynni adnewyddadwy, allyriadau nwyon tŷ gwydr, ynghyd â'r cyllidebau sy'n datblygu ynghylch carbon, yn llywio'r strategaeth ofodol hon yn sylweddol. Yn benodol, canolbwyntia'r Fframwaith hwn ar y modd y defnyddir tir, y berthynas rhwng gwahanol fathau o ddefnydd tir a'r modd y'u cysylltir. Mae'r Fframwaith yn rhoi pwyslais cryf ar gynllunio sut y bydd ein haneddiadau'n tyfu ac yn cysylltu â'i gilydd. Hefyd pwysleisir deall canlyniadau'r dewisiadau a wnawn a'r cyfleoedd a ddaw yn sgil gwneud pethau'n wahanol.<br><br>Bydd patrymau trefol a gwledig presennol yn cael eu haddasu i'w gwneud yn fwy cynaliadwy. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi newidiadau o bwys o ran patrymau datblygu a ffurf trefi, gan gynnwys yn yr ardaloedd sydd ohoni, os bydd angen newidiadau o'r fath i gyflawni amcanion ac i gyfrannu at greu economi garbon-isel. |
| **Pam y lluniwyd yr opsiwn hwn?** |
| Yn achos yr holl faterion a'r holl drafodaeth ar ddewisiadau gofodol posibl y Fframwaith, gwelwyd y cytundeb barn mwyaf ynghylch pwysigrwydd sicrhau bod y Fframwaith yn ymateb i faterion yn ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd ac yn cefnogi'r agenda datgarboneiddio. Awgrymwyd nad oedd dim dadl ddilys yn erbyn yr opsiwn hwn (ee dadl yn cefnogi carboneiddio, gwaethygu problemau'n ymwneud â'r newid yn yr hinsawdd). Rhaid felly oedd ystyried yr opsiwn hwn ar draws proses y Fframwaith. Roedd barn bendant hefyd nad oedd yr opsiwn hwn yn un negyddol, ac na ddylai fod yn un negyddol. Roedd yn gyfle cadarnhaol i ddatblygu ein cymdeithas a'n heconomi mewn ffyrdd newydd a dylid croesawu hyn.<br><br>Credid bod egwyddorion cynllunio defnyddio tir yn allweddol ac mai'r system |

gynllunio ddylai arwain 'cynllunio' ein dyfodol. Cafodd problemau eu gwaethygu oherwydd arfer meddylfryd anghydlynol, pennu sawl nod tymor byr, a methu â deall canlyniadau rhyngberthynol llawer o'n penderfyniadau.

Datblygwyd yr opsiwn hwn, a bu rhagor o ymgysylltu yn ei gylch, ym mis Hydref 2017.

**Trosolwg Llawn: Sut y byddai'r opsiwn hwn o gymorth i gyflawni'r amcanion?**

**Asedau Diwylliannol**

Byddai'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar leoliad datblygu newydd, ar gysylltu gwahanol ddefnydd ac ar ddylunio cynaliadwy sy'n seiliedig ar ddefnyddio ynni'n effeithlon. Byddai'n dylanwadu ar ddewisiadau lleoliad ac yn mynnu mai mewn mannau cynaliadwy y digwydd datblygu newydd. Bydd y Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng aneddiadau a rhanbarthau, yn ogystal â hoelio sylw ar symud o fewn trefi a dinasoedd ac ar eu traws. Byddai'n mynnu y llwyr ystyrid y cyd-destun ehangach wrth ddod i benderfyniadau. Byddai'n cefnogi datblygu diwylliannol pan fyddai hynny o gymorth i gyflawni ein hamcanion datgarboneiddio.

**Tai**

Byddai'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar leoliad datblygu newydd, ar gysylltu gwahanol ddefnydd ac ar ddylunio cynaliadwy, di-garbon, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Byddai'n dylanwadu ar ddewisiadau lleoliad ac yn mynnu mai mewn mannau cynaliadwy y digwydd datblygu newydd. Bydd y Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng aneddiadau a rhanbarthau, yn ogystal â hoelio sylw ar symud o fewn trefi a dinasoedd ac ar eu traws. Byddai'n mynnu y llwyr ystyrid y cyd-destun ehangach wrth ddod i benderfyniadau. Yng nghyd-destun gwahanol ddefnydd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach y darperir tai a chynllunnir y tai ochr yn ochr â'r rhain. Ni chefnogir datblygu tai hapfasnachol na datblygu tai heb ei gynllunio.

O ran datblygu tai, egwyddor gyntaf y Fframwaith fydd ceisio llywio hyn at yr ardaloedd lle bydd cyn lleied ag sy'n bosibl o angen teithio; yr ail egwyddor fydd llywio'r datblygu hwn tuag at yr ardaloedd lle mae dulliau teithio cynaliadwy ar gael. Cefnogir camau gweithredu i hybu effeithlonrwydd y seilwaith trafnidiaeth sy'n bodoli eisoes. Byddai'r Fframwaith hwn yn cefnogi datblygu tai yn y mannau mwyaf cynaliadwy, a allai fod ar feysydd glas ac ar dir llwyd. Defnyddio adnoddau'n effeithlon, safon a dylunio arloesol fyddai'n cael y sylw pennaf.

| |
|---|
| **Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni**<br><br>Bydd y Fframwaith hwn yn arfer dull cadarnhaol a rhagweithiol er mwyn cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel, a hynny drwy<br><br>amrywiaeth o dechnolegau. Bydd hefyd yn cefnogi arloesi a thwf yn y sector Ynni Adnewyddadwy. Un o'r prif flaenoriaethau fydd datgarboneiddio'r sector ynni a sectorau eraill. O ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy, bydd y Fframwaith yn llywio hyn tuag at y mannau mwyaf priodol a thrwyddi ceir fframwaith i gefnogi darparu hyn. Yn ogystal â chefnogi prosiectau mawr, bydd yr opsiwn hwn yn cefnogi prosiectau ynni lleol a rhanbarthol, gan sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y posibiliadau o ran prosiectau cynaliadwy ar bob lefel. Bydd hefyd yn darparu hyblygrwydd i sicrhau y cefnogir cyfleoedd a thechnolegau datblygol.<br><br>Er mwyn cefnogi sector ynni modern, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, fe gynllunnir storio a thrawsyrru ynni. Cefnogir camau gweithredu i sicrhau mwy o effeithlondeb ynni, mewn datblygiadau presennol a newydd. Risgiau posibl yn sgil y newid yn yr hinsawdd fydd yn llywio patrymau defnydd tir a sut seilwaith newydd a ddarperir. Bydd y Fframwaith hwn yn rhag-weld y risgiau a ddaw yn sgil y canlynol: llifogydd; y tymheredd yn codi fwyfwy; colli cynefinoedd a llystyfiant; mwy o ynysoedd gwres trefol, ac effeithiau niweidiol ar ecosystemau. Bydd y Fframwaith yn sicrhau bod patrymau datblygu yn y dyfodol yn ystyried yr elfennau hyn, yn seiliedig arnynt ac yn meithrin gwytnwch yn wyneb y rhain. Fe dderbynnir y bydd rhai ardaloedd yn dal yn agored i'r effeithiau posibl a chynllunnir at ganlyniadau hyn. Bydd newidiadau arfordirol a'r effeithiau posibl ar ddinasoedd, ar drefi ac ar gymunedau yn dylanwadu ar ddewisiadau gofodol.<br><br>Bydd y Fframwaith yn annog bod Systemau Draenio Cynaliadwy yn rhan annatod o ddatblygu newydd, gan hybu'r syniad bod dŵr (gan gynnwys llifddwr) yn nodwedd fwyfwy arferol ar yr amgylchedd adeiledig, drwy waith a gynllunnir ac a reolir. Cefnogir camau gweithredu i sicrhau mwy o effeithlonrwydd ynni, a hynny mewn datblygiadau presennol a newydd. |
| **Seilwaith band eang a seilwaith digidol**<br><br>Byddai'r Fframwaith hwn yn rhoi pob cefnogaeth i ddarparu seilwaith digidol newydd, gan gydnabod ei botensial o ran darparu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd, cynnal arferion gweithio newydd a lleihau'r angen i deithio. |
| **Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd**<br><br>Byddai'r opsiwn arall hwn yn rhoi cefnogaeth bendant i dwf carbon-isel, cynaliadwy. Rhoddir cefnogaeth gref i gyfleoedd a ddaw mewn sectorau sy'n helpu i gyflawni amcanion datgarboneiddio. Bydd y Fframwaith yn cefnogi |

arloesi, ymchwil a datblygu, a hybu technolegau newydd. Bydd cefnogaeth gref i dwf gwyrdd ac i'r economi gylchol.

Byddai'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar leoliad datblygu newydd, ar gysylltu gwahanol ddefnydd ac ar ddylunio cynaliadwy, sy'n seiliedig ar ddefnyddio ynni'n effeithlon. Byddai'n dylanwadu ar ddewisiadau lleoliad ac yn

mynnu mai mewn mannau cynaliadwy y digwydd datblygu newydd. Bydd y Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng aneddiadau a rhanbarthau, yn ogystal â hoelio sylw ar symud o fewn trefi a dinasoedd ac ar eu traws. Byddai'n mynnu y llwyr ystyrid y cyd-destun ehangach wrth ddod i benderfyniadau. Yng nghyd-destun gwahanol ddefnydd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach y darperir mentrau cyflogaeth ac adfywio a chynllunnir y mentrau ochr yn ochr â'r rhain. Ni chefnogir datblygu hapfasnachol na datblygu nas cynlluniwyd. Bydd dewisiadau defnydd tir yn lleihau'r angen i deithio ac yn sicrhau bod cysylltedd a hygyrchedd yn ddau o'r prif flaenoriaethau. Bydd gofyn i brif brosiectau ddangos eu bod yn cyfrannu at yr amcanion hyn a bod y prosiectau wedi eu cynllunio i gefnogi'r amrywiaeth mwyaf o fanteision. Y canolfannau mwyaf poblog presennol ac arfaethedig a rhwydweithiau trafnidiaeth gynaliadwy fydd sail dewisiadau ynghylch lle y bydd canolfannau cyflogaeth strategol. Bydd tlodi'n cael ei drechu drwy wneud y canlynol: darparu tai modern o safon, trechu tlodi tanwydd, cefnogi newid yn economi garbon-isel ffyniannus, a hybu lles pawb yng Nghymru.

**Cymru Wledig**

Bydd y Fframwaith hwn yn ceisio ymdrin â materion tai, cyflogaeth a chysylltedd (digidol a thrafnidiaeth) a chynnal seilwaith cymunedol mewn ardaloedd gwledig. Bydd cefnogaeth i brosiectau ynni cymunedol a all fod o gymorth i dalu am seilwaith a gwasanaethau lleol. Byddai'n cefnogi cymunedau lleol sy'n lleihau'r angen i deithio ac sy'n golygu pan deithir y gellir gwneud hynny'n gynaliadwy. Bydd gofyn canolbwyntio'n glir ar sut y cynllunnir twf, buddsoddi a seilwaith newydd ledled Cymru, er mwyn sicrhau bod dewisiadau gofodol yn cefnogi amcanion datgarboneiddio mewn ardaloedd gwledig a threfol.

**Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf**

Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi datblygu dinas-ranbarthau cysylltiedig, hygyrch, a gynlluniwyd yn dda, ac sy'n cydlynu creu twf a seilwaith mewn modd sy'n sicrhau'r canlyniadau cadarnhaol mwyaf sy'n bosibl. Blaenoriaethir darparu seilwaith trafnidiaeth rhanbarthol sy'n cefnogi amcanion datgarboneiddio. Yn ogystal, bydd y Fframwaith yn sylfaen glir i'w darparu. Rhaid cynllunio'r seilwaith a'r prosiectau pennaf yng nghyd-destun defnydd cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach.

**Trafnidiaeth**

Bydd dewisiadau defnydd tir yn lleihau'r angen i deithio, gan sicrhau bod cysylltedd a hygyrchedd yn ddau o'r prif flaenoriaethau. Bydd gofyn i brif brosiectau ddangos eu bod yn cyfrannu at gyflawni'r amcanion hyn. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi camau gweithredu a buddsoddi i ddatgarboneiddio'r sector trafnidiaeth. Bydd hefyd yn sicrhau bod holl

haenau'r system gynllunio defnydd tir yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn hwyluso'r darparu. Blaenoriaethir cerdded, beicio, trydaneiddio a thrafnidiaeth gyhoeddus. Bydd gwasanaethau bysiau, yn ogystal â gwasanaethau trenau,

yn bwysig. Cefnogir buddsoddi newydd o bwys yn ein ffyrdd, os yw'n lleihau tagfeydd yn sylweddol, yn cefnogi gwelliannau sylweddol o ran effeithlonrwydd ac yn cefnogi amcanion ehangach, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â'r amgylchedd ac ansawdd aer.

Caniateir cyfyngu ar ehangu meysydd awyr neu gwneir yn iawn am yr ehangu hwnnw. Buddsoddir mewn gwella cysylltiadau rheilffyrdd allanol a chysylltiadau môr. Cefnogir technolegau datblygol, megis ceir trydan, os ydynt o gymorth i ddatgarboneiddio symudiadau trafnidiaeth. Egwyddor gyntaf y Fframwaith hwn fydd ceisio lleihau, hyd yr eithaf, yr angen i deithio a'i ail egwyddor fydd sicrhau y teithir yn y modd mwyaf cynaliadwy.

**Adnoddau Naturiol**

Cefnoga'r Fframwaith hwn egwyddorion craidd Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy, sef bod yn fwy effeithlon; lleihau i'r eithaf ddefnyddio adnoddau yn anghynaliadwy; lleihau llygredd; a darparu ynni adnewyddadwy. Ochr yn ochr â chamau i leihau allyriadau carbon, bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi camau gweithredu sy'n meithrin y gallu i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd, a hynny yn ein cymunedau, ein busnesau ac yn yr amgylchedd naturiol. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi atebion ar sail natur er mwyn cryfhau amrywiaeth biolegol, gan gynnwys darparu seilwaith a rhwydweithiau gwyrdd. O ran rheoli dŵr, bydd pwysigrwydd cenedlaethol i gyfraniad ardaloedd gwledig ac ucheldiroedd a bydd y Fframwaith yn sylfaen i hwyluso rheoli priodol. Bydd y Fframwaith hwn yn rhoi cefnogaeth gref i egwyddorion yr economi gylchol a defnyddio adnoddau'n effeithlon. Yn achos datblygiadau ynni haul, ynni gwynt a mathau eraill o ynni adnewyddadwy (gan gynnwys biomas), bydd y rhain yn cael eu llywio oddi wrth y tir amaethyddol gorau er mwyn sicrhau bod y tir hwn yn parhau'n dir amaethyddol yn yr hirdymor.

**Y Gymraeg**

Cefnogir cymunedau Cymraeg a bydd canlyniadau penderfyniadau cynllunio yn cael eu hasesu'n llwyr a'u deall yn gymunedol. Bydd y Fframwaith hwn yn

cefnogi pob cymuned drwy nodi cyfleoedd cyflogaeth priodol a thrwy gynllunio darparu tai newydd er mwyn rheoli newid yn y boblogaeth yn ofalus.

**Iechyd**

Bydd y Fframwaith hwn yn cydlynu darparu seilwaith er mwyn lleihau'r angen i deithio ac yn darparu ffyrdd digidol o gyrchu gwasanaethau. Mae mesurau gwytnwch yn sgil y newid yn yr hinsawdd yn gyfleoedd i hybu iechyd a lles,

gan gynnwys gwella ansawdd aer ac ansawdd dŵr. Bydd lleihau tlodi tanwydd yn cael effaith gadarnhaol ar iechyd a lles pobl.

**Beth yw'r prif dybiaethau sy'n ategu'r opsiwn hwn?**

- Y gweithredir yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol i geisio sicrhau y cynhyrchir ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel drwy amrywiaeth o dechnolegau. Os yw'n ymarferol, rhoddir y gorau'n raddol i ddefnyddio tanwydd ffosil i gynhyrchu ynni.

- Llywir cynhyrchu ynni adnewyddadwy tuag at y mannau mwyaf priodol. Bydd y Fframwaith yn hwyluso cynhyrchu o'r fath a gwna hynny â chefnogaeth cynlluniau cymunedol, llai, ar wasgar, ledled Cymru.

- Bydd datblygiadau cynhyrchu ynni haul, ynni gwynt a mathau eraill o ynni adnewyddadwy (gan gynnwys biomas) yn cael eu llywio oddi wrth y tir amaethyddol gorau er mwyn sicrhau bod y tir hwn yn parhau'n dir amaethyddol yn yr hirdymor.

- Tybir y ffefrir camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

- O ran cynllunio trafnidiaeth a defnydd tir, bydd cysylltiad cryf rhwng y ddwy elfen hyn yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.

- Hyrwyddir effeithlonrwydd ynni'n fawr. Bydd seilwaith storio a thrawsyrru ynni yn cael ei ddarparu'n rhagweithiol, er mwyn gwireddu potensial ynni adnewyddadwy a gwrthsefyll y newid sydd i ddod o ran yr hinsawdd.

- Canolbwyntir yn fawr ar leoliad datblygu newydd, ar gysylltedd gwahanol ddefnydd ac ar ddylunio cynaliadwy, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon. Bydd dewisiadau lleoliad yn mynnu mai mewn mannau cynaliadwy y bydd datblygu newydd.

- Cynllunnir perthynas aneddiadau â rhanbarthau, a hynny yng nghyd-destun yr amcanion cymdeithasol, economaidd, diwylliannol ac amgylcheddol ehangach. Gwneir hyn er mwyn cefnogi cyflawni amcanion datgarboneiddio.

- Egwyddor gyntaf y Fframwaith fydd llywio datblygu tuag at yr ardaloedd lle lleiheir, i'r eithaf, yr angen i deithio; ei ail egwyddor fydd llywio'r datblygu tuag at yr ardaloedd lle gellir defnyddio dulliau cynaliadwy i deithio. Cefnogir camau gweithredu i hybu effeithlonrwydd y seilwaith trafnidiaeth sydd ohoni.

- Lleoliad y canolfannau mwyaf poblog a seilwaith trafnidiaeth gynaliadwy fydd sail dewisiadau gofodol. Lleihau tagfeydd a lleihau allyriadau, yn ogystal â lleihau symudiadau trafnidiaeth, fydd sail y prif benderfyniadau.

- Rhaid i ddefnydd tir, y prosiectau pennaf a seilwaith allu gwrthsefyll effaith y newid yn yr hinsawdd.

- Eir ati i flaenoriaethu dewisiadau'n ymwneud â chysylltedd trenau/bysiau. Targedir gwelliannau ffyrdd i hwyluso datblygu cynaliadwy. Ffefrir defnyddio rheilffyrdd a'r môr, yn hytrach na hedfan, i gysylltu â gweddill y Deyrnas Unedig a'r tu hwnt. Rhoddir blaenoriaeth i gludo nwyddau'n gynaliadwy, gan ystyried y dewisiadau o ran teithiau trên, teithiau ar y dŵr a defnyddio cerbydau trydan.

- Bydd llunio cynigion helaeth o ran Systemau Draenio Cynaliadwy a chamau cynaliadwy i reoli llifogydd. Darperir seilwaith i sicrhau cyflenwad dŵr cyson.

- Darperir tai yn y mannau mwyaf integredig a chynaliadwy. Bydd swyddi/gwasanaethau/cyfleusterau hygyrch, a dewisiadau trafnidiaeth gynaliadwy yn ganolog i'r dewisiadau ynghylch tai newydd.

**Sut wlad fyddai Cymru yn 2040?**

**Asedau Diwylliannol**

Datblygwyd prosiectau cenedlaethol yn y mannau hygyrch mwyaf cynaliadwy, ac fe'u cynlluniwyd ochr yn ochr â mathau eraill o ddefnydd tir.

**Tai**

Cynlluniwyd tai wedi eu dylunio'n dda, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon ac fe'u hadeiladwyd er mwyn creu cymunedau hygyrch a chynaliadwy.

**Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni**

Gwelwyd mwy o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel ledled Cymru a hynny drwy amrywiaeth o dechnolegau. Gwelwyd twf da yn y sectorau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel. Mae cynllunio craff wedi sicrhau bod y dewisiadau gofodol pennaf wedi cefnogi cyflawni amcanion cenedlaethol ac mae Cymru ar y ffordd i guro targedau datgarboneiddio 2050 Cymru.

**Seilwaith band eang a seilwaith digidol**

Mae holl haenau'r system gynllunio yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn cefnogi darparu cyflym a hwyluso technolegau datblygol.

**Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd**

Gwelwyd twf da yn y sectorau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel, gan gefnogi newid yn gymdeithas garbon-isel a hybu mwy o ffynnu ym mhob cwr o Gymru. Cydnabyddir bod Cymru yn un o'r gwledydd sy'n arwain y byd yn y meysydd hyn.

**Cymru Wledig**

Mae dewisiadau gofodol wedi cefnogi amcanion datgarboneiddio mewn ardaloedd gwledig a threfol. Mae'r dewisiadau wedi bod o gymorth hefyd i gyflawni amcanion cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ehangach. Mae cynlluniau ynni cymunedol a gwell seilwaith digidol a charbon-isel wedi bod o gymorth i fynd i'r afael â diboblogi.

**Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf**

Mae seilwaith newydd a rhanbarthau a gynlluniwyd yn dda, wedi bod yn gefn i ranbarthau ffyniannus sydd wedi helpu i gyflawni amcanion o ran datgarboneiddio a'r newid yn yr hinsawdd.

**Trafnidiaeth**

O ran strategaethau trafnidiaeth a chynllunio cenedlaethol, mae'r cyswllt cryf rhyngddynt wedi creu cymunedau hygyrch a chynaliadwy, a gynlluniwyd yn dda, a hynny ledled Cymru. Mae'r cyswllt hwn hefyd wedi cynorthwyo newid i ddefnyddio trafnidiaeth garbon-isel a thrafnidiaeth gyhoeddus.

**Adnoddau Naturiol**

Mae egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy wedi bod o gymorth o ran y canlynol: sicrhau mwy o effeithlonrwydd; lleihau i'r eithaf ddefnyddio ynni'n anghynaliadwy; lleihau llygredd; a darparu ynni adnewyddadwy.

| |
|---|
| **Y Gymraeg**<br><br>Mae buddsoddi a chefnogaeth gref mewn cymunedau lleol wedi sicrhau y cyflawnir amcanion Cymraeg.<br><br>**Iechyd**<br><br>Gwellwyd ansawdd aer drwy ddarparu lleoedd sydd wedi eu dylunio a'u cynllunio'n dda, ac iddynt hefyd seilwaith cysylltiedig. |
| **Beth oedd barn yr ymgysylltu ym mis Hydref 2017 am yr opsiwn hwn?** |
| **O blaid**<br><br>Prin yr oedd anghytuno, os oedd o gwbl, ynghylch pwysigrwydd yr opsiwn hwn. Roedd y rhan fwyaf o'r drafodaeth yn canolbwyntio ar y camau gweithredu a fyddai'n ofynnol i roi'r opsiwn ar waith, yn hytrach na chanolbwyntio ar briodoldeb yr opsiwn.<br><br>Cydnabuwyd bod yr opsiwn hwn yn gyfle cadarnhaol i gefnogi'r sectorau ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel yng Nghymru ac ehangu'r rhain, ac yn gyfle i Gymru ddod yn un o arweinwyr y byd yn y maes hwn.<br><br>Y teimlad cryf oedd mai'r opsiwn hwn, o blith yr holl ddewisiadau, fyddai'r un yr oedd y system gynllunio defnydd tir yn y sefyllfa orau i'w wireddu. Mae lle yr adeiledir pethau, sut y'u hadeiledir, sut y bydd lleoedd yn newid, ynghyd â chydgysylltu gwahanol gyfranogwyr, i gyd yn rhan annatod o'r system gynllunio. |
| **Yn erbyn**<br><br>Yn hytrach na bod yn groes i ysbryd yr opsiwn hwn, roedd y sylwadau negyddol a fynegwyd yn canolbwyntio'n bennaf ar yr heriau o lwyddo i'w lwyr weithredu.<br><br>Y farn oedd bod angen newid diwylliannol mawr i gyflawni'r opsiwn hwn. Mae'r system gynllunio'n rhoi gormod o sylw i safleoedd a materion lleol. Nid yw wedi arfer cyflawni amcanion gofodol a chenedlaethol. Mae'n bwysig cydnabod y bydd yr opsiwn hwn yn hwyluso'r prif brosiectau mawr, yn ogystal â chamau gweithredu bach.<br><br>Y mae goblygiadau cost a dichonoldeb yn real ac maent yn effeithio ar benderfyniadau buddsoddi. Mae gofyn cydnabod y gall rhai penderfyniadau olygu y bydd llai o fuddsoddi. |

| |
|---|
| Mynegwyd pryder bod posibilrwydd y byddai gwahanol strategaethau'r Llywodraeth yn canolbwyntio ar ardaloedd gwahanol ac y byddent, yn anfwriadol, yn amharu ar y gallu i gyflawni'r amcan hwn. |
| **Realistig**<br><br>O gofio'r gefnogaeth gref gan bob sector, ymrwymiad clir Llywodraeth Cymru i gyrraedd targedau datgarboneiddio a thargedau ynghylch y newid yn yr hinsawdd, a llunio'r strategaethau cynllunio, trafnidiaeth a datgarboneiddio<br><br>sy'n gyson â'i gilydd, y farn oedd bod yr opsiwn hwn yn realistig ac y gellid ei gyflawni. Derbynnid bod i'r opsiwn hwn ei heriau ond er hynny, gallai weddnewid pethau. |

# Opsiwm 4

## Opsiynau Gwahanol 4 – Strategaeth ofodol sy’n canolbwyntio ar reoli adnoddau naturiol Cymru yn gynaliadwy

### Trosolwg Cryno

Mae’r opsiwn hwn yn canolbwyntio ar reoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Mae’n cydnabod y bydd rheoli anghynaliadwy’n cael effaith andwyol ar genedlaethau’r dyfodol. Mae’n fframwaith cadarnhaol i helpu i sylweddoli gwerth cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol ein hadnoddau naturiol a sicrhau bod cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol yn gallu ymaddasu ac yn gallu gwrthsefyll newid. Drwy ddefnyddio adnoddau’n fwy effeithlon a lleihau llygredd, bydd y Fframwaith hwn o gymorth i wneud yr ecosystemau a’r fioamrywiaeth sydd gennym yn fwy gwydn. Rhydd amaethyddiaeth, coedwigaeth, ynni adnewyddadwy, dŵr a thwristiaeth gyfle i ddatblygu swyddi o safon ledled Cymru ac i sicrhau bod ein cymunedau’n gynaliadwy’n economaidd yn yr hirdymor.

Byddai’r Fframwaith hwn yn defnyddio tystiolaeth sylfaenol i lywio’r datblygu tuag at y mannau mwyaf addas, gan roi blaenoriaeth bendant i’r goblygiadau o ran adnoddau naturiol wrth benderfynu ar faterion gofodol. Bydd yn canolbwyntio’n fawr ar sut y deuir i benderfyniadau a hefyd ar yr amcanion y dylid eu cyflawni, gan ddefnyddio statws cynllun datblygu’r Fframwaith i sicrhau y gwreiddir y prif egwyddorion yn ddwfn yn holl haenau’r broses benderfynu.

### Pam y lluniwyd yr opsiwn hwn?

Yn ôl Deddf yr Amgylchedd (Cymru), gwlad ac iddi economi werdd a charbon-isel, ac a fydd yn barod i ymaddasu i effeithiau’r newid yn yr hinsawdd, fydd Cymru. Bwriedir i’r Ddeddf helpu i sicrhau lles hirdymor Cymru, er mwyn i’r genhedlaeth hon a chenedlaethau’r dyfodol gael economi ffyniannus, amgylchedd iach a gwydn, a chymunedau cydlynol sy’n fwrlwm i gyd. Lluniwyd yr opsiwn hwn i roi prawf ar sut y gall y cynllun gofodol cenedlaethol fod o gymorth i fodloni gofynion Deddf yr Amgylchedd.

Datblygwyd yr opsiwn hwn, a bu rhagor o ymgysylltu yn ei gylch, ym mis Hydref 2017.

**Trosolwg Llawn: Sut y byddai'r opsiwn hwn o gymorth i gyflawni'r amcanion?**

**Asedau Diwylliannol**

Byddai'r Fframwaith hwn yn cydnabod y gall ein hamgylchedd naturiol a'n tirwedd, boed yn drefol neu'n wledig, ysgogi teimladau cryf, a hynny o ran lle, ysbrydoliaeth a pherthyn, ac y gallant gyfrannu at hunaniaeth ddiwylliannol unigryw Cymru. Byddai'r Fframwaith yn ceisio diogelu a gwella ein tirwedd a'n hadnoddau naturiol a hynny oherwydd eu bod yn hybu lles mewn sawl ffordd, gan gynnwys twristiaeth, hamddena yn yr awyr agored, swyddi lleol, iechyd corfforol ac iechyd meddwl. Yn benodol, byddai'n rhoi cefnogaeth i dirwedd ac i gyfleusterau lleol megis parciau, lleoedd chwarae a gwyrddfannau eraill, sy'n asedau diwylliannol ac ecolegol. Byddai gwrthwynebiad cryf i ddatblygu sy'n tanseilio cadernid ein tirwedd neu'n hadnoddau naturiol, a byddai datblygu o'r fath yn cael ei lywio tuag at ardaloedd ac iddynt lai o sensitifrwydd diwylliannol.

**Tai**

Byddai'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar leoliad datblygu newydd o ran ei berthynas â rhwydweithiau ecolegol, ac ar yr angen i greu amgylchedd deniadol ac iach i bobl fyw ynddynt. Byddai'n llywio datblygu tai oddi wrth yr ardaloedd lle byddai hynny'n debygol o effeithio'n sylweddol ar rwydweithiau ecolegol a materion yn ymwneud â llifogydd ac yn llywio'r datblygu tuag at y mannau lle lleiheid yr angen i deithio. Byddai datblygiadau tai newydd yn croesawu'r manteision amryfal y gall seilwaith gwyrdd roi bod iddynt o ran iechyd a lles. Byddai hefyd yn cefnogi creu mannau agored a rhwydweithiau ecolegol helaethach ac yn hybu eu hygyrchedd.

**Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni**

Byddai'r opsiwn hwn yn blaenoriaethu'r gallu i (ym)addasu, o ran pobl a rhywogaethau. Byddai rhwydweithiau mannau gwyrdd a naturiol yn cael eu gwella a'u diogelu er mwyn helpu i ymaddasu i'r newid yn yr hinsawdd. Bydd y Fframwaith hwn yn rhag-weld y risgiau a ddaw yn sgil y canlynol: llifogydd; ansawdd aer; y tymheredd yn codi fwyfwy; colli cynefinoedd a llystyfiant; mwy o ynysoedd gwres trefol, ac effeithiau niweidiol ar ecosystemau. Bydd y Fframwaith yn sicrhau bod patrymau datblygu yn y dyfodol yn ystyried yr elfennau hyn, yn seiliedig arnynt ac yn meithrin gwytnwch yn wyneb y rhain.

Byddai cynefinoedd sy'n agored i bwysau datblygu – gan gynnwys gorlifdiroedd, coetiroedd a seilwaith gwyrdd trefol – yn flaenoriaeth i gamau gweithredu rhagweithiol ac ataliol. Byddai'r gweithredu'n cynnwys camau i wneud y canlynol: diogelu'r gorchudd coed trefol a'i hybu, gofalu nad yw datblygu'n rhannu gorlifdiroedd, cael systemau draenio cynaliadwy, sicrhau

| |
|---|
| dylunio sy'n ystyried dŵr, a sicrhau bod y carbon yn y pridd yn cael ei reoli'n briodol. Byddai'r opsiwn hwn o gymorth mawr o ran sicrhau bod mwy o ddefnyddio ynni'n effeithlon ac y gwireddir cyfleoedd ledled Cymru i gynhyrchu ynni adnewyddadwy. |
| **Seilwaith band eang a seilwaith digidol**<br>Byddai'r Fframwaith hwn yn cefnogi darparu seilwaith digidol newydd, gan gydnabod potensial y seilwaith hwnnw i wneud y canlynol: darparu gwasanaethau mewn ffyrdd newydd; cefnogi arferion gwaith newydd; lleihau'r angen i deithio; a chefnogi ein dyhead i fyw mewn modd sy'n defnyddio llai o garbon. |
| **Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd**<br>Byddai'r Fframwaith hwn yn cydnabod mai'r cyfoeth o adnoddau naturiol sydd gan Gymru yw un o'n hasedau economaidd mwyaf. Y cyfoeth hwn yw sylfaen ein sector twristiaeth a hamdden llewyrchus, ein diwydiant amaeth, a'n sector bwyd a diod cartref, sef sector sydd ymysg y gorau o'i fath yn y byd. Byddai'r Fframwaith hwn yn sylweddoli'r cyfleoedd economaidd sy'n deillio o adnoddau naturiol Cymru (ochr yn ochr ag adnoddau eraill), ac ar yr un pryd yn cryfhau eu gwytnwch er mwyn creu amgylchedd a fydd yn meithrin busnesau'r dyfodol. Byddai datblygu economaidd yn cael ei lywio oddi wrth yr ardaloedd lle gellid peri gwrthdaro â rhwydweithiau ecolegol pwysig. Byddai seilwaith gwyrdd yn rhan annatod o ddatblygu newydd. Yn ogystal, byddai datblygu newydd yn cefnogi creu rhwydweithiau ecolegol helaethach. Byddai cefnogaeth i gyfleoedd twf gwyrdd a hefyd i sylweddoli'r cyfleoedd economaidd a ddeilliai o reoli adnoddau'n gynaliadwy. Bydd tlodi'n cael ei drechu a hynny drwy sicrhau bod cymunedau lleol yn cael budd o adnoddau naturiol Cymru a thrwy gefnogi datblygu cadarnhaol yng nghyswllt ynni a thai yn ogystal â datblygu economaidd. |
| **Cymru Wledig**<br>Byddai'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar gynnal ein hadnoddau naturiol a'u cefnogi, gan mai nhw yw sylfaen ein heconomi wledig, yn enwedig ein sector amaeth a'n sector twristiaeth. Bydd cynnal ecosystemau iach a gwydn a thirweddau lleol unigryw eu nodweddion yn bwysig er mwyn cynnal 'ymdeimlad â lle' cymunedau gwledig Cymru a'u hunaniaeth. Byddai'r sylw pennaf ar gefnogi atebion ar sail natur, sef atebion a ddefnyddiai amryw fanteision ein hadnoddau naturiol, a hynny er mwyn cynnal economi a diwylliant cymunedau gwledig. Yn ogystal, byddai llawer o sylw ar sicrhau y rheolid rhwydweithiau ecolegol. Byddai hyn yn cefnogi cyflawni amcanion diwylliannol, economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol. Byddai'n cefnogi datblygu mewn ardaloedd gwledig pan oedd hwnnw o gymorth i gyflawni amcanion gwytnwch ac ecolegol. Byddai hefyd yn ceisio gwrthwynebu datblygu os oedd yn ddatblygu a allai danseilio cadernid rhwydweithiau allweddol. |

**Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf**
Bydd y Fframwaith hwn yn cydnabod bod rhwydweithiau a mannau gwyrdd yn hanfodol er mwyn i'n dinas-ranbarthau fod yn lleoedd deniadol i bobl fyw a gweithio ynddynt. Byddai'n cefnogi datblygu rhwydweithiau ecolegol, gan gynnwys seilwaith gwyrdd, ar draws dinas-ranbarthau y'u cynlluniwyd yn dda. Cynllunnir darparu datblygu newydd a seilwaith er mwyn ymateb i effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ac er mwyn cefnogi diogelu a gwella rhwydweithiau ecolegol, yn ogystal â chefnogi rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy. Bydd yn hybu gwell dealltwriaeth o faterion rhanbarthol, er enghraifft dalgylchoedd afonydd. Bydd hefyd yn sicrhau y cynllunnir penderfyniadau ac y deuir iddynt gan wybod y cyd-destun rhanbarthol yn llwyr.

**Trafnidiaeth**
Byddai'r Fframwaith hwn yn blaenoriaethu datblygu yn y mannau sy'n lleihau'r angen i deithio. Hefyd byddai'r Fframwaith yn canolbwyntio ar rôl trafnidiaeth gyhoeddus ac ar ymyriadau i annog llai o lygredd aer. Byddai seilwaith trafnidiaeth newydd yn cynnwys seilwaith gwyrdd ac, yn bwrpasol, yn creu rhwydweithiau ecolegol helaethach a choridorau gwyrdd. Mewn mannau lle byddai'n osgoi rhannu cynefinoedd neu lle na fyddai'n effeithio'n andwyol ar ansawdd aer nac ansawdd dŵr y byddai'r seilwaith trafnidiaeth newydd.

**Adnoddau Naturiol**
Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy fyddai'n llywio'r Fframwaith hwn, gan helpu i sicrhau manteision allweddol o ran iechyd a lles, defnyddio adnoddau'n effeithlon a'u diogelu, ffynnu economaidd, a hunaniaeth cymunedau. I'w sicrhau, byddai'n blaenoriaethu rôl hanfodol ein hadnoddau naturiol yn cefnogi'r rhain ac amrywiaeth mawr o ganlyniadau buddiol eraill. Bydd yr opsiwn hwn yn cydweithio'n agos â'r Polisi Adnoddau Naturiol. Byddai hefyd yn canolbwyntio ar gryfhau gwytnwch ecosystemau, gan gynnwys eu hamrywiaeth, eu cysylltedd, eu maint, eu cyflwr a'u gallu i ymaddasu. Byddai blaenoriaeth i welliannau amgylcheddol. Bwrid ymlaen yn ddyfal i hybu creu cynefinoedd a rhwydweithiau i sicrhau gwytnwch ecolegol. Yn achos datblygiadau ynghylch ynni haul, ynni gwynt a mathau eraill o ynni adnewyddadwy (gan gynnwys biomas), bydd y rhain yn cael eu llywio oddi wrth y tir amaethyddol gorau er mwyn sicrhau bod y tir hwn yn parhau'n dir amaethyddol yn yr hirdymor. Bydd gwella ansawdd aer yn un o'r prif flaenoriaethau.

**Y Gymraeg**
Cefnogir cymunedau Cymraeg a bydd canlyniadau penderfyniadau cynllunio yn cael eu hasesu'n llwyr a'u deall yn gymunedol. Bydd y Fframwaith hwn yn cefnogi pob cymuned drwy nodi cyfleoedd cyflogaeth priodol a thrwy gynllunio darparu tai newydd er mwyn rheoli newid yn y boblogaeth yn ofalus.

**Iechyd**
Byddai'r Fframwaith hwn yn cydnabod y gall ein hamgylchedd naturiol a'n tirwedd, boed yn drefol neu'n wledig, ysgogi teimladau cryf, a hynny o ran lle, ysbrydoliaeth a pherthyn. Byddai'n ceisio diogelu a gwella ein tirwedd a'n hadnoddau naturiol a hynny oherwydd eu bod yn hybu lles mewn sawl ffordd, gan gynnwys lleihau llygredd, gofalu bod gwyrddfannau naturiol yn fwy hygyrch, hybu iechyd corfforol a hybu iechyd meddwl. Bydd sicrhau mwy o ffynnu drwy dwf gwyrdd o gymorth i leihau anghydraddoldeb iechyd.

**Beth yw'r prif dybiaethau sy'n ategu'r opsiwn hwn?**

- Egwyddorion Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy fydd un o'r prif elfennau a fydd yn sbarduno'r opsiwn arall hwn. Bydd yr egwyddorion hynny wedi eu gwreiddio'n ddwfn yn y system gynllunio, a hynny drwy gyfrwng y Fframwaith.
- Rhoddir cefnogaeth gref i'r canlynol: amaethyddiaeth, coedwigaeth, ynni adnewyddadwy, dŵr a thwristiaeth.
- Bydd datblygiadau cynhyrchu ynni haul, ynni gwynt a mathau eraill o ynni adnewyddadwy (gan gynnwys biomas) yn cael eu llywio oddi wrth y tir amaethyddol gorau er mwyn sicrhau bod y tir hwn yn parhau'n dir amaethyddol yn yr hirdymor.
- Bydd y cysylltiadau cryf â Chynllun Morol Cenedlaethol Cymru ac â'r Polisi Adnoddau Naturiol yn fframwaith cydlynol ar gyfer pob gweithgaredd yng Nghymru. Bydd y cysylltiadau hyn yn ganolbwynt hefyd wrth ystyried effeithiau amgylcheddol datblygu ac wrth asesu'r dewisiadau rhesymol eraill.
- Bydd y meysydd eraill yn gyson â'i gilydd o ran polisi a rheoleiddio, gan barchu cyfyngiadau gofodol a cheisio cyfleoedd datblygu cynaliadwy.
- Ystyrir bod pob tir (gan gynnwys tir trefol) yn adnodd naturiol a all gynnal bioamrywiaeth. Disgwylir y bydd integreiddio seilwaith gwyrdd, neu atebion ar sail natur, er mwyn cryfhau bioamrywiaeth a gwytnwch ecosystemau, yn rhan o ddatblygu.
- Bydd helaethu rhwydweithiau gwyrdd arloesol a chynefinoedd o safon ac iddynt fioamrywiaeth, yn enwedig mewn dinas-ranbarthau, o gymorth i feithrin ein cysylltiad â byd natur.
- Blaenoriaethir Systemau Draenio Cynaliadwy, ynghyd â rheoli llifogydd yn gynaliadwy. Darperir seilwaith i sicrhau cyflenwad dŵr cyson. Bydd dalgylchoedd afonydd yn un o'r prif ystyriaethau wrth lunio cynlluniau a dod i benderfyniadau.

- Diogelir gwyrddfannau naturiol a'u gwella, gan gynnwys y rhai sydd yn ymyl llwybrau trafnidiaeth allweddol, er mwyn creu rhwydweithiau gwyrdd, ac ar draws dinas-ranbarthau. Bydd ffurfiau gofodol newydd i rwydweithiau gwyrdd, gan gynnwys ffyrdd sy'n dilyn patrwm llinell syth, ac yn cysylltu â rhwydweithiau bioamrywiaeth naturiol.

- Nod rhwydweithiau gwyrdd fydd dod â sawl budd strategol o ran parhad cynefinoedd a symudiadau rhywogaethau.

- O ran bioamrywiaeth, tirweddau, ardaloedd dyfrol a phridd, osgoir effeithio arnynt, gan liniaru hynny ac addasu yn ei sgil. Hybir poblogaethau rhywogaethau a'u cynefinoedd.

- Gweithredir yn gadarnhaol ac yn rhagweithiol i geisio sicrhau y cynhyrchir ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel drwy amrywiaeth o dechnolegau. Os yw'n ymarferol, rhoddir y gorau'n raddol i ddefnyddio tanwydd ffosil i gynhyrchu ynni.

- Llywir cynhyrchu ynni adnewyddadwy tuag at y mannau mwyaf priodol. Bydd y Fframwaith yn hwyluso cynhyrchu o'r fath. Gwna hynny â chefnogaeth cynlluniau cymunedol, llai, ar wasgar, ledled Cymru.

- Hybir effeithlonrwydd ynni'n fawr a bydd seilwaith storio a thrawsyrru ynni yn cael ei ddarparu'n rhagweithiol, er mwyn gwireddu potensial ynni adnewyddadwy a gwrthsefyll y newid sydd i ddod o ran yr hinsawdd.

- Tybir y ffefrir camau gweithredu sy'n mynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd.

## Sut wlad fyddai Cymru yn 2040?

**Asedau Diwylliannol**
Mae prosiectau cenedlaethol wedi eu datblygu ar sail amgylchedd naturiol a thirwedd unigryw Cymru.

**Tai**
Mae tai wedi eu hadeiladu ledled Cymru, a hynny mewn mannau sy'n gwneud y gorau o'r amryfal fanteision a ddaw o adnoddau naturiol Cymru, gan ategu amcanion iechyd a lles, a heb effeithio'n arwyddocaol ar ardaloedd ecolegol pwysig.

**Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni**
Mae Cymru wedi cynllunio ar sail y risgiau a ddaw yn sgil y newid yn yr

hinsawdd ac mae wedi ymaddasu iddynt, gan sicrhau gwytnwch ledled Cymru. Gwelwyd mwy o gynhyrchu ynni adnewyddadwy ac ynni carbon-isel.

**Seilwaith band eang a seilwaith digidol**
Mae holl haenau'r system gynllunio yn cyd-fynd â'i gilydd er mwyn cefnogi darparu cyflym a hwyluso technolegau datblygol.

**Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd**
Gwelwyd twf da mewn amaethyddiaeth, coedwigaeth, ynni adnewyddadwy, dŵr a thwristiaeth. Mae hyn wedi cefnogi newid yn gymdeithas garbon-isel. Cydnabyddir mai Cymru yw un o'r gwledydd sy'n arwain y byd yn y meysydd hyn.

**Cymru Wledig**
Mae ardaloedd gwledig yn ffynnu, yn iach ac yn wydn. Maent hefyd ar eu hennill yn sgil y twf a'r buddsoddi mewn cynnal a chefnogi ein hadnoddau naturiol.

**Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf**
Mae dinas-ranbarthau – a gynlluniwyd ar sail seilwaith gwyrdd ac adnoddau naturiol – yn ddeniadol, yn iach ac yn ffynnu. Maent yn esiamplau o'r modd y cafodd twf ei lywio i gyflawni ein hamcanion lles.

**Trafnidiaeth**
Mae atebion trafnidiaeth wedi creu rhwydweithiau gwyrdd, gan gefnogi amcanion iechyd ac ecolegol, a symud/teithio cynaliadwy.

**Adnoddau Naturiol**

Mae Cymru yn arwain y byd o ran sylweddoli'r amryfal fanteision a ddaw yn sgil adnoddau naturiol.

**Y Gymraeg**

Mae cefnogaeth gref a buddsoddi mewn cymunedau lleol wedi sicrhau y diwellir amcanion Cymraeg.

**Iechyd**

Darperir lleoedd o safon ac mae cyfleusterau a gwasanaethau ar gael yn gynaliadwy. Mae'n haws cyrchu byd natur ac mae llai o lygredd.

**Beth oedd barn yr ymgysylltu ym mis Hydref 2017 am yr opsiwn hwn?**

**O blaid**

Ystyrid mai hwn oedd yr opsiwn mwyaf unigryw ei nodweddion. Unigryw yn yr

ystyr ei fod yn ddull gwahanol a newydd o ymdrin â chynllunio gofodol. Unigryw hefyd yn yr ystyr y byddai strategaeth ofodol a ddatblygid ar sail adnoddau naturiol Cymru yn strategaeth unigryw i Gymru.

Credid bod yr opsiwn hwn yn ffafrio ffordd well o fesur 'ffynnu'. Yn hytrach na bod yn gwbl seiliedig ar y safbwynt economaidd, ei nod oedd gwireddu gwerthoedd ehangach. Roedd cefnogaeth gref i dwristiaeth ac i gydnabod pwysigrwydd hyn i Gymru.

Mynegwyd y farn mai da o beth fyddai canolbwyntio ar yr adnoddau sydd gennym yng Nghymru, a ninnau'n byw mewn cyfnod ansicr, a chyda'r newidiadau a ddeuai yn sgil Brexit dros y tymor canolig (a thu hwnt i hynny efallai).

Awgrymodd rhai bod pob tir, gan gynnwys ardaloedd trefol, yn adnodd naturiol ac felly bod yr opsiwn hwn yn berthnasol i Gymru gyfan. Roedd eraill o'r farn fod hwn yn opsiwn gryf iawn i rannau o Gymru. Yn achos Canolbarth Cymru a Chymru wledig yn benodol, byddai canolbwyntio ar adnoddau naturiol yn gam cadarnhaol ac yn sail i fuddsoddi a gweithredu.

**Yn erbyn**

Roedd teimlad cryf nad oedd yr opsiwn hwn yn sail i strategaeth ofodol genedlaethol. Roedd yn canolbwyntio ar rannau o Gymru, ond nid ar Gymru gyfan. Roedd yn bosibl hefyd na fyddai ganddo ddim i'm ddweud am rai o'r problemau mwyaf yr oedd Cymru yn eu hwynebu. Er bod llawer o syniadau cadarnhaol, delfryd cyffredinol oedd yr opsiwn hwn. Nid yw'n amlinellu sut y byddai'r elfennau cadarnhaol yn cael eu gwireddu ac ni all ddygymod â'r darlun ehangach.

Ystyrid bod dewisiadau eraill yn canolbwyntio'n fawr ar gyfres benodol o amcanion neu ganlyniadau. Y farn oedd bod yr opsiwn hwn yn gryf mewn mannau ac yn wan mewn eraill. Ystyrid na fyddai'r ansicrwydd hwn o gymorth mewn strategaeth genedlaethol.

Credid y byddai'r opsiwn hwn yn arafu'r economi ac y defnyddid y polisi i atal y math o ddatblygu a oedd yn anghyson â'i ganolbwynt cul. Mynegwyd y farn fod yr opsiwn hwn a'i egwyddorion sylfaenol yn llawn bwriadau da ond yn blwyfol eu golygon, nad oeddent yn wir yn gyson â bywyd go iawn yng Nghymru. Roedd pryderon hefyd fod yr opsiwn yn rhy gul ei olygon ac na cheisiai roi Cymru mewn cyd-destun cenedlaethol a rhyngwladol ehangach.

**Realistig**

Ystyrid ei bod yn anos dirnad yr opsiwn hwn yn syth, o'i gymharu â'r lleill. Amlygai ffordd arall o feddwl yn ofodol a chodai gwestiynau gwahanol. Roedd llawer o'r farn y dylid dal ati â'r egwyddorion craidd ond yn rhan o strategaeth

ofodol ehangach. Barn eraill oedd ei bod yn afresymol diystyru’r dull hwn ar

ddechrau’r broses, ar y sail nad oedd yr atebion i gyd yn hysbys. Rhoi prawf ar bethau, asesu a chaboli yw diben y cam hwn a dylid ymchwilio i’r opsiwn hwn a’i ddatblygu.

Er gwaethaf y pryderon a fynegwyd, cytunir â’r farn ei bod yn rhy gynnar i ddod i’r casgliad bod yr opsiwn hwn yn afrealistig ar hyn o bryd. Roedd cytundeb cyffredinol y dylai llawer o’r prif dybiaethau fod yn rhan o’r strategaeth ddatblygol. Roedd llawer o’r anghytuno ynghylch i ba raddau y dylai hyn ddigwydd, yn hytrach nag ynghylch a ddylid eu hystyried o gwbl.

# Yr Opsiwn Meincnodi

| Yr Opsiwn Meincnodi – Peidio â llunio'r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol |
|---|
| **Trosolwg Cryno a Pham y lluniwyd yr opsiwn hwn?** |
| Peidio â llunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol fyddai'r opsiwn hwn. Byddai'r cynllun presennol, sef Cynllun Gofodol Cymru, yn parhau'n gynllun gofodol cenedlaethol. Nid yw Cynllun Gofodol Cymru yn un ac iddo statws cynllun datblygu.<br><br>O dan Ddeddf Cynllunio (Cymru) mae'n ofynnol llunio Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Nid yw hwn yn opsiwn realistig felly.<br><br>Y mae'n gyfle er hynny i ystyried yr hyn a fyddai'n digwydd pe na bai Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael ei lunio a sut y byddid yn dod i benderfyniadau cynllunio strategol cenedlaethol. Mae'n feincnod pwysig wrth geisio deall y dewisiadau posibl eraill.<br><br>Mae Cynllun Gofodol Cymru yn dal yn gynllun strategol pwysig ac mae llawer o'r dulliau polisi allweddol yn dal yn ddilys. Un o'i wendidau yw'r ffaith nad oes iddo statws cynllun datblygu na'r gallu i ddylanwadu ar benderfynu. Ni fyddai'r sefyllfa hon yn newid. Byddai gallu'r system gynllunio i ymateb i ofynion Deddf yr Amgylchedd, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ynghyd â'r amcanion datgarboneiddio sydd gan Lywodraeth Cymru, yn cael ei gyfyngu i gamau gweithredu lleol a hynny heb safbwynt strategol rhychwantol. |
| **Trosolwg Llawn: Sut y byddai'r opsiwn hwn o gymorth i gyflawni'r amcanion?** |
| **Asedau Diwylliannol**<br><br>Byddai diwylliant yn cael ei hybu'n gymunedol ac yn lleol. Cydnabyddir y cysylltiad â ffynnu economaidd ond ar y cyfan, ni fyddai'r maes hwn yn flaenoriaeth. |
| **Tai**<br><br>Byddai'r newid yn yr hinsawdd yn fater brys. Yn achos y prif ddatblygiadau, effaith y datblygu hwnnw ar yr amcanion ynghylch y newid yn yr hinsawdd fyddai sail y penderfynu. Pe bai/wrth i lefel y môr godi fwyfwy, byddai'n bwysig sicrhau y gellid ymdopi â hynny, gan leihau'r risgiau i bobl ac i eiddo. |

**Y newid yn yr hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni**

Byddai angen camau gweithredu lleol i sicrhau bod pob datblygiad yn cyfrannu at yr amcanion ynghylch y newid yn yr hinsawdd, gyda chefnogaeth, er enghraifft, i deithio llesol a mentrau gwyrddu lleoedd. Byddai'r polisi ynni yn gyson â pholisïau cenedlaethol (ee targedau ynni a datgarboneiddio). Byddai hefyd yn seiliedig ar ddull rhanbarthol, a disgwylid i'r rhanbarthau arfer eu cryfderau a'u mantais gystadleuol.

**Seilwaith band eang a seilwaith digidol**

Byddai band eang a'i ddarpariaeth yn cael ei ystyried yn fater rhanbarthol. Y rhanbarthau eu hunain fyddai'n ymdrin â heriau megis 'mannau gwan'. Byddai band eang cyflym yn flaenoriaeth i ardaloedd lle gwelid gweithgarwch o werth economaidd mawr. Byddai ymyriadau'r Llywodraeth yn ymatebol, gan fynd i'r afael â phroblemau nad oedd modd i'r farchnad eu datrys.

**Ffynnu economaidd ac adfywio economaidd**

Byddai adfywio yn fodd allweddol i wneud Cymru gyfan yn fwy ffyniannus. Sail ranbarthol fyddai i brosiectau. Byddai gan Lywodraeth Cymru rôl allweddol o ran nodi ardaloedd prosiect, yr elfennau sbarduno, a phennu'r uchelgais ar gyfer canlyniadau at y dyfodol. Mae sicrhau y manteisir i'r eithaf ar y cryfderau rhanbarthol sydd ohoni yn gwbl allweddol i amcanion ffynnu economaidd. Camau gweithredu lleol a rhanbarthol yw'r cyfrwng pennaf o ran helpu i leihau anghydraddoldeb a sicrhau bod pawb yn ffynnu.

**Cymru Wledig**

Byddai ardaloedd gwledig yn cael sylw mawr iawn. Darparu gwasanaethau a chyfleusterau cymunedol hygyrch i ardaloedd gwledig fyddai un o'r prif flaenoriaethau. Byddai arian gan y Llywodraeth ac arian Ewropeaidd ar gael i helpu i gyflawni hyn. Roedd trafnidiaeth a swyddi yn ddau o'r prif flaenoriaethau hefyd wrth helpu i gynnal bywyd gwledig, llawn bwrlwm. Byddai cefnogaeth gref i gamau gweithredu yn y meysydd hyn.

**Dinas-ranbarthau a Bargeinion Twf**

Byddai cefnogaeth i ddatblygu dinas-ranbarthau er mwyn sbarduno ffynnu economaidd o amgylch Caerdydd ac Abertawe, ac yn y Gogledd-ddwyrain. Mae gan bob dinas-ranbarth gryfderau unigryw a'r rhain fydd y sylfaen wrth geisio datblygu economïau rhanbarthol cryf. Byddai cefnogaeth i'r dull rhanbarthol a amlinellir yng Nghynllun Gofodol Cymru ar gyfer rhannau eraill o Gymru.

**Trafnidiaeth**

Defnyddir dull o'r-gwaelod-i-fyny i ymdrin â materion trafnidiaeth pob dydd. Deuir â materion ardal ynghyd i ganfod y blaenoriaethau rhanbarthol. Deuir â materion rhanbarthol ynghyd i ganfod y blaenoriaethau cenedlaethol. Ystyrir bod buddsoddi mewn trafnidiaeth yn fodd allweddol i gefnogi adfywio a chefnogi amcanion economaidd.

**Adnoddau Naturiol**

Ystyrir adnoddau naturiol o safbwynt lleol. Maent yn asedau lleol sydd o gymorth i bennu pa fath o ddatblygu sy'n briodol mewn ardal, a maint y datblygu hwnnw. Heblaw am yr angen i sicrhau y defnyddir adnoddau naturiol yn gynaliadwy, nid oes dim dull na pholisi cenedlaethol yn bwysicach na'r llall.

**Y Gymraeg**

Mae cefnogaeth i gymdeithas ddwyieithog a modern, lle mae'r Gymraeg yn nodwedd gymunedol. Bydd cynllunio o gymorth i ddarparu lleoedd i fywyd cymunedol ffynnu. Nid oes cysylltiad cryf rhwng iaith a ffynnu.

**Iechyd**

Byddai'n meithrin cymunedau cynaliadwy drwy fynd i'r afael ag anghydraddoldeb, gwella iechyd a chael gwared ar dlodi plant. Byddai'n creu ac yn cynnal y cyfuniad iawn o wasanaethau a byddai'r rheini yn rhan o aneddiadau allweddol neu wrth eu hymyl, a gellid defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus i'w cyrraedd.

**Y berthynas â'r Cynlluniau Datblygu Strategol/Cynlluniau Datblygu Lleol**

Byddai'r sefyllfa bresennol yn parhau, sef bod y Cynlluniau Datblygu Strategol a'r Cynlluniau Datblygu Lleol yn gorfod ystyried Cynllun Gofodol Cymru, ond hyn a hyn o berthynas fyddai mewn gwirionedd. Mater i'r Cynlluniau Datblygu Strategol fyddai diffinio eu hamcanion strategol eu hunain, gan nad oedd cyd-destun Cymru gyfan. Yn yr ardaloedd hynny lle nad oedd Cynllun Datblygu Strategol (neu lle na luniwyd un hyd yma), y Cynlluniau Datblygu Lleol fyddai'n ymdrin â materion megis ynni adnewyddadwy, diboblogi ac anghysondeb o ran datblygu tai.

**Beth yw'r prif dybiaethau sy'n ategu'r opsiwn hwn?**

- Nid oes cynllun datblygu cenedlaethol.
- Y system gynllunio datblygu lleol fyddai'r haen bennaf o ran llunio cynlluniau a phenderfynu. Maes o law, mewn rhannau o Gymru, roedd yn bosibl y byddai Cynlluniau Datblygu Strategol yn cael eu llunio.
- Bydd y tueddiadau presennol yn parhau. Byddai'r cynnydd a ddisgwylid, o ran cyrraedd prif dargedau Llywodraeth Cymru a chyflawni ei phrif amcanion, yn parhau ar ei drywydd presennol.
- Yn ofodol, ni fyddai safbwynt y polisi cynllunio cenedlaethol yn cael ei newid i gyd-fynd â gofynion Deddf yr Amgylchedd a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.
- Bydd adfywio ac ardaloedd gwledig yn cael sylw mawr.
- Ystyriaeth gymharol ddibwys yw band eang.
- Byddai tai'n fater a ystyrid ar wahân, heb ei gysylltu ag amcanion ehangach.
- Byddai amcanion trafnidiaeth yn cael eu cysylltu'n rhannol ag amcanion ffynnu ond nid ystyrid eu bod yn elfen ganolog o ran cyflawni amcanion ehangach.
- Ystyrid bod adnoddau naturiol ac ynni yn faterion rhanbarthol, heb safbwynt cenedlaethol na statws blaenoriaeth.
- Byddai'r newid yn yr hinsawdd yn elfen ganolog ac yn flaenoriaeth.

# Atodiad 3

## Mynychwyr y Digwyddiadau Ymgysylltu

| Dyddiad | Lleoliad | Sefydliadau a gynrychiolir |
|---|---|---|
| 6 Hydref | Caerdydd | Institution of Chartered Engineers Wales Cymru<br>Royal Institution of Chartered Surveyors Cymru |
| 9 Hydref | Caerdydd | Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr<br>Prifysgol Caerdydd<br>Dŵr Cymru<br>Cyngor Swydd Henffordd<br>Innogy Ltd<br>Lichfields and Partners<br>Uned Ddata Cymru<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Planning and Environment Bar Association<br>Yr Arolygiaeth Gynllunio<br>Prospero Planning Ltd<br>Cyngor Cymuned Sain Ffagan<br>The Victorian Society<br>Cyngor Bro Morgannwg<br>Watts and Morgan |
| 12 Hydref | Caerfyrddin | Cyngor Sir Caerfyrddin<br>Cyngor Sir Ceredigion<br>Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro<br>Cyngor Sir Penfro<br>Yr Arolygiaeth Gynllunio<br>Cyngor Dinas a Sir Abertawe |
| 13 Hydref | Llandrindod | British Holiday and Home Parks Association<br>Calon Cymru Network<br>Mineral Products Association<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyngor Sir Powys<br>Iechyd Cyhoeddus Cymru<br>RTPI Cymru |
| 17 Hydref | Caerdydd | Barratt Homes Ltd<br>Barton Willmore Ltd<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili<br>Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd<br>Cyngor Dinas a Sir Caerdydd<br>Prifysgol Caerdydd<br>Comisiwn Dylunio Cymru<br>Cyhoeddus Amgylcheddol yng Nghymru.<br>Ffederasiwn y Meistr Adeiladwyr<br>Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol<br>Ffederasiwn Adeiladwyr Cartrefi |

| | | |
|---|---|---|
| | | Cyfoeth Naturiol Cymru<br>Cyngor Dinas Casnewydd<br>Yr Arolygiaeth Gynllunio<br>Redrow Limited<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf<br>RSPB Cymru<br>RTPI Cymru<br>Chwaraeon Cymru<br>Sustrans Cymru<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen<br>Cyngor Bro Morgannwg<br>Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru<br>Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| 19 Hydref | Cyffordd Llandudno | Cyngor Tref Abergele<br>Cyngor Tref Bae Colwyn<br>Cadnant Planning Ltd<br>Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig<br>Cyngor Sir Ddinbych<br>Lambe Planning and Design Ltd<br>Cyswllt Amgylchedd Cymru<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| 20 Hydref | Cyffordd Llandudno | Association of Local Government Archaeological Officers<br>Cadnant Planning Ltd<br>Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru<br>Meyrick Estates Management Ltd<br>Cyfoeth Naturiol Cymru<br>SP Energy Networks |
| 9 Tachwedd | Cyffordd Llandudno | Institution of Chartered Engineers Wales Cymru<br>Royal Institution of Chartered Surveyors Cymru |

# Atodiad 4

## Pecyn i'r Mynychwyr cyn y Digwyddiadau

## 1 Cyflwyniad

Mae'r pecyn hwn yn cefnogi digwyddiadau ymgysylltu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol (FFDC) sydd yn cael eu cynnal gan Lywodraeth Cymru ym mis Hydref 2017. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys gwybodaeth am y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol a'r gwaith a wnaed hyd yma. Gofynnwn i chi ystyried yr wybodaeth yma cyn y digwyddiad, gan ein bod yn bwriadu eu trafod yn fanwl ar y diwrnod.

Yr ail gylch o weithgareddau ymgysylltu yw'r digwyddiadau hyn wrth ddatblygu Fframwaith Datblygu Cenedlaethol, ac rydym yn croesawu cyfraniadau gan bawb. Gellir gweld cofnod o'r cylch cyntaf o ddigwyddiadau ymgysylltu yma:

http://gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/statement-of-public-participation/engagement-events/?lang=cy

## 2 Beth yw'r FfDC?

Bydd y FfDC yn Gynllun Datblygu Cenedlaethol am gyfnod o 20 mlynedd. Bydd yn cymryd lle Cynllun Gofodol Cymru ar ei gyhoeddi ym Medi 2020. Rôl y FfDC yw:-

- nodi lle mae angen twf a seilwaith o bwysigrwydd cenedlaethol a sut gall y system gynllunio gyflawni hyn - yn genedlaethol, yn rhanbarthol ac yn lleol;
- darparu cyfeiriad strategol a chynlluniau datblygu lleol a chefnogi benderfynu ar ddatblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol;
- eistedd ochr yn ochr â Polisi Cynllunio Cymru, sy'n nodi polisïau cynllunio Llywodraeth Cymru ac sy'n darparu cyd-destun ar gyfer cynllunio defnydd tir;
- cefnogi strategaethau cenedlaethol ar yr economi, trafnidiaeth, ynni, tai, amgylchedd a diwylliant, a sicrhau y gellir eu cyflawni drwy'r system gynllunio.

## 3 Beth yw'r amserlen ar gyfer paratoi'r FfDC?

Nodir yr amserlen a'r broses ar gyfer paratoi yr FFDC yn y datganiad o gyfranogiad y cyhoedd. Mae hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth ar sut y byddwn yn ymgysylltu â phobl. Gellir ei weld yma:

http://gov.wales/topics/planning/national-development-framework-for-wales/statement-of-public-participation/?lang=cy

## 4 Pam ydyn ni'n ymgysylltu nawr?

Caiff y FfDC ei ddatblygu a'i lunio yn unol â'r 'pum ffordd o weithio ' sydd wedi'u ymgorffori yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.  Mae ymgysylltu cynnar yn helpu i gynnwys pobl ac yn helpu inni ddeall sut y gallwn gydweithio ag eraill ac integreiddio ein camau gweithredu i gyflawni amcanion cyffredin. Cyn yr ymgynghoriad ffurfiol ar  ddrafft o Strategaeth Ofodol y FfDC ym mis Ebrill 2018, rydym yn dymuno cynnwys pobl a rhoi y cyfle i gyfrannu i chi at:

1. ddatblygu amcanion y FfDC, a
2. ddatblygu opsiynau gofodol i'r FfDC.

## 5 Sut hoffem ni i chi gyfrannu ar yr adeg hon?

Ym mis Ebrill 2018 bydd Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad cyhoeddus am 12 wythnos ar Amcanion y FfDC ac ar Opsiynau Gofodol fydd wedi cael eu profi ac rydym yn ystyried gall helpu gyflawni'r amcanion. Byddwn yn nodi opsiwn gofodol a ffefrir. Wrth inni ddatblygu'r amcanion ac opsiynau gofodol, hoffem eich cynnwys chi a rhoi cyfle i chi roi eich barn ymlaen llaw. Bydd hyn yn sicrhau bod arbenigedd a safbwyntiau ystod eang o bobl yn cryfhau'r gwaith.

Ni fwriedir I'r ymgysylltiad hwn fod yn ffurfiol yr ac rydym yn croesawu'r unrhyw gyfraniadau. Lluniwyd yr ymgysylltiad hwn gan yr adborth a gawsom yn dilyn digwyddiadau yn gynharach eleni, lle dywedodd pobl wrthym:-

- bod digwyddiadau byr yn well;
- y dylid rhannu gwybodaeth ymlaen llaw er mwyn gallu paratoi a deall y pwnc cyn cyrraedd y digwyddiad;
- eu bod am gyfrannu yn ymarferol ar y diwrnod; ac
- dylid bod cyfle I wneud cyfraniadau pellach yn dilyn y digwyddiad, ar ol cael cyfle i ystyried y materion mewn mwy o fanylder.

***Cyn y digwyddiad ymgysylltu***

Darllenwch y pecyn gwybodaeth yma a meddyliwch am y 4 cwestiwn isod.  Mae atodiad 1 yn  cyflwyno drafft gyntaf yr Amcanion a'r Opsiynau Gofodol ar gyfer y FfDC.  Bydd y digwyddiad yn canolbwyntio ar **Opsiynau Gofodol 1 i 4 yn unig**, ac ar gyfer pob opsiwn byddwn yn trafod:

1. Pa mor realistig yw'r opsiwn?
2. Sut gellir gwella'r opsiwn er mwyn sicrhau'r buddion mae'n gobeithio eu cyflawni?
3. Beth fyddai'r goblygiadau negyddol tebygol yn sgil dilyn y trywydd hwn?

4. Beth fyddai rôl y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol o ran sicrhau’r canlyniadau mae’r opsiwn yma yn ei geisio?

Byddwn yn hapus i dderbyn sylwadau ysgrifenedig ar Opsiwn Gofodol 5 a’r Amcanion yn dilyn y digwyddiad.

***Yn y digwyddiad***

Byddwn yn cyflwyno ac esbonio’r dystiolaeth sy’n gyd-destun i’r ffordd rydym yn paratoi’r FfDC. Byddwn wedyn yn trafod Opsiynau Gofodol drafft 1, 2 3 a 4 yn eu tro. Mae’r Opsiynau drafft yn cyflwyno fersiynau amgen o strategaeth yr FfDC. Maen nhw’n ystyried sut gall y dyfodol edrych, a chyfraniad y system gynllunio at wireddu’r dyfodol hynny. Ein bwriad yn y trafodaethau yw nodi cryfderau a gwendidau pob opsiwn. Mae trafod a craffu ar yr opsiynau yn rhan bwysig o’r broses o’u profi ac o baratoi cynllun datblygu. Mae hyn yn ein helpu i adnabod canlyniadau cadarnhaol, negyddol a niwtral fyddai’n deillio o bob opsiwn

***Ar ôl digwyddiad***

Mae Atodiad 2 yn cynnwys ffurflen y gallwch gyflwyno sylwadau ychwanegol i ni. Gall y sylwadau hyn fod ar Amcanion drafft y FfDC, y pump Opsiwn Gofodol drafft ac mae croeso hefyd i chi awgrymu opsiynau gofodol amgen eraill.

Byddwn angen eich sylwadau o fewn un wythnos ar ôl y digwyddiad a byddwn ond yn derbyn sylwadau a gyflwynwyd ar y ffurflen ymateb. Mae’r broses ymgysylltu yma yn un anffurfiol, ac rydym am glywed gan amrywiaeth eang o gyfranogwyr a defnyddio’r safbwyntiau hynny i’n helpu i lunio'r strategaeth ofodol y FfDC. Bydd cyfleoedd ar gyfer cyflwyniadau mwy ffurfiol, gan gynnwys cyflwyno gwybodaeth ategol i ni, yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ym mis Ebrill 2018.

## 6 Sut bydd cyfraniadau y gwneir yn y digwyddiadau yn cael eu defnyddio?

Bydd record o’r digwyddiadau yn cael ei baratoi, yn crynhoi’r holl sylwadau. Bydd y cofnod hwn yn ran o sail dystiolaeth y FfDC ac yn dylanwadu’n uniongyrchol ar ddatblygiad Amcanion ac Opsiynau Gofodol yr FfDC. Byddwn yn profi’r Opsiynau Gofodol gan ddefnyddio Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig, a cham wrth gam byddwn yn penderfynu ar Opsiwn Ofodol a ffefrir ar gyfer ymgynghoriad Ebrill 2018

## 7 Bydd cyfleon pellach i fod yn rhan o’r broses?

Bydd. Byddwn yn cynnal digwyddiadau ymgysylltu ac ymgynghoriadau ffurfiol yn y dyfodol.

## 8 Ble gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ar y FfDC?

Gwefan Llywodraeth Cymru yw’r ffynhonnell orau ar gyfer gwybodaeth: http://gov.cymru.

Gallwch gysylltu â thîm y FfDC drwy:

Ffonio: 0300 025 3744 neu 0300 025 6657

E-bostio: ndf@gov.cymru

Y ffordd orau o gadw mewn cysylltiad a derbyn y diweddara’ ar y FFDC yw drwy gofrestru am ein cylchlythyr achlysurol, drwy ein gwefan.

## Amcanion ac Opsiynau Gofodol drafft i'r FfDC

Ym mis Ebrill 2018, byddwn yn ymgynghori ar Faterion, Opsiynau ac Opsiwn a ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol. Dyma grynodeb o amcanion drafft y FfDC a'r opsiynau gwahanol er mwyn cynnal ymgysylltu â rhanddeiliaid

| Amcanion y FfDC | | |
|---|---|---|
| **1** | **Asedau Diwylliannol** | Diogelu a gwella asedau cenedlaethol presennol a hwyluso datblygiad diwylliannol newydd. |
| **2** | **Tai** | Cyfeiriad strategol ar gyfer tai cymdeithasol a phreifat o ansawdd da ac sy'n gysylltiedig â seilwaith. |
| **3** | **Newid yr Hinsawdd, datgarboneiddio ac ynni** | Ymateb i effeithiau newid yn yr hinsawdd, hwyluso datgarboneiddio a helpu i ddarparu ynni adnewyddadwy a charbon isel. |
| **4** | **Band-eang ac Isadeiledd digidol** | Hwyluso seilwaith ar draws Cymru gyfan, nawr ac yn y dyfodol. |
| **5** | **Ffyniant Economaidd ac Adfywio** | Cefnogi arloesi a datblygu technolegol. Cynllunio datblygiad economaidd ar sail isadeiledd a'r boblogaeth. Cefnogi arbenigeddau, clystyru a rhanbarthau unigryw. |
| **6** | **Cefn Gwlad Cymru** | Cefnogi gweithredau sy'n cryfhau cymunedau drwy ddenu a chadw pobl. Ymateb i heriau a chyfleoedd mewn amaethyddiaeth. |
| **7** | **Rhanbarthau dinesig** | Cefnogi cytundebau Dinas yn y de-ddwyrain, y de-orllewin a'r gogledd. |
| **8** | **Trafnidiaeth** | Lleihau'r angen i deithio. Hwyluso'r broses o ddarparu'r isadeiledd trafnidiaeth allweddol, gan gynnwys trydaneiddio'r rwydwaith reilffyrdd, y metro, maes awyr Caerdydd a phorthladdoedd allweddol. |
| **9** | **Rheolaeth Gynaliadwy o'n Adnoddau Naturiol** | Rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy. Cryfhau gwytnwch safleoedd dynodedig, cynefinoedd a bioamrywiaeth. Cefnogi'r egwyddor o atebion sy'n seiliedig ar natur, economi gylchol a thwf gwyrdd. |
| **10** | **Y Gymraeg** | Helpu i greu amodau i sicrhau 1 miliwn o siaradwyr Cymraeg. |

Mae pump o opsiynau amgen ar hyn o bryd:

- Opsiwn 1 - Ffocws ar y farchnad Rydd
- Opsiwn 2 - Ffocws gymunedol
- Opsiwn 3 - Ffocws ar ddatgarboneiddio
- Opsiwn 4 - Ffocws ar wydnwch Adnoddau Naturiol
- Opsiwn 5 - Nid yw'r FfDC yn cael ei baratoi

Gweler isod grynodeb o bob opsiwn.

**Opsiynau Gofodol Amgen drafft**

Mae nodi a phrofi opsiynau amgen yn rhan annatod o'r broses o ddatblygu polisi. Datblygwyd y 5 o opsiynau isod fel dechrau i'r broses hon ac er mwyn ein galluogi i ymgysylltu â phobl yn ystod Hydref 2017. Deilliodd yr opsiynau o'r gwaith o ymgysylltu a chasglu tystiolaeth a gynhaliwyd hyd yn hyn a byddwn yn egluro yn ystod y digwyddiad, y cyd-destun i bob opsiwn.

Mae pob opsiwn yn cyflwyno dull amgen, gan ganolbwyntio ar themâu gwahanol a nodi sut gallai yr FfDC ddarparu fframwaith i gefnogi ymagweddau defnydd tir gwahanol. Nid dewis ein hoff opsiwn, neu opsiwn buddugol, yw diben y cam hwn o'r broses. Yn hytrach, mae'n ein helpu i ddatblygu ystod o opsiynau uchelgeisiol, realistig a chyraeddadwy. Mae'n debygol bod elfennau cryf i bob opsiwn byddai yn ein helpu i gyflawni ein nod o ddatblygu cynaliadwy, ond bydd gan bob dewis hefyd ganlyniadau negyddol posibl. Mae hyn yn iawn.

Unwaith y byddwn wedi cwblhau'r ymgysylltu a mireinio'r opsiynau i adlewyrchu'r sylwadau a'r adborth a gafwyd, cânt eu profi drwy Arfarniad o Gynaliadwyedd Integredig i asesu eu heffeithiau ar ein hamcanion a'r amgylchedd. Bydd canlyniadau'r profion yma yn ein helpu i ddatblygu opsiynau gofodol newydd. Bydd y broses ailadroddol hon yn arwain at adnabod yr opsiwn a ffefrir ar gyfer y Fframwaith Datblygu Cenedlaethol ar gyfer ymgynghoriad ym mis Ebrill 2018.

**Opsiwn 1 – Ffocws ar y farchnad rydd**

**Trosolwg**

Twf a datblygiad yr economi yw'r brif flaenoriaeth. Ymddiriedir yng ngallu'r farchnad rydd i fynd i'r afael â heriau ac mae angen sicrhau bod busnes yn ymatebol, yn gallu datblygu atebion a dulliau gweithredu newydd ac na chyfyngir ar fusnesau gan y system gynllunio. Mae'n hwyluso datblygiad ac yn manteisio i'r eithaf ar y ddarpariaeth o gyfleoedd economaidd, gan gynnwys datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol (DNS).

Mae'r FfDC yn ceisio helpu cyflawni nodau traws-lywodraethol, fel amddifadedd, adfywio, iechyd corfforol a meddyliol, drwy hwyluso twf economaidd.

**Tybiaethau allweddol**

- Nodi DNS ar gyfer isadeiledd a phrosiectau datblygu allweddol
- Lefelau uchel o fuddsoddiad i drafnidiaeth, ynni ac isadeiledd digidol.
- Dinasoedd a'u rhanbarthau fydd yn gyrru twf economaidd yn bennaf
- Lefelau uwch o godi tai a datblygiad economaidd, gyda thir glas yn cael ei ryddhau
- Ymlacio ar rai rheolau cynllunio a phwerau amgylcheddol.
- Ymdrechu i wella cysylltedd mewnol ac allanol, gan gynnwys gwell gysylltiadau awyr, môr, ffordd a'r rheilffordd cyflymder uchel i Loegr a thu hwnt.
- Y sector preifat fydd yn arwain buddsoddiad yn y sectorau ynni a gwastraff.

## Opsiwn 2 – Ffocws Gymunedol

### Trosolwg

Gyrrir hyn gan greu cymunedau cryf, lleol. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau bod pawb yn cael mynediad i swyddi, tai, gwasanaethau a'r cyfleusterau y mae arnynt eu hangen. Caiff buddiannau'r rhai mwyaf anghenus eu blaenoriaethu ar gyfer gweithredu ac mae pwyslais cryf ar bobl ac ar eu lles. Bydd mynediad at wasanaethau a chyfleusterau, cynhwysiant cymdeithasol a gwella iechyd yn ystyriaethau allweddol.

### Tybiaethau allweddol

- Mae gwella iechyd a lles yn allweddol, gyda gwelliannau o ran ansawdd aer wedi'i targedu.
- Mae adfywio a mynd i'r afael ag amddifadedd yn ffocws allweddol, gyda datblygu economaidd yn canolbwyntio ar yr ardaloedd lle mae'r angen mwyaf.
- Bydd cefnogaeth i dai fforddiadwy lleol, gyda chefnogaeth gref ar gyfer hunan-adeiladu a thai yn lleol.
- Mae hygyrchedd yn ganolog i wneud penderfyniadau a rhaid i ddewisiadau lleoliadol wella hygyrchedd i holl aelodau'r gymdeithas.
- Pwysleisir cysylltedd digidol yn y FfDC.
- Rhoddir blaenoriaeth i gynlluniau ynni adnewyddadwy sy’n eiddo i;r gymuned
- Cefnogaeth gryf i’r egwyddor o economi gylchol a thrin gwastraff fel adnodd.
- Patrymau anheddau cynaliadwy – cartrefi yn agos at swyddi a gwasanaethau a chyfleusterau allweddol, gan leihau'r angen i deithio a sicrhau patrymau defnydd tir cynaliadwy.

**Opsiwn 3 – Ffocws ar ddatgarboneiddio**

**Trosolwg**

Newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio yw'r ystyriaethau sylfaenol. Caiff penderfyniadau a wneir drwy gyfrwng y system cynllunio eu llywio gan yr angen i ddatgarboneiddio a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd. Bydd targedau ar gyfer ynni adnewyddadwy ac allyriadau yn dylanwadu'n sylweddol ar y dewis hwn. Bydd patrymau trefol a gwledig presennol yn cael eu haddasu i wella'u cynaliadwyedd. Bydd rhaglenni i addasu adeiladau sy'n bodoli eisoes a ffabrig trefol, megis rhaglenni effeithlonrwydd ynni, yn cael ei cefnogi. Gall fod cyfyngiadau ar rhai gweithredoedd ac rydym yn derbyn bod rhaid gwneud penderfyniadau anodd er mwyn cyflawni manteision tymor hir

**Tybiaethau allweddol**

- Rhaid i ddatblygiadau allu gwrthsefyll effeithiau newid yn yr hinsawdd.
- Ni fydd amcanion economaidd yn gorbwyso cyflawni amcanion newid yn yr hinsawdd a datgarboneiddio.
- Mae lleihau symudiadau trafnidiaeth, tagfeydd a allyriadau yn dylanwadu ar benderfyniadau allweddol.
- Bydd ailddefnyddio safleoedd tir llwyd yn cael blaenoriaeth.
- Rhoddir flaenoriaeth i gysylltiadau rheilffordd. Bydd cysylltiadau â'r DU ac yn rhyngwladol yn digwydd drwy reilffyrdd ac ar y môr.
- Rydym yn cynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn frwd ac yn dod a defnydd o danwyddau ffosil iI ben. Nodir ardaloedd ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy.
- Mae effeithlonrwydd ynni'n cael ei hyrwyddo'n gryf, fel yw seilwaith storio a throsglwyddo ynni.
- Datblygir cynigion rheoli llifogydd cynaliadwy ar raddfa fawr.

## Opsiwn 4 – Ffocws ar wydnwch adnoddau naturiol

**Trosolwg**

Adeiladu cydnerthedd a gwydnwch ein hadnoddau naturiol yw'r sbardun polisi sylfaenol. Bydd pwyslais cryf ar bwysigrwydd cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol. Bydd y FfDC yn arwain datblygiad i'r lleoliadau mwyaf addas, gan flaenoriaethu'n gryf y goblygiadau o ran adnoddau naturiol mewn prosesau gwneud penderfyniadau gofodol. Bydd y FfDC yn sefydlu fframwaith gofodol ar gyfer seilwaith gwyrdd newydd.

**Tybiaethau allweddol**

- Egwyddorion SMNR yw ffactor allweddol yr opsiwn hwn.
- Ceisio cryfhau cydnerthedd adnoddau naturiol fel y canlyniad allweddol fydd y prif amcan ym mhob penderfyniad ar ddefnydd tir.
- Bydd y graddau o gynefinoedd a rhwydweithiau gwyrdd yn cynyddu.
- Bydd effeithiau ar fioamrywiaeth, tirweddau, cyrff dŵr a phridd yn cael eu lliniaru ac addasu.
- Bydd blaenoriaeth i reoli llifogydd mewn modd cynaliadwy.
- Bydd rhwydweithiau gwyrdd arloesol yn cael eu datblygu y Dinas-ranbarthau, gan sicrhau manteision ar gyfer symudedd rhywogaethau a pharhad cynefinoedd.
- Ffurfir rhwydweithiau gwyrdd ochr yn ochr â llwybrau trafnidiaeth allweddol.
- Bydd poblogaethau rhywogaethau a'u cynefinoedd yn cael eu gwella.
- Bydd rhagdybiaeth o blaid camau gweithredu i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

## Opsiwn 5 - Nid yw’r FfDC yn cael ei baratoi

**Trosolwg**

Byddai'r dewis amgen hwn yn golygu nad yw’r Fframwaith Datblygu Cenedlaethol yn cael ei baratoi. Bydd Cynllun Gofodol Cymru yn parhau fel y cynllun gofodol cenedlaethol, er nad oes ganddo statws cynllun datblygu. Byddai gallu'r system gynllunio i ymateb i ofynion Deddf yr Amgylchedd, Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol ac amcanion datgarboneiddio'r Llywodraeth Cymru yn cael eu cyfyngu i gamau gweithredu ar lefel leol a heb safbwynt strategol gyffredinol.

**Tybiaethau allweddol**

- Nid oes cynllun datblygu cenedlaethol.
- Y system gynllunio datblygu lleol fydd yr haen sylfaenol o gynllunio datblygu a gwneud penderfyniadau. Mewn amser mewn rhannau o Gymru, caiff CDSau eu paratoi.
- Bydd tueddiadau presennol yn parhau a byddai cynnydd tuag at amcanion a thargedau Llywodraeth Cymru allweddol yn aros ar eu taflwybrau presennol.
- Bydd newid yn yr hinsawdd yn fater canolog ac yn flaenoriaeth.
- Bydd Adfywio ac ardaloedd gwledig yn ffocws bwysig, ond mae band eang yn ystyriaeth gymharol fach.
- Bydd datblygu tai yn ystyriaeth ar wahân ac nid yn gysylltiedig ag amcanion ehangach.
- Bydd amcanion trafnidiaeth yn gysylltiedig â amcanion ffyniant yn gyffredinol, ond ni gwelir fel elfen hanfodol wrth gyflawni amcanion ehangach.
- Byddai adnoddau naturiol ac ynni yn cael eu gweld fel materion rhanbarthol, heb unrhyw safbwynt cenedlaethol na statws blaenoriaeth.

## Atodiad 2 – Ffurflen Ymateb

| Digwyddiad Ymgysylltu FfDC Hydref 2017 – Ffurflen Ymateb | |
|---|---|
| **Enw** | |
| **Sefydliad** | |
| **Sesiwn y mynychwyd** | |
| **Sylwadau ar yr Amcanion drafft** | |
| **Amcan 1** | |
| **Amcan 2** | |
| **Amcan 3** | |
| **Amcan 4** | |
| **Amcan 5** | |
| **Amcan 6** | |
| **Amcan 7** | |
| **Amcan 8** | |
| **Amcan 9** | |
| **Amcan 10** | |
| **Sylwadau arall** | |
| **Sylwadau ar yr Opsiynau Gofodol Drafft** | |
| **Opsiwn 1 – Ffocws ar y farchnad rydd** | |
| | |
| **Opsiwn 2 – Ffocws Gymunedol** | |
| | |
| **Opsiwn 3 – Ffocws ar ddatgarboneiddio** | |
| | |
| **Opsiwn 4 – Ffocws ar wydnwch adnoddau naturiol** | |
| | |
| **Opsiwn 5 – Nid yw'r FfDC yn cael ei baratoi** | |
| | |
| **Awgrymiadau ar gyfer Opsiynau Gofodol gwahanol** | |
| | |
| **Unrhyw sylwadau arall** | |
| | |

# Atodiad 5

## Sleidiau Cyflwyniadau'r Digwyddiadau Ymgysylltu

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.gov.wales

Fframwaith Datblygu Cenedlaethol

# FfDC: Cyd-destun a Thueddiadau'r Dyfodol

Hydref 2017

## FfDC: Tueddiadau'r Dyfodol a Chyd-destun

- Pwrpas y digwyddiad
- Trosolwg o'r FfDC
- Cyflwyniad
  - Rhan 1 – Tueddiadau'r Dyfodol
  - Rhan 2 – Cyd-destunm i'r FfDC
- Trafod Opsiynnau gofoldol gwahanol

# Pwrpas y digwyddiad


- Eich diweddaru gyda'n cynnydd
- Cyfle i chi gyfrannu at ddatblygu amcanion ac opsiynnau gofodol gwahanol i'r FfDC
- Amacanion – beth ry'n ni am i'r FfDC wneud
- Opsiynnau gofodol gwahanol – gwahanol ffyrdd y gall yr FfDC gyflawni'r amcanion
- Cyswllt uniongyrchol rhwng digwyddiadau ymgysylltu blaenorol a'r cam hwn

# Trosolwg o'r FfDC

- Cynllun Datblygu Cenedlaethol 20 mlynedd
- Disodli Cynllun Gofodol Cymru
- Polisi cynllunio gofodol cenedlaethol
- Prosiectau Cenedlaethol
- Cyd-destun ar gyfer DAC
- Llywio CDSau a CDLlau

# Rhan 1 – Tueddiadau'r Dyfodol


- Tueddiadau cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol allweddol y dyfodol
- Newid y ffordd ry'n ni'n gwneud penderfynaidau ac n cynllunio aty dyfodol
- 6 thema
  - Poblogaeth
  - Iechyd
  - Economi a Seilwaith
  - Newid Hinsawdd
  - Defnydd Tir ac Adnoddau Naturiol
  - Cymdeithas a Diwylliant




1/19

# Tueddiadau'r Dyfodol - Poblogaeth


Cymru: amcanestyniadau poblogaeth




Ffynhonnell: StatsCymru

2/19


# Tueddiadau’r Dyfodol - Poblogaeth




3/19

# Tueddiadau’r Dyfodol - Poblogaeth

## Cydrannau Newid Poblogaeth





Ffynhonnell: StatsCymru

4/19

# Tueddiadau'r Dyfodol - Poblogaeth

Cymru: amcanestyniadau poblogaeth ar gyfer pobl 80 oed a hŷn





Ffynhonnell: Stats Cymru

5/19

# Tueddiadau'r Dyfodol - Iechyd


Cymru: amcanestyniadau poblogaeth




Ffynhonnell: Stats Cymru

6/19

# Tueddiadau'r Dyfodol - Iechyd




Ffynhonnell: Swyddfa Ystadegau Gwladol (SYG)
https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/bulletins/healthstatelifeexpectanciesuk/2013to2015


| | dynion | | menywod | |
|---|---|---|---|---|
| | 2003/05 | 2013/15 | 2003/05 | 2013/15 |
| Cymru - disgwyliad oes ar adeg geni (blynyddoedd) | 76.1 | 78.4 | 80.5 | 82.3 |
| Gwahaniaeth o ran disgwyliad oes rhwng Cymru a'r DU (blynyddoedd) | -0.4 | -0.7 | -0.4 | -0.6 |
| Gwahaniaeth o ran disgwyliad oes rhwng Cymru a'r UE (27/28) (blynyddoedd) | 0.9 | 0.3 | -1.0 | -1.3 |

Ffynhonnell: SYG (Cymru a'r DU), Eurostat (UE)
https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandlifeexpectancies/bulletins/healthstatelifeexpectanciesuk/2013to2015
http://appsso.eurostat.ec.europa.eu/nui/show.do?dataset=hlth_hlye&lang=en

7/19

# Tueddiadau'r Dyfodol – Economi a Seilwaith


**Pobl sy'n teithio i'r gwaith (heb gynnwys cerdded), ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Mehefin 2015**




- Tueddir i ddefnyddio mwy o gludiant preifat mewn ardaloedd â phoblogaeth is
- Awgryma astudiaethau mai ychydig iawn o newid moddol fydd yn digwydd trwy wella cludiant cyhoeddus yn unig

8/19


# Tueddiadau'r Dyfodol – Economi a Seilwaith




Ffynhonnell: "Coalfield regeneration: dealing with the consequences of industrial decline", Bennet ac eraill, JRF, 2000, a StatsCymru
Noder: Mae data pyllau glo De Cymru yn enghreifftiol, gyda'r duedd wedi'i rhyngosod rhwng pwyntiau data. Nid yw'r data yn cynnwys cyflogaeth pyllau glo mewn rhannau eraill o Gymru

9/19

# Tueddiadau'r Dyfodol – Economi a Seilwaith




Ffynhonnell: SYG
Noder: Mae'r data ar gyfer "gweithgareddau eiddo tirol" yn cynnwys rhent a briodolwyd a dylid eu dehongli'n ofalus.

10/19

# Tueddiadau'r Dyfodol – Economi a Seilwaith

**Darpariaeth Cyfathrebau Digidol**


| Platform | UK 2016 | UK 2015 | England | Scotland | Wales | N Ireland |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Fixed line[1] | 99.9% | 99.9% | 100% | 99.9% | 100% | 100% |
| 2G mobile[2] | 99.6% | N/A | 99.7% | 99.1% | 98.4% | 98.8% |
| 3G mobile[3] | 99.6% | N/A | 99.8% | 97.9% | 98.6% | 99.4% |
| 4G mobile[4] | 97.8% | N/A | 98.8% | 92.0% | 90.1% | 99.3% |
| Digital satellite TV[5] | 98% | 98% | No data | No data | No data | No data |
| Digital terrestrial TV[6] | 99% | 99% | 99% | 99% | 98% | 97% |
| DAB BBC Network[7] | 97.2% | 96.4% | 98.2% | 95.0% | 92.2% | 85.4% |
| DAB commercial network (Digital One)[8] | 91.3% | 89.8% | 94.6% | 80.3% | 67.4% | 77.9% |
| DAB commercial network (Sound Digital)[9] | 76.5% | N/A | 80.2% | 64.4% | 51.5% | 56.6% |
| LLU ADSL broadband[10] | - | 95% | 96% | 89% | 93% | 89% |
| Virgin Media cable broadband[11] | - | 44% | 47% | 36% | 21% | 27% |
| BT Openreach/Kcom fibre broadband[12] | - | 82% | 82% | 75% | 83% | 92% |
| NGA broadband[13] | - | 90% | 90% | 85% | 87% | 95% |
| Superfast broadband[14] | - | 83% | 84% | 73% | 79% | 77% |

*Sources: Ofcom and operators:*

11/19

# Tueddiadau'r Dyfodol – Economi a Seilwaith

Cynhyrchu trydan o ynni adnewyddadwy yng Nghymru





Yn ystod 2015, roedd 20% o'r trydan a grëwyd yng Nghymru yn dod o ynni adnewyddadwy, o'i gymharu â 2.9% yn 2004

*Ffynhonnell: BEIS, Electricity generation and supply figures for Scotland, Wales, Northern Ireland and England*

12/19

# Tueddiadau'r Dyfodol – Newid Hinsawdd




13/19

# Tueddiadau'r Dyfodol – Newid Hinsawdd

Beth yw'r effeithiau i Gymru?


**Glaw yn 2050au**

- Cynnydd o 14% yn nyddodiad cymedrig y gaeaf

  Annhebygol iawn o fod < 2% a > na 30%).


- Gostyngiad o 17% yn nyddodiad cymedrig yr haf
  Annhebygol iawn o fod < 36% o ostyngiad a > 6% o gynnydd).

O dan senario Allyriadau Canolig yn y 2050au



Glaw gaeafol erbyn y 2080au


# Tueddiadau'r Dyfodol – Defnydd Tir ac Adnoddau Naturiol




15/19

# Tueddiadau'r Dyfodol – Defnydd Tir ac Adnoddau Naturiol


Tueddiadau rheoli gwastraff 2000/1–2013. Dangosir cyflenwadau gwastraff mewn cilodunelli fesul math o safle yng Nghymru. Mae'r duedd yn gwella ar y cyfan.




16/19

# Tueddiadau'r Dyfodol – Cymdeithas a Diwylliant

Dengys patrymau galwadau ffôn bod Cymru yn cysylltu llawer mwy â Lloegr na'r Alban:





- Mae rhannau o Gymru wedi'u cysylltu'n agos â rhanbarthau sydd wedi'u dominyddu gan ddinasoedd mawr Gorllewin Canolbarth Lloegr a Gogledd-orllewin Lloegr (ac mae "De Cymru" yn cynnwys rhan o Swydd Gaerloyw i'r gogledd o afon Hafren).
- Mae'r gwahaniaeth rhwng Cymru a'r Alban yn drawiadol, ac mae'r Alban wedi'i gwahanu'n sylweddol o weddill Prydain Fawr.

Ffynhonnell: Carlo Ratti.MIT
Defnydd gwreiddiol dim ond ar gael yn Saesneg.

17/19

# Tueddiadau'r Dyfodol – Cymdeithas a Diwylliant

**Yr angen am dai a'r cynnydd blynyddol mewn anheddau**





Yn ôl amcanestyniadau swyddogol ar gyfer lluniad aelwydydd, rhagwelir y bydd angen 8,700 o dai ychwanegol bob blwyddyn.

Cyn 2007-08, roedd oddeutu 8,000 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu bob blwyddyn. Mae'r ffigurau diweddar yn dangos arwyddion o wella, gydag oddeutu 6,000 o gartrefi newydd yn cael eu hadeiladu bob blwyddyn ar gyfartaledd yn ystod y 5 mlynedd ddiwethaf.

Ffynonellau: New House Building 2015-16 Datganiad Ystadegol (Llywodraeth Cymru)
Future Need and Demand for Housing in Wales (Sefydliad Polisi Cyhoeddus i Gymru)

18/19

# Tueddiadau'r Dyfodol – Cymdeithas a Diwylliant




**Gostyngiadau mwyaf mewn siaradwyr Cymraeg 2001-2011:**

| | |
|---|---|
| Sir Gaerfyrddin | -6 pwynt canran |
| Ceredigion | -5 pwynt canran |
| Gwynedd | -4 pwynt canran |

**Cynnydd mwyaf mewn siaradwyr Cymraeg 2001-2011:**

| | |
|---|---|
| Caerdydd | +4,231 |
| Sir Fynwy | +1,092 |
| Caerffili | +1,014 |

19/19

# Rhan 2 – Cyd-destun datblygu'r FfDC

- Cyflawni agweddau cynllunio defnydd tir o bolisi Llywodraeth Cymru e.e. Ffyniant i Bawb: y Strategaeth Genedlaethol
- Cefnogi polisïau ac amcanion strategol cyfredol
- Rhagweld a chefnogi polisïau a thueddiadau newydd, e.e. y strategaeth drafnidiaeth newydd

# Cyd-destun– Amcanion FfDC

- Asedau Diwylliianol ac Hanesyddol
- Tai
- Newid Hinsawdd, Datgarboneiddio ac Ynni
- Band-eang a Seilwaith Digidol
- Ffyniant Economaidd ac Adfywio
- Cefn Gwlad Cymru
- Dinas-Ranbarthau
- Trafnidiaeth
- Rheolaeth Gynaliadwy o Adnoddau Naturiol
- Y Gymraeg

# Opsiynau Gofodol Gwahanol

- Ry'n ni'n datblygu strategaeth ofodol ar gyfer y FfDC
- Pob opsiwn yn cynrychioli ffordd wahanol o ddatblygu'r FfDC
- Bydd pob opsiwn yn cael ei phrofi drwy'r ISA
- Canlyniadau positif a negyddol i bob opsiwn
- Mae'r profi yn helpu dod o hyd i'r llwybr gofodol cryfa' i allu cyflawni'n amcanion
- Gall hyn fod yn opsiwn cwbl newydd neu opsiwn sy'n cyfuno elfennau gorau'r opsiynau cyfredol

# Opsiynau Gofodol Gwahanol

- Ry'n ni am glywed eich barn chi ar yr opisynau drafft.
- Ydyn nhw'n realistig?
- Pa effeithiau cadarnhaol gellir eu sicrhau?
- Oes unrhyw effeithiau negyddol tebygol?
- Ydy'r FfDC (a'r system gynllunio) yn gallu cyflawni'r allbynnau hyn?

# Opsiwn 1 – Ffocws ar y Farchnad

**Trosolwg** – [illegible] Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (DNS). [illegible]

**Pam yr opsiwn yma?** – Mae consensws ar yr angen am bersbectif cenedlaethol - trafnidiaeth, ynni, angen gyrru cyflenwi a darparu sicrwydd; cydnabod potensial ar gyfer prosiectau mawr; diddordeb mewn targedau cenedlaethol - cynhyrchiant, ynni a chodi tai; problemau canfyddedig - cyflwyno a chyflymder; meddwl silo a methu cyfleoedd i alinio buddsoddiad; mae economi yn sail i lawer o faterion.

**Cymru 2040**

Tai
*Ffocws ar y marchnadoedd cryfaf gan gynnwys tir glas*

Ynni
*Prosiectau seilwaith ar raddfa genedlaethol*

Economi
*Buddsoddi mewn seilwaith, sectorau allweddol a thwf ar bob lefel*

Adfywio a Buddsoddi Cyhoeddus
*Canolbwyntio ar ardaloedd â'r potensial mwyaf.*

Cymru Wledig
*Cefnogi cyfleon - ond nid dyma'r flaenoriaeth*

Dinas Ranbarthau
*Cefnogaeth gref gan ffocysu ar fanteisio ar botensial economaidd*

Trafnidiaeth
Prosiectau mawr i sbarduno'r economi; prosiectau sy'n gwella cysylltedd rhyngwladol Cymru

**Tybiaethau Allweddol**

- Nodi DNS ar gyfer prosiectau datblygu allweddol a seilwaith.
- Lefelau sylweddol o fuddsoddiad mewn trafnidiaeth, ynni a seilwaith digidol.
- Ystyrir mai dinasoedd a'u rhanbarthau yw'r prif yrwyr economaidd.
- Cyfraddau tai uwch a datblygu economaidd, gyda tir glas yn cael ei ryddhau.
- Ymlacio rhai rheoliadau cynllunio a rhai cyfundrefnau amgylcheddol.
- Mae cysylltedd mewnol ac allanol yn cael ei wella'n weithredol, gan gynnwys gwell cysylltiadau awyr, môr, ffyrdd a rheilffyrdd cyflymder uchel i Loegr a thu hwnt.
- Mae'r sector preifat yn arwain buddsoddiad yn y sector ynni a gwastraff.

# Opsiwn 2 – Ffocws gymunedol

**Trosolwg** - Mae'r opsiwn hwn yn ceisio cryfhau a chreu cymunedau lleol cryf. Mae'r ffocws ar sicrhau bod gan bawb fynediad i'r swyddi, tai, gwasanaethau a chyfleusterau sydd eu hangen arnynt. Mae buddiannau'r rhai sydd â'r angen mwyaf yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer gweithredu ac mae pwyslais cryf ar bobl a'u lles. Byddai mynediad i wasanaethau a chyfleusterau, cynhwysiad cymdeithasol a gwella iechyd yn ystyriaethau allweddol.

**Pam yr opsiwn yma?** – Nododd yr ymgysylltiad bwysigrwydd cymunedau, gwasanaethau a chyfleusterau lleol, yr angen am atebion tai lleol, dad-boblogi, effaith ar yr iaith Gymraeg, dyfodol economi leol a phwysigrwydd ffermwaith ar gyfer Cymru wledig. Pwysig deall effaith penderfyniadau cynllunio cenedlaethol ar gymunedau lleol.

## Cymru 2040

**Tai**
*Ar raddfa fach, anghenion lleol*

**Ynni**
*Seilwaith lleol a chymunedol*

**Economi**
*Economïau cymdeithasol lleol, swyddi yn agos at gartrefi*

**Adfywio a buddsoddi cyhoeddus**
*Blaenoriaethu'r ardaloedd â'r angen mwyaf*

**Cymru Wledig**
*Gwrthdroi dad-boblogi*

**Dinas ranbarthau**
*Ffocws ar y rhanbarth gyfan a chydraddoldeb i bob cymuned*

**Trafnidiaeth**
*Ffocws gymunedol, lleihau'r angen i deithio*

## Tybiaethau allweddol

- Mae gwella iechyd a lles yn allweddol, gyda gwelliannau o ansawdd aer wedi'u targedu.
- Mae adfywio a mynd i'r afael ag amddifadedd yn ffocws allweddol, gyda datblygiad economaidd yn canolbwyntio ar y meysydd sydd â'r angen mwyaf
- Cefnogir tai fforddiadwy lleol, gyda chefnogaeth gref ar gyfer tai lleol a hunanadeiladu.
- Mae hygyrchedd yn ganolog i wneud penderfyniadau a rhaid i ddewisiadau lleoliad sicrhau mynediad i holl aelodau'r gymdeithas.
- Mae'r PfDC yn pwysleisio cysylltedd digidol.
- Mae cynlluniau ynni adnewyddadwy sy'n eiddo i'r gymuned yn cael eu blaenoriaethu.
- Cefnogaeth gref ar gyfer economi cylchol a gwastraff fel adnodd.
- Patrymau aneddiadau cynaliadwy - cartrefi sy'n agos at swyddi a gwasanaethau a chyfleusterau allweddol, gan leihau'r angen i deithio a sicrhau patrymau defnydd tir cynaliadwy

# Opsiwn 3 – Ffocws ar Ddatgarboneiddio

**Trosolwg** – Datgarboneiddio a newid hinsawdd [illegible]

**Pam yr opsiwn yma?** – prif flaenoriaeth LlC; consensws cryf ar bwysigrwydd; helpu i fynd i'r afael â newid hinsawdd a materion amgylcheddol a hefyd yn gyfle economaidd; ar bob graddfa - cenedlaethol a lleol; yn effeithio ar bob mater - tai, cludiant, amgylcheddol; ystod o gyfleoedd - dim ymyriad unigol; mater i Gymru gyfan; Cydnabyddiaeth glir o bwysigrwydd 'cynllunio defnydd tir'.

## Cymru 2040

**Tai**
*Lleoliadau mwyaf cynaliadwy – lleihau'r angen i deithio / newid moddol*

**Ynni**
*Ffocws ar dargedau [illegible] – pob rhan o'r system gynllunio yn unedig [illegible] amcan hwn*

**Economi**
*Economi carbon isel, sectorau cynaliadwy cryf*

**Adfywio a buddsoddi cyhoeddus**
*Ffocysu ar y lleoliadau mwyaf cynaliadwy*

**Cymru wledig**
*Cymunedau hunan-gynhaliol cryf – gyda chysylltiadau da*

**Dinas ranbarthau**
*Cysylltiedig, hygyrch, wedi eu cynllunio*

**Trafnidiaeth**
*Cysylltiad cryf a defnydd tir – lleihau'r angen i deithio / newid moddol*

## Tybiaethau Allweddol

- Rhaid i ddatblygiad fod yn wydn i effeithiau newid hinsawdd.
- Ni fydd amcanion economaidd yn gorbwyso'r broses o gyflawni datgarboneiddio ac amcanion newid yn yr hinsawdd.
- Mae lleihau symudiadau cludiant, tagfeydd ac allyriadau yn dylanwadu ar benderfyniadau allweddol.
- Bydd ailddefnyddio safleoedd tir llwyd yn cael ei flaenoriaethu.
- Mae cysylltedd rheilffordd yn cael ei flaenoriaethu'n weithredol. Bydd cysylltiadau'r DU a rhyngwladol yn rheilffordd ac yn y môr.
- Ymgymerir â chynhyrchu ynni adnewyddadwy a charbon isel yn weithredol a chaiff tanwydd ffosil ei ddiddymu'n raddol. Nodir meysydd ar gyfer datblygiadau ynni adnewyddadwy.
- Hyrwyddir effeithlonrwydd ynni'n gryf, yn ogystal â seilwaith storio a throsglwyddo ynni.
- Datblygir cynigion rheoli llifogydd cynaliadwy ar raddfa fawr.

# Opsiwn 4 – Ffocws ar Wydnwch Adnoddau Naturiol

**Trosolwg** - Y prif ysgogwr polisi yw adeiladu gwydnwch a gwneud y mwyaf o botensial ein hadnoddau naturiol. Byddai pwyslais cryf ar bwysigrwydd cynefinoedd a rhwydweithiau ecolegol. Byddai'r FfDC yn arwain datblygiad i'r lleoliadau mwyaf addas, gan flaenoriaethu'n gryf oblygiadau adnoddau naturiol wrth wneud penderfyniadau gofodol. Bydd y FfDC yn sefydlu fframwaith gofodol ar gyfer seilwaith gwyrdd newydd.

**Pam y opsiwn yma?** – prif flaenoriaeth LlCC; pwysigrwydd tyfu economïau cynaliadwy hirdymor yn seiliedig ar ein hadnoddau naturiol; amaethyddiaeth, coedwigaeth, YA, dŵr a thwristiaeth; dulliau sy'n cefnogi amcanion newid yn yr hinsawdd; canolbwyntio ar y gymuned; yn torri i lawr meddylfryd silo - deall ein hadnoddau naturiol mewn gwahanol ffyrdd.

**Cymru 2040**

Tai
*Dull seiliedig ar leoedd, wedi ffocysu ar gymunedau*

Ynni
Cynyddu YA & effeithlonrwydd adnoddau

Economi
*Pwyslais cryf ar economi gylchol; dŵr, carbon, YA*

Adfywio a Buddsoddi Cyhoeddus
*Ar sail gymunedol er mwyn manteisio ar adnoddau naturiol lleol*

Cymru Wledig
*Cryfhau drwy ffocysu ar fanteisio ar adnoddau naturiol*

Dinas Ranbarthau
*Ffocws ar addasu a lliniaru newid hinsawdd*

Trafnidiaeth
*Anelu at symud pobl a nwyddau oddi ar ffyrdd, coridorau gwyrdd*

**Tybiaethau allweddol**

- Egwyddorion SMNR yn sbardun allweddol i'r dewis hwn.
- Gofynnir am gryfhau cadernid adnoddau naturiol fel canlyniad allweddol ym mhob penderfyniad defnydd tir.
- Bydd maint y cynefinoedd a'r rhwydweithiau gwyrdd yn cynyddu.
- Caiff effeithiau ar fioamrywiaeth, tirweddau, cyrff dŵr a phridd eu lliniaru a'u haddasu.
- Bydd rheoli llifogydd cynaliadwy yn cael ei flaenoriaethu.
- Bydd rhwydweithiau gwyrdd arloesol yn cael eu datblygu yn y dinas-ranbarthau'r ddinas, gan ddarparu buddion ar gyfer parhad cynefinoedd a symud rhywogaethau.
- Mae rhwydweithiau gwyrdd yn cael eu ffurfio ochr yn ochr â llwybrau trafnidiaeth allweddol.
- Bydd poblogaethau rhywogaethau a'u cynefinoedd yn cael eu gwella.
- Mae rhagdybiaeth o blaid gweithredoedd i fynd i'r afael â newid yn yr hinsawdd.

# Dyddiadau allweddol y FfDC

| | |
|---|---|
| **Ebrill 2018** | Ymgynghori ar Amcanion yr FfDC a Strategaeth a ffefrir |
| **Gorffennaf 2019** | Ymgynghori ar ddrafft o'r FfDC |
| **Ebrill 2020** | Ystryriaeth ffurfiol gan y Cynulliad Cenedlaethol |
| **Medi 2020** | Cyhoeddi'r FfDC |

32

# Cwestiynau a Thrafodaeth

http://llyw.cymru 0300 025 6657 ffdc@cymru.gsi.gov.uk